



Y Deyrnas Unedig yn gadael yr Undeb Ewropeaidd a'i pherthynas newydd â hi



Y Deyrnas Unedig yn gadael yr Undeb Ewropeaidd a'i pherthynas newydd â hi

Cyflwynwyd i'r Senedd
gan y Prif Weinidog
drwy Orchymyn Ei Mawrhydi

Chwefror 2017



© Hawlfraint y Goron 2017

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/ neu ysgrifennwch at y Tîm Polisi Gwybodaeth, yr Archifau Cenedlaethol, Kew, Llundain TW9 4DU, neu anfonwch e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Os ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth am hawlfraint trydydd parti, bydd angen ichi gael caniatâd gan ddeilydd yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn atom i publiccorrespondence@cabinetoffice.gov.uk

ISBN yr Argraffiad 9781474140652

ISBN y We 9781474140669

ID 01021701 02/17 52309

Argraffwyd ar bapur yn cynnwys lleiafswm o 75% o gynnwys ffibr wedi'i ailgylchu

Argraffwyd yn y DU gan y Williams Lea Group ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

Rhagair gan y Prif Weinidog



“Nid ydym yn dechrau ar y trafodaethau hyn gan ddisgwyl methu, ond gan ddisgwyl llwyddo.

A hynny gan ein bod yn genedl wych, fyd-eang sydd â chymaint i’w gynnig i Ewrop a chymaint i’w gynnig i’r byd.

Dyna ichi un o economïau mwyaf a chryfaf y byd. Y gwasanaethau cudd-wybodaeth gorau, y lluoedd arfog dewraf, y pŵer caled a meddal mwyaf effeithiol, a chyfeillion, partneriaethau a chynghreiriaid ar bob cyfandir.

A dyma ichi rywbeth arall pwysig. Y peth hwnnw sy’n hanfodol er mwyn inni lwyddo. Cryfder a chefnogaeth 65 miliwn o bobl sy’n eiddgar inni sicrhau bod hyn yn digwydd.

Oherwydd ar ôl yr holl raniadau a’r holl anghydfod, mae’r wlad yn dod ynghyd.

Roedd y refferendwm yn un a achosodd rwyg ar brydiau. A chymerodd sbel i’r rhwygiadau hynny ddiplannu.

Ond un o’r rhesymau pam fod democratiaeth Prydain wedi bod yn gymaint o lwyddiant am gynifer o flynyddoedd yw cryfder ein hunaniaeth fel un genedl, y parch a ddangoswn at ein gilydd fel cyd-ddinasyddion, a’r pwysigrwydd a roddwn i’n sefydliadau, ac mae hynny’n golygu ein bod yn parchu’r canlyniad pan gynhelir pleidlais. Mae gan y buddugwyr gyfrifoldeb i ymddwyn yn haelfrydig. Mae gan y rheini a gollodd gyfrifoldeb i barchu dilysrwydd y canlyniad. Ac mae’r wlad yn dod ynghyd.

A dyna'r ydym yn ei weld heddiw. Nid yw'r byd busnes yn galw am wyrdroi'r canlyniad, ond mae'n cynllunio yn hytrach i lwyddo yn ei sgil. Cafwyd pleidlais hynod o gryf yn Nhŷ'r Cyffredin yn galw arnom i fwrw yn ein blaenau. Ac mae mwyafrif llethol y bobl – sut bynnag y pleidleisiodd y rheini – am inni fwrw yn ein blaenau hefyd.

Ac felly dyna y byddwn ni’n ei wneud.

Nid ffurfio perthynas newydd ag Ewrop yn unig, ond adeiladu Prydain gryfach, decach a mwy byd-eang hefyd.

A boed i hynny fod yn waddol o'n cyfnod ni. Dyna'r wobwr y gweithiwn tuag ati. Dyna ein cyrchfan ar ôl i'r gwaith trafod ddod i ben.

A gadewch inni beidio â gwneud hyn er ein mwyn ein hunain, ond er mwyn y rheini a fydd yn ein dilyn. Er lles plant a wyrion a wyresau'r wlad hefyd.

A phan fydd cenedlaethau'r dyfodol yn edrych yn ôl i'r cyfnod hwn, byddant yn ein barnu nid yn unig ar y penderfyniad a wnaethom, ond ar yr hyn a wnaethom yn sgil y penderfyniad hwnnw.

Byddant yn gweld ein bod wedi creu dyfodol mwy

disglair iddynt. Byddant yn gwybod ein bod wedi creu

Prydain well ar eu cyfer."

A handwritten signature in dark ink, appearing to read 'T. May', with a long horizontal stroke extending to the right.

Y PRIF WEINIDOG Y GWIR ANRHYDEDDUS
THERESA MAY AS
LANCASTER HOUSE, 17 IONAWR 2017

Rhagymadrodd gan yr Ysgrifennydd Gwladol



Mae pobl y Deyrnas Unedig (y DU) wedi pleidleisio i adael yr UE a bydd y Llywodraeth hon yn parchu'r dymuniad hwnnw. Byddwn yn cychwyn proses Erthygl 50 o Gytuniad yr Undeb Ewropeaidd erbyn diwedd mis Mawrth 2017 er mwyn cychwyn y broses o adael. Byddwn yn trafod i gael y cytundeb cywir i'r DU gyfan a hynny er budd y genedl.

Wrth i'n heconomi ddangos ei bod yn gydnerth, mae'r DU yn dechrau ar y trafodaethau hyn o fan cychwyn cryf.

Rydym yn dechrau ar y trafodaethau mewn sefyllfa unigryw.

Ar hyn o bryd, mae gennym yr un rheolau, yr un rheoliadau a'r un safonau'n union â gweddill yr UE. Yn wahanol i'r rhan fwyaf o drafodaethau, nid dwyn dwy system wahanol ynghyd fydd nod y trafodaethau hyn ond yn hytrach rheoli'r modd y bydd y DU a'r UE yn parhau i gydweithio. Ni fydd y pwyslais ar gael gwared ar rwystrau sy'n bodoli'n barod nac ar gwestiynu rhagolygon penodol, ond yn hytrach ar sicrhau nad yw rhwystrau newydd yn cael eu creu.

Mae'r cysylltiadau rhwng y DU a gweddill Ewrop yn niferus ac yn hirsefydlog – ac nid dim ond yn yr UE ei hun y maent yn bodoli. Maent yn amrywio o'n hymrwymiad ar y cyd i NATO i'r gwerthoedd a rannwn sy'n sylfaen i'n cymunedau, fel democratiaeth a rheol gyfreithiol.

Mae'r DU am i'r UE lwyddo. Yn wir, mae o fudd inni bod yr UE yn ffynnu yn wleidyddol ac yn economaidd a bydd partneriaeth gref, newydd â'r DU yn gymorth yn hynny o beth.

Yn y trafodaethau sydd i ddod, gobeithiwn y bydd yr UE yn cael ei harwain gan yr egwyddorion yng Nghytuniadau'r UE ynghylch sicrhau elfen gref o gydweithio rhyngwladol a bod yn gymdogion da.

Ar 17 Ionawr 2017, amlinellodd y Prif Weinidog y 12 egwyddor a fydd yn arwain y Llywodraeth wrth iddi roi ar waith ewyllys ddemocrataidd pobl y DU. Y rhain yw:

1. Rhoi sicrwydd ac eglurder;
2. Rheoli ein cyfreithiau ein hunain;
3. Cryfhau'r Undeb;
4. Diogelu ein cysylltiadau cryf a hanesyddol ag Iwerddon a chadw'r Ardal Deithio Gyffredin;
5. Rheoli mewnfudo;
6. Diogelu hawliau gwladolion yr UE yn y DU a gwladolion y DU yn yr UE;
7. Gwarchod hawliau gweithwyr;
8. Sicrhau masnachu rhydd â marchnadoedd Ewrop;
9. Sicrhau cytundebau masnach newydd â gwledydd eraill;
10. Sicrhau mai'r DU o hyd yw'r lle gorau i wyddoniaeth ac arloesi;
11. Cydweithio yn y frwydr yn erbyn troseddu a therfysgaeth;
12. Gadael yr UE mewn ffordd ddiffwdan a threfnus.

Yn y papur hwn rydym yn dangos y sail dros y 12 blaenoriaeth hyn a'r strategaeth gyffredinol sy'n eu huno wrth greu partneriaeth strategol newydd rhwng y DU a'r UE.

Rydym wedi parchu penderfyniad y Senedd na ddylem gyhoeddi manylion a fyddai'n ein tanseilio wrth inni gynnal y trafodaethau.

Fodd bynnag, rydym wedi ymrwymo i ymwneud yn helaeth â'r Senedd ac i barhau i geisio barn y cyhoedd yn rheolaidd, yn yr un modd ag y mae hynny wedi rhoi sail inni weithio hyd yma. Byddwn yn parhau i geisio barn yn eang ac yn ceisio creu consensws cenedlaethol ar gyfer ein safbwynt wrth drafod.

Nid oedd canlyniad y refferendwm yn ganlyniad i droi cefn ar Ewrop. Yn hytrach, roedd yn bleidlais o hyder yng ngallu'r DU i lwyddo yn y byd – mynegiant o optimistiaeth bod ein dyddiau gorau eto o'n blaenau.

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu ein cynllun ar gyfer y berthynas gref a newydd rydym am ei chreu â'r UE. Waeth beth fydd canlyniad y trafodaethau, byddwn yn ceisio creu Teyrnas Unedig sy'n fwy agored, yn iach ei hagwedd, yn hyderus ac yn decach, a honno'n gweithio i bawb.



Y GWIR ANRHYDEDDUS DAVID DAVIS AS
YR YSGRIFENNYDD GWLADOL DROS ADAEL Y UNDEB EWROPEAIDD

Cynnwys

1. **Rhoi sicrwydd ac eglurder** – Byddwn yn rhoi sicrwydd bob tro lle gallwn wrth inni gynnal y trafodaethau.
2. **Rheoli ein cyfreithiau ein hunain** – Byddwn yn rheoli ein llyfr statud ein hunain ac yn dod ag awdurdodaeth Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd i ben yn y DU.
3. **Cryfhau'r Undeb** – Byddwn yn sicrhau cytundeb sy'n gweithio i'r DU gyfan – i'r Alban, Cymru, Gogledd Iwerddon a phob rhan o Loegr. Mae ein hymrwymiad llwyr i Gytundeb Belfast a'r rhai a fydd yn ei olynu'n parhau.
4. **Diogelu ein cysylltiadau cryf a hanesyddol ag Iwerddon a chadw'r Ardal Deithio Gyffredin** – Byddwn yn gweithio i ganfod ateb ymarferol sy'n ein galluogi i gadw'r Ardal Deithio Gyffredin, mewn ffordd sy'n sicrhau bod gennym ein system fewnfudo ein hunain ac yn diogelu ein cysylltiadau cryf ag Iwerddon.
5. **Rheoli mewnfudo** – Ni fydd yn rheoli nifer y gwladolion o'r UE sy'n dod i'r DU.
6. **Sicrhau hawliau gwladolion yr UE yn y DU, a gwladolion y DU yn yr UE** – Rydym am ddiogelu statws dinasyddion yr UE sydd eisoes yn byw yn y DU, a statws gwladolion y DU mewn Aelod-Wladwriaethau eraill, a hynny cyn gynted ag y gallwn.
7. **Gwarchod hawliau gweithwyr** – Byddwn yn gwarchod ac yn ehangu hawliau presennol gweithwyr.
8. **Sicrhau masnachu rhydd â marchnadoedd Ewrop** – Byddwn yn creu partneriaeth strategol newydd â'r UE, gan gynnwys sicrhau cytundeb masnach rydd pellgyrhaeddol, mentrus ac uchelgeisiol, ac yn ceisio trefniant tollau newydd â'r UE sy'n fuddiol i'r naill ochr a'r llall.
9. **Sicrhau cytundebau masnach newydd â gwledydd eraill** – Byddwn yn creu perthnasau masnach rydd uchelgeisiol ar draws y byd.
10. **Sicrhau mai'r DU o hyd yw'r lle gorau i wyddoniaeth ac arloesi** – Byddwn yn parhau ar flaen y gad yn y maes gwyddoniaeth ac arloesi, ac yn ceisio parhau i gydweithio'n agos â'n partneriaid Ewropeaidd.
11. **Cydweithio yn y frwydr yn erbyn troseddu a therfysgaeth** – Byddwn yn parhau i weithio â'r UE i gadw Ewrop yn ddiogel, ac i frwydro yn erbyn terfysgaeth a chynnal cyfiawnder yn Ewrop.

12. Gadael yr UE mewn ffordd ddiffwdan a threfnus – Byddwn yn ceisio dilyn proses raddol o roi pethau ar waith, lle bydd y DU, sefydliadau'r UE a gweddill Aelod-Wladwriaethau'r UE yn paratoi at y trefniadau newydd a fydd yn bodoli rhyngom.

Casgliad

Atodiadau

A. Enghreifftiau o ddulliau o ddatrys anghydfodau

B: Y DU/Iwerddon

1. Rhoi sicrwydd ac eglurder

Rydym yn cydnabod pa mor bwysig yw hi i roi cymaint o sicrwydd â phosibl i fusnesau, y sector cyhoeddus a'r cyhoedd. Ac felly cyn y trafodaethau, a thrwy gydol y trafodaethau hynny, byddwn yn rhoi sicrwydd pryd bynnag y gallwn. Byddwn yn rhoi cymaint o wybodaeth ag y gallwn heb danseilio budd y genedl.

Rhoi sicrwydd cyfreithiol

1.1 Er mwyn rhoi sicrwydd cyfreithiol wrth adael yr UE, byddwn yn cyflwyno Bil Diddymu Mawr er mwyn cael gwared ar Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 o'r llyfr statud a throsi'r 'acquis' – sef y corff presennol o gyfraith yr UE – yn gyfraith ddomestig. Mae hyn yn golygu, pryd bynnag y bydd hynny'n ymarferol ac yn briodol, y bydd yr un rheolau a'r un cyfreithiau yn berthnasol y diwrnod ar ôl gadael yr UE â chynt.

1.2 Bydd gwneud hyn yn cadw'r hawliau a'r rhwymedigaethau sydd eisoes yn bodoli yn y DU o dan gyfraith yr UE ac yn rhoi sylfaen ddiogel ar gyfer newid ein cyfraith ddomestig yn y dyfodol. Bydd hyn yn galluogi busnesau i barhau i fasnachu gan wybod na fydd y rheolau yn newid yn sylweddol dros nos, ac mae'n rhoi tegwch i deuluoedd gan na fydd eu hawliau a'u rhwymedigaethau yn newid yn sydyn. Bydd hefyd yn bwysig i fusnesau yn y DU a'r UE fel ei gilydd gael cymaint o sicrwydd cyn gynted â phosibl.

1.3 Ar ôl inni adael yr UE, bydd y Senedd (a lle bydd hynny'n briodol, y deddfwrfeydd datganoledig) yn gallu penderfynu wedyn pa elfennau o'r gyfraith honno i'w cadw, i'w diwygio neu i'w diddymu.

1.4 Byddwn yn cyhoeddi Papur Gwyn ar y Bil Diddymu Mawr a bydd hwnnw'n rhoi mwy o fanylion am sut y bwriadwn fwrw ati.

1.5 Bydd angen i ddeddfwriaeth ddomestig hefyd adlewyrchu cynnwys y cytundeb y bwriadwn ei sicrhau â'r UE.

Y Bil Diddymu Mawr

Cyflwynwyd y Bil Diddymu Mawr i'r Senedd ar 10 Hydref 2016. Mae tair prif elfen i'r Bil:

- Yn gyntaf, bydd yn diddymu Deddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972, ac wrth wneud hynny, yn dychwelyd pŵer i wleidyddion a sefydliadau'r DU.
- Yn ail, bydd y Bil yn cadw cyfraith yr UE fel y mae y foment cyn inni adael yr UE. Ar ôl inni adael yr UE, bydd y Senedd (a lle bydd hynny'n briodol, y deddfwrfeydd datganoledig) yn gallu penderfynu wedyn pa elfennau o'r gyfraith honno i'w cadw, i'w diwygio neu i'w diddymu. Bydd llysoedd y DU wedyn yn gweithredu'n unol â'r penderfyniadau hynny gan y Senedd a'r deddfwrfeydd datganoledig.
- Yn olaf, bydd y Bil yn ein galluogi i wneud newidiadau i is-ddeddfwriaeth na fydd fel arall yn gweithio ar ôl inni adael yr UE, fel bod ein system gyfreithiol yn parhau i weithio'n iawn y tu allan i'r UE.

Yn gyffredinol, yr hyn y mae'r Llywodraeth yn ceisio'i wneud wrth gadw cyfraith yr UE yw sicrhau bod holl gyfreithiau'r UE sy'n uniongyrchol berthnasol yn y DU (fel rheoliadau'r UE), a phob cyfraith sydd wedi'i gwneud yn y DU er mwyn cyflawni ein rhwymedigaethau fel aelod o'r UE, yn parhau'n rhan o gyfraith ddomestig ar y diwrnod y byddwn yn gadael yr UE.

Mae'r Llywodraeth hefyd yn credu y dylai'r gyfraith sy'n cael ei chadw, yn gyffredinol, barhau i gael ei dehongli yn yr un modd ag ar hyn o bryd. Diben hyn yw sicrhau bod cysondeb yn ystod y broses, a'i bod yn rhoi eglurder. Bydd rhyddid gan y Senedd yn y dyfodol i gadw neu i newid y cyfreithiau hyn.

Craffu a chyfraniad y Senedd a'r cyhoedd

1.6 Byddwn yn parhau i ddatblygu consensws cenedlaethol ynghylch ein safbwynt yn y trafodaethau, a hynny drwy wrando a siarad â chynifer o sefydliadau, cwmnïau a chyrff â phosibl. Mae gweinidogion y Llywodraeth wedi bod yn trafod yn eang â'u sectorau ac mae gweinidogion o'r Adran dros Adael yr UE yn unig wedi cynnal tua 150 o ddigwyddiadau i geisio barn rhanddeiliaid, a hynny ym mhob sector o'r economi. Mae'r rhan fwyaf o'r digwyddiadau hynny wedi'u cynnal y tu allan i Lundain a thrwy'r DU, gan gynnwys yn yr Alban, Cymru, Gogledd Iwerddon a Lloegr. Mae hyn wedi bod yn help i'r Llywodraeth ddeall y materion sy'n bwysig i fusnesau a rhanddeiliaid eraill cyn y trafodaethau. Bydd y gwaith hwn yn parhau drwy gydol y cyfnod cyn inni adael.

1.7 Bydd y gweinyddiaethau datganoledig yn parhau i gyfrannu drwy'r Cyd-bwyllgor Gweinidogion a'i is-bwyllgor ar Negodiadau'r UE. Y Prif Weinidog sy'n cadeirio cyfarfodydd llawn y Cyd-bwyllgor ac mae Prif Weinidogion Cymru a'r Alban a Phrif Weinidog a Dirprwy Brif Weinidogion Gogledd Iwerddon yn aelodau ohono. Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Adael yr Undeb Ewropeaidd sy'n cadeirio cyfarfodydd yr is-bwyllgor, ac mae arno aelodau o bob un o weinyddiaethau datganoledig y DU.

1.8 Mae gan y Senedd gyfraniad hollbwysig i'w wneud. Yn gyntaf, bydd angen deddfwriaeth er mwyn rhoi effaith i'r broses o adael yr UE ac, wrth gwrs, y Senedd fydd i benderfynu ar gynnwys unrhyw ddeddfwriaeth o'r fath. Mae hyn yn cynnwys y Bil Diddymu Mawr, ond bydd unrhyw newidiadau polisi eraill yn cael eu seilio ar ddarnau eraill o ddeddfwriaeth sylfaenol – gan roi'r cyfle i'r Senedd drafod y newidiadau a chraffu arnynt. Er enghraifft, disgwyliwn gyflwyno biliau ar wahân ar fewnfudo a thollau. Bydd rhaglen o is-ddeddfwriaeth yn cael ei rhoi ar waith o dan y Bil Diddymu Mawr hefyd er mwyn mynd i'r afael â diffygion yn y gyfraith sy'n cael ei chadw, a bydd y Senedd yn goruchwyllo'r rhaglen hon.

1.9 Bydd y ddau Dŷ, Pwyllgor Dethol Tŷ'r Cyffredin ar Adael yr UE a phwyllgorau dethol eraill yn helpu i graffu a dylanwadu ar y penderfyniadau a wneir. Ers mis Medi, yn ogystal â'r dadleuon sydd wedi'u trefnu gan y gwrthbleidiau neu Bwyllgor Busnes y Meinciau Cefn, a'r dadleuon yn Nhŷ'r Arglwyddi, mae'r Llywodraeth wedi cynnal pedair dadl yn Nhŷ'r Cyffredin yn amser y Llywodraeth ar effaith gadael yr UE ar amryw o sectorau, gan gynnwys:

- hawliau gweithwyr;
- polisi trafnidiaeth;
- gwyddoniaeth ac ymchwil; a
- diogelwch, gorfodi'r gyfraith a chyfiawnder troseddol.

Bydd y rhaglen hon o ddadleuon yn parhau.

1.10 Mae'r Llywodraeth wedi gwneud pum Datganiad Llafar i'r Senedd ynghylch gadael yr UE ac wedi ateb dros 500 o Gwestiynau Seneddol. Mae gweinidogion o'r Adran dros Adael yr UE hefyd wedi ymddangos 12 gwaith gerbron pwyllgorau dethol, ac mae'r pwyllgorau hynny wedi cynnal, neu ar hyn o bryd wrthi'n cynnal, 36 o ymchwiliadau ar faterion sy'n ymwneud â gadael yr UE. Bydd gweinidogion y Llywodraeth yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd a bydd y Llywodraeth yn parhau i sicrhau bod digon o gyfle i'r ddau Dŷ i drafod y materion pwysig sy'n deillio o adael yr UE.

1.11 Er mwyn i'r Llywodraeth sicrhau'r canlyniad gorau yn y trafodaethau, bydd angen inni gadw'n safbwynt yn dawel ac ar adegau bydd angen inni fod yn ofalus am y sylwadau a wnawn yn gyhoeddus. Ein cyfrifoldeb sylfaenol i bobl y DU yw sicrhau ein bod llwyddo i gael y cytundeb gorau posibl o'r trafodaethau. Byddwn, fodd bynnag, yn sicrhau bod Senedd y DU yn cael cymaint o wybodaeth, fan lleiaf, â'r wybodaeth y bydd aelodau Senedd Ewrop yn ei chael.

1.12 Bydd y Llywodraeth wedyn yn cyflwyno'r cytundeb terfynol a gaiff ei lunio rhwng y DU a'r UE gerbron dau Dŷ'r Senedd ar gyfer pleidlais.

Ymrwymïadau ariannu

1.13 Rydym yn cydnabod pa mor bwysig i fusnesau yw cael sicrwydd ynghylch trefniadau ariannu dros y blynyddoedd nesaf. Rydym wedi cymryd camau cyflym eisoes i roi eglurder ynghylch taliadau i ffermydd, grantiau cystadleuol, gan gynnwys cyllid ar gyfer gwyddoniaeth ac ymchwil, a chronfeydd strwythurol a buddsoddi.

Ymrwymïadau ariannu y mae'r Llywodraeth hon eisoes wedi'u gwneud

Bydd pob prosiect o dan Gronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd y cytunwyd arnynt cyn Datganiad Ariannol 2016, neu lle trefnwyd y cytundebau ariannu cyn hynny, yn cael eu hariannu'n llawn, hyd yn oed pan fydd y prosiectau hyn yn parhau ar ôl i'r DU adael yr UE. Mae hyn yn cynnwys cynlluniau amaeth-amgylcheddol o dan y Polisi Amaeth Cyffredin.

Yn achos prosiectau y cytunir arnynt ar ôl Datganiad yr Hydref 2016 ac a fydd yn parhau ar ôl inni adael yr UE, bydd Trysorlys EM yn ymrwmo i ariannu'r prosiectau hyn os ydynt yn rhoi gwerth da am arian ac yn cyd-fynd â blaenoriaethau domestig strategol.

Yn achos ceisiadau a wneir yn uniongyrchol i'r Comisiwn gan sefydliadau yn y DU (gan gynnwys am gyllid Horizon 2020, sef rhaglen ymchwil ac arloesi'r UE, ac am gyllid ym maes ieuchyd ac addysg), dylai sefydliadau, prifysgolion a busnesau barhau i wneud ceisiadau am gyllid. Byddwn yn gweithio â'r Comisiwn i sicrhau bod y taliadau yn cael eu gwneud pan roddir cyllid. Bydd Trysorlys EM yn gwarantu taliadau o'r fath, hyd yn oed pan fydd prosiectau penodol yn parhau ar ôl i'r DU adael yr UE.

Mae Trysorlys EM hefyd wedi gwarantu'r sector amaethyddol y bydd yn cael yr un lefel o gyllid ag y byddai wedi'i chael o dan Golofn 1 o'r Polisi Amaethyddol Cyffredin tan ddiwedd y Fframwaith Ariannol Aml-flwydd yn 2020.

Yn achos y gweinyddiaethau datganoledig, rydym yn cynnig yr un lefel o sicrwydd ag yr ydym yn ei roi i adrannau Llywodraeth y DU ynghylch y rhaglenni y maent yn eu gweinyddu, ond lle mae disgwyl iddynt ddibynnu ar gyllid o'r UE.

Bydd y Llywodraeth yn ymgynghori'n agos â rhanddeiliaid er mwyn adolygu holl gynlluniau gwariant yr UE yn eu cyfanrwydd, gan sicrhau bod unrhyw ymrwymïadau cyllido yn y dyfodol yn cael eu gwneud er budd y DU.

2. Rheoli ein cyfreithiau ein hunain

Byddwn yn dechrau rheoli pethau drosom ein hunain, fel y mynnodd y rheini a bleidleisiodd yn eu miliynau dros adael yr UE y dylem ei wneud, gan ddod ag awdurdodaeth Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd i ben yn y DU.

Sofraniaeth y Senedd

2.1 Mae sofraniaeth y Senedd yn egwyddor sylfaenol yng nghyfansoddiad y DU. Er bod y Senedd wedi parhau'n sofran drwy gydol ein cyfnod yn aelod o'r UE, nid yw pethau wedi ymddangos felly bob tro. Gellir gweld hyd a lled gweithgarwch yr UE sy'n berthnasol i'r DU yn sgil y ffaith bod 1,056 o ddogfennau'n ymwneud â'r UE wedi'u cyflwyno ar gyfer craffu seneddol yn 2016. Mae'r rhain yn cynnwys cynigion ar gyfer Cyfarwyddbau, Rheoliadau, Penderfyniadau ac Argymhellion y DU, yn ogystal â deddfau dirprwyedig y Comisiwn a dogfennau eraill fel dogfennau cyfathrebu, adroddiadau a dogfennau barn y Comisiwn a gyflwynir i'r Cyngor, adroddiadau'r Llys Archwilwyr a mwy.

2.2 Bydd gadael yr UE yn golygu mai yn Llundain, Caeredin, Caerdydd a Belfast y caiff ein cyfreithiau eu gwneud, a byddant wedi'u seilio ar fuddiannau a gwerthoedd penodol y DU. Ym mhennod 1 rydym yn dangos sut y bydd y Bil Diddymu Mawr yn sicrhau mai ein deddfwrfeydd a'n llysoedd ni fydd yn gwneud y penderfyniadau terfynol yn ein gwlad.

Dod ag awdurdodaeth Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd i ben yn y DU

2.3 Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd (CJEU) yw prif lys yr UE sy'n penderfynu yn y pen draw ar faterion cyfreithiol yn yr UE. A hwnnw'n llys rhyngwladol, mae'n ceisio dehongli a gorfodi cyfraith yr UE mewn ffordd gyson ym mhob un o'r 28 Aelod-Wladwriaeth a dilyn proses glir i ddatrys anghydfodau. Mae'r Llys Cyfiawnder ymhlith y llysoedd rhyngwladol mwyaf pwerus yn sgil egwyddorion goruchafiaeth ac effaith uniongyrchol yng nghyfraith yr UE. Byddwn yn dod ag awdurdodaeth Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd i ben yn y DU. Byddwn wrth gwrs yn parhau i lynu wrth ein hymrwymadau rhyngwladol a dilyn cyfraith ryngwladol.

Dulliau o ddatrys anghydfodau

2.4 Rydym yn cydnabod y bydd angen darpariaeth i ddatrys anghydfodau er mwyn i'r perthynas â'r UE yn y dyfodol fod yn un deg a chyfartal.

2.5 Mae dulliau o ddatrys anghydfodau yn sicrhau bod gan bob parti yr un ddealltwriaeth o natur cytundeb, a hynny wrth ei ddehongli a'i ddefnyddio. Gall y dulliau hyn hefyd sicrhau bod cytundebau'n cael eu gorfodi mewn ffordd gyson a theg.

2.6 Mae dulliau o'r fath yn gyffredin mewn cytundebau rhwng yr UE a thrydydd gwledydd. Er enghraifft, sefydlodd Cytundeb Cyfun yr UE a Chanada ar yr Economi a Masnach (CETA) 'Gyd-bwyllgor CETA'¹ er mwyn goruchwyllo'r modd y mae'r cytundeb yn cael ei weithredu a'i ddefnyddio. Gall partïon gyfeirio anghydfodau at banel cymrodeddu ad hoc os bydd angen. Gall y Cyd-bwyllgor benderfynu ar ddehongliadau ac mae hynny'n rhwymo'r paneli dehongli.² Yn yr un modd, mae cytundeb masnach yr UE â De Korea yn darparu ar gyfer system gymrodeddu pan fydd anghydfodau.³

2.7 Mae dulliau o ddatrys anghydfodau hefyd yn gyffredin mewn nifer o gytundebau rhyngwladol eraill. O dan y brif weithdrefn i ddatrys anghydfodau yng Nghytundeb Masnach Rydd Gogledd America (NAFTA), mae'r llywodraethau perthnasol yn ceisio datrys unrhyw anghydfodau mewn modd cyfeillgar, ond os nad yw hynny'n bosibl, mae gweithdrefnau cyflym ac effeithiol ar gael drwy sefydlu panel. Yn yr un modd, o dan y cytuniadau a sefydlodd Mercosur, caiff anghydfodau eu datrys i ddechrau yn wleidyddol, ond fel arall gall partïon gyflwyno'r anghydfod i dribiwnlys cymrodeddu ad hoc. Gellir apelio yn erbyn penderfyniadau'r tribiwnlys ynghylch pwynt cyfreithiol i Dribiwnlys Adolygu Parhaol o dan Gytundeb Masnach Rydd Seland Newydd a Korea, lle mae'r pwyslais hefyd ar gydweithio ac ymgynghori er mwyn cael canlyniad sy'n foddhaol i'r naill ochr a'r llall. Mae'r cytundeb yn pennu proses ar gyfer sefydlu panel cymrodeddu. Rhaid i'r partïon gydymffurfio â chanfyddiadau a phenderfyniadau'r panel, neu fel arall efallai y bydd yn rhaid talu iawndal neu fe ellir gohirio'r cytundeb masnach rydd. Yn Sefydliad Masnach y Byd, y Corff Datrys Anghydfodau (sy'n cynnwys holl aelodau'r Sefydliad) sy'n penderfynu ar anghydfodau rhwng aelodau ynghylch cytundebau'r Sefydliad hwnnw.⁴ Caiff argymhellion eu gwneud gan baneli datrys anghydfodau neu gan Gorff Apeliadau sy'n gallu cadarnhau, addasu neu wrthdroi penderfyniadau'r paneli. Mae dulliau o'r fath yn hanfodol er mwyn sicrhau bod cytundebau rhyngwladol yn cael eu dehongli a'u defnyddio yn deg.

2.8 Mae gan y DU eisoes nifer o ddulliau o ddatrys anghydfodau o dan ei threfniadau rhyngwladol. Mae'r un peth yn wir yn achos yr UE. Yn wahanol i benderfyniadau a wneir gan Lys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd, nid yw'r penderfyniadau a wneir wrth ddatrys anghydfodau yn yr achosion hyn yn cael effaith uniongyrchol ar gyfraith y DU.

2.9 Fel gyda phob cytundeb eang rhwng gwladwriaethau, bydd y DU yn ceisio cytuno ar ddull newydd o ddehongli a datrys anghydfodau â'r UE. Mae hyn yn hanfodol er mwyn argyhoeddi busnesau ac unigolion y gellir dibynnu ar delerau unrhyw gytundeb, er mwyn sicrhau y bydd gan y naill ochr a'r llall yr un ddealltwriaeth o ystyr y cytundeb, ac er mwyn gallu datrys anghydfodau yn deg ac yn effeithlon.

¹ Erthygl 26(1); Y Cytundeb Cyfun rhwng yr Undeb Ewropeaidd a Chanada ar yr Economi a Masnach.

² Erthyglau 26(1) a 29(6); Y Cytundeb Cyfun rhwng yr Undeb Ewropeaidd a Chanada ar yr Economi a Masnach.

³ Pennod 14, 'EU-South Korea Free Trade Agreement: A Quick Reading Guide', Y Comisiwn Ewropeaidd, Hydref 2010.

⁴ Erthygl 2 ac Erthyglau 17-19; WTO Dispute Resolution Understanding (DSU).

2.10 Mae nifer o enghreifftiau sy'n dangos sut y mae cytundebau rhyngwladol eraill yn mynd at i ddehongli a datrys anghydfodau.⁵ Mae rhai o'r rhain i'w gweld yn Atodiad A. Wrth gwrs, dim ond enghreifftiau o arferion presennol ydynt. Bydd union ffurf y dulliau o ddatrys anghydfodau yn y berthynas â'r UE yn y dyfodol yn fater i'w drafod rhwng y DU a'r UE, ac ni ddylai cynsail ein cyfyngu. Gallai dulliau gwahanol o ddatrys anghydfodau gael eu defnyddio ar gyfer gwahanol gytundebau, a dibynnu ar strwythur y berthynas newydd â'r UE. Rhaid i unrhyw drefniadau fod yn rhai sy'n parchu sofraniaeth y DU, yn diogelu rôl ein llysoedd ac yn rhoi'r sicrwydd cyfreithiol mwyaf, gan gynnwys i fusnesau, defnyddwyr, gweithwyr a dinasyddion eraill.

⁵ Er enghraifft, mae gan bron holl Gytuniadau Buddsoddi Dwyochrog y DU (mae dros 90 ohonynt) ddarpariaeth i ddatrys anghydfodau rhwng buddsoddwyr a'r wladwriaeth. Mae Cytundebau Gwasanaethau Awyr â gwahanol wladwriaethau, a mathau eraill o gytundebau rhyngwladol, gan gynnwys trefniadau i benodi paneli o gymroddwyr.

3. Cryfhau'r Undeb

Mae'n bwysicach nag erioed ein bod yn wynebu'r dyfodol ynghyd, wedi ein huno gan yr hyn sy'n ein gwneud yn gryf: y dolenni sy'n ein huno, a'r diddordeb sydd gennym ar y cyd mewn creu Teyrnas Unedig agored sy'n masnachu'n llwyddiannus.

3.1 Ers y refferendwm, rydym wedi sicrhau bod y gweinyddiaethau datganoledig yn rhan lwyr o'n paratodau i adael yr UE ac rydym yn gweithio â'r gweinyddiaethau yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon i sicrhau canlyniad a fydd yn gweithio i'r DU gyfan. Wrth geisio cytundeb o'r fath, byddwn yn ceisio rhoi sylw i fuddiannau penodol yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon, yn ogystal â rhai pob rhan o Loegr. Cytundeb da fydd un a fydd yn gweithio i bob rhan o'r DU.

3.2 Mae'r Prif Weinidog eisoes wedi cadeirio dau gyfarfod llawn o'r Cyd-bwyllgor Gweinidogion, sy'n dwyn ynghyd arweinwyr gweinyddiaethau datganoledig yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon. Yn y cyfarfod cyntaf, cytunwyd i sefydlu Cyd-bwyllgor Gweinidogion ar Negodiadau'r UE, fel y gall gweinidogion o bob un o'r gweinyddiaethau datganoledig gyfrannu at broses cynllunio at adael yr UE. Yng nghyfarfod llawn y Cyd-bwyllgor Gweinidogion ym mis Ionawr, cytunodd gweinidogion i weithio'n gynt cyn cychwyn proses Erthygl 50 ac i barhau i weithio yr un mor gyflym ar ôl hynny.

Y Cyd-Bwyllgor Gweinidogion ar Negodiadau'r UE

Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Adael yr UE sy'n cadeirio'r Cyd-Bwyllgor Gweinidogion (Negodiadau'r UE), ac mae ei aelodau'n cynnwys gweinidogion o bob un o weinyddiaethau datganoledig y DU.

Mae'r Cyd-bwyllgor Gweinidogion (Negodiadau'r UE) wedi cyfarfod yn fisol ers ei sefydlu, a bydd yn parhau i gyfarfod yn rheolaidd er mwyn deall ac ystyried blaenoriaethau pob gweinyddiaeth; er mwyn ceisio cytuno ar safbwynt ac amcanion ar gyfer y DU cyn y trafodaethau; ac er mwyn ystyried cynigion a gyflwynir gan y gweinyddiaethau datganoledig.

Yn y cyfarfod cyntaf ym mis Tachwedd, amlinellodd gweinidogion eu blaenoriaethau ar gyfer trafodaethau'r Cyd-bwyllgor Gweinidogion (Negodiadau'r UE), a chytunwyd i ddatblygu ymhellach y rhaglen waith arfaethedig, er mwyn sicrhau bod cysylltiad rhwng honno a'r broses drafod a'i bod yn cyfrannu at y broses honno. Cytunodd gweinidogion i gyfarfod yn fisol er mwyn rhannu tystiolaeth ac i gynnal dadansoddiadau ar y cyd, a byddai hynny'n rhoi sail i'r rhaglen waith.

Yn yr ail gyfarfod ym mis Rhagfyr, trafododd gweinidogion eu blaenoriaethau ynghylch gorfodi'r gyfraith, diogelwch a chyfiawnder troseddol, cydweithredu ar faterion barnwrol sifil, mewnfudo a masnach. Cafwyd trafodaeth arall yn dilyn trafodaeth yng nghyfarfod blaenorol y Cyd-bwyllgor Gweinidogion (Negodiadau'r UE) ynghylch mynediad i'r farchnad. Cytunodd gweinidogion y dylai swyddogion fwrw yn eu blaenau i gynnal dadansoddiadau ynghylch nifer o faterion yr oedd y Cyd-bwyllgor yn eu trafod, ac a oedd yn rhan o'r rhaglen waith. Cytunodd gweinidogion i barhau i ymwneud â'i gilydd yn ddwyochrog cyn y cyfarfod nesaf ym mis Ionawr.

Yn y trydydd cyfarfod ym mis Ionawr, cyflwynodd Llywodraeth yr Alban ei bapur, *Scotland's Place in Europe*, a chytunodd y Pwyllgor i gynnal trafodaethau dwyochrog rhwng swyddogion ynghylch cynigion Llywodraeth yr Alban.

Mae adrannau Llywodraeth y DU hefyd yn parhau i gynnal llawer o drafodaethau dwyochrog am y materion pwysig wrth i'r DU adael yr UE a'r gwaith sy'n dal i fynd rhagddo yn y cyfamser.

3.3 Cafodd y setliadau datganoli presennol eu creu yng nghyd-destun aelodaeth y DU o'r UE. Mae'r tri setliad yn amlinellu bod gan y deddfwrfeydd datganoledig gymhwysedd deddfwriaethol – y gallu i greu cyfreithiau – mewn meysydd polisi datganoledig cyn belled â bod y gyfraith honno'n gydnaws â chyfraith yr UE.

3.4 Hyd yn oed mewn meysydd lle mae gan y deddfwrfeydd a'r gweinyddiaethau datganoledig ryw faint o gymhwysedd ar hyn o bryd, fel amaethyddiaeth, yr amgylchedd a rhai materion trafnidiaeth, mae hyn wedi golygu bod y rhan fwyaf o reolau yn cael eu gwneud o fewn fframwaith gyfreithiol a rheoleiddiol yr UE, a'r rheini wedi'u creu a'u cytuno ym Mrwsel. Pan fydd y DU yn gadael yr UE, bydd y rheolau hyn yn cael eu pennu yma yn y DU gan gynrychiolwyr sydd wedi'u hethol yn ddemocrataidd.

3.5 Wrth i'r pwerau i wneud y rheolau hyn ddychwelyd i'r DU o'r UE, mae cyfle gennym i benderfynu ar y lefel orau i wneud cyfreithiau a pholisïau am y materion hyn, gan sicrhau bod pŵer yn nes at bobl y DU nag erioed o'r blaen. Rydym wedi ymrwymo eisoes na fydd unrhyw benderfyniadau y mae'r gweinyddiaethau datganoledig yn eu gwneud ar hyn o bryd yn cael eu tynnu oddi arnynt, a byddwn yn defnyddio'r cyfle sy'n dod yn sgil dychwelyd y gallu i wneud penderfyniadau i'r DU i sicrhau bod mwy o benderfyniadau yn cael eu datganoli.

Hanes diweddar datganoli

Mae trefniadau cyfansoddiadol y DU wedi esblygu dros amser ac wedi'u haddasu i adlewyrchu amgylchiadau unigryw gwladwriaeth aml-genedl fwyaf llwyddiannus a hirhoedlog y byd. Mae'r trefniadau hyn yn rhoi i'r DU gyfan y gallu i ddilyn polisïau domestig gwahanol os mai dyna'r dymuniad, ond gan ddiogelu a chadw'r manteision sy'n dod yn sgil bod yn rhan o'r DU yn ehangach.

Mae'r trefniadau presennol ar gyfer llywodraethu'r DU wedi'u sefydlu ers bron i 20 mlynedd. Ym mis Medi 1997, cynhaliwyd refferenda yn yr Alban a Chymru a phenderfynodd mwyafrif y pleidleiswyr i sefydlu Senedd i'r Alban a Chynulliad Cenedlaethol i Gymru. Yng Ngogledd Iwerddon, roedd datganoli yn rhan bwysig o Gytundeb Belfast, a gafodd gefnogaeth pleidleiswyr mewn refferendwm ym mis Mai 1998. Pasiodd Senedd y DU ddeddfwriaeth

yn 1998 er mwyn sefydlu'r tair deddfwrfa a'r tair gweinyddiaeth ddatganoledig, ac er mwyn pennu eu pwerau. Yn ystod y ddau ddegawd diwethaf, mae'r setliadau wedi parhau i esblygu; er enghraifft, datganolwyd pwerau newydd i godi trethi i Senedd yr Alban o dan Ddeddf yr Alban 2016 a newidiwyd model datganoli yng Nghymru gan Ddeddf Cymru 2017.

Mae Llywodraeth y DU yn gweithredu er budd y DU gyfan ac mae'n gyfrifol am berthnasau rhyngwladol y DU, gan gynnwys trafodaethau â'r UE. Mae'n arfer y cyfrifoldebau hynny drwy ymgynghori'n agos â'r gweinyddiaethau datganoledig, ar sail yr egwyddorion a geir yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth y cytunodd yr holl weinyddiaethau arno.

3.6 Rhaid inni hefyd gydnabod pwysigrwydd masnach yn y DU i bob rhan o'r Undeb. Er enghraifft, amcangyfrifir bod allforion yr Alban i weddill y DU bedair gwaith yn fwy nag i'r EU27 (yn 2015, £49.8 biliwn o'i gymharu â £12.3 biliwn).⁶ Oherwydd hyn, yr egwyddor a fydd yn ein llywio fydd sicrhau – wrth inni adael yr UE – na fydd rhwystrau newydd rhag byw a chynnal busnes yn ein hundeb ein hunain yn cael eu creu. Byddwn yn cadw'r safonau a'r fframweithiau cyffredin angenrheidiol ar gyfer ein marchnad gartref ein hunain, gan alluogi'r DU, fel cenedl sy'n masnachu'n agored, i sicrhau'r cytundebau masnach gorau o amgylch y byd, a diogelu ein hadnoddau cyffredin.

3.7 Ar sail yr egwyddorion hyn, byddwn yn gweithio â'r gweinyddiaethau datganoledig er mwyn dychwelyd pwerau o'r UE mewn ffordd sy'n gweithio i'r DU gyfan ac yn adlewyrchu buddiannau yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon.

3.8 Byddwn hefyd yn parhau i hyrwyddo datganoli i lywodraeth leol ac rydym wedi ymrwmo i ddatganoli mwy o bwerau i lywodraeth leol pan fydd rheswm economaidd dros wneud hynny.

Cynigion y gweinyddiaethau datganoledig

Yn ogystal â rhaglen gydweithio ehangach y Cyd-bwyllgor Gweinidogion (Negodiadau'r UE), mae Llywodraeth y DU wedi ymrwmo i edrych ar unrhyw gynigion y bydd y gweinyddiaethau datganoledig yn eu cyflwyno. Hyd yma mae papurau wedi'u cyhoeddi gan Lywodraethau'r Alban a Chymru.

Ym mis Rhagfyr, cyhoeddodd Llywodraeth yr Alban *Scotland's Place in Europe*,⁷ a gyflwynwyd i'r Cyd-bwyllgor Gweinidogion (Negodiadau'r UE) ym mis Ionawr.

Roedd yn y papur dair blaenoriaeth:

1. dylanwadu ar safbwynt cyffredinol y DU er mwyn i'r DU barhau'n rhan o'r Farchnad Sengl Ewropeaidd, drwy Gytundeb yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, a hefyd yn rhan o Undeb Tollau'r UE;
2. edrych ar wahanol opsiynau i weld sut y gallai'r Alban barhau'n aelod o'r Farchnad Sengl Ewropeaidd a chadw elfennau o aelodaeth yr UE hyd yn oed pe bai gweddill y DU yn gadael; a
3. diogelu ac ehangu'n sylweddol bwerau Senedd yr Alban.

⁶ 'Export Statistics Scotland – 2015', Llywodraeth yr Alban, Ionawr 2017.

⁷ 'Scotland's Place in Europe', Llywodraeth yr Alban, Rhagfyr 2016.

Mae Llywodraethau'r DU a'r Alban yn cynnal rhagor o drafodaethau am y cynigion yn y papur.

Ym mis Ionawr, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru *Diogelu Dyfodol Cymru*,⁸ sy'n amlinellu safbwynt ar y cyd â Phlaid Cymru. Mae'r papur, a fydd yn cael ei drafod yn un o gyfarfodydd y Cyd-bwyllgor Gweinidogion (Negodiadau'r UE) yn y dyfodol, yn rhoi safbwyntiau Llywodraeth Cymru mewn chwe maes:

1. pwysigrwydd parhau i fod yn rhan o'r Farchnad Sengl;
2. dull cytbwys o ddelio â mewnfudo, gan greu cysylltiadau rhwng mudo ar y naill law, a swyddi ac arferion cyflogaeth da sy'n cael eu gorfodi'n iawn ar y llaw arall;
3. o ran cyllid a buddsoddi, ni ddylai Cymru golli cyllid wrth i'r DU adael yr UE;
4. perthynas gyfansoddiadol gwbl wahanol rhwng y llywodraethau datganoledig a Llywodraeth y DU;
5. cadw'r rheolau ar gyfer diogelu cymdeithasol ac amgylcheddol; a
6. ystyried y trefniadau pontio yn drylwyr.

Nid yw Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon wedi cyhoeddi Papur Gwyn ar adael yr UE. Fodd bynnag, ysgrifennodd y cyn-Brif Weinidog a'r cyn-Ddirprwy Brif Weinidogion at y Prif Weinidog yn amlinellu prif flaenoriaethau Gogledd Iwerddon ym mis Awst y llynedd. Mae gweinidogion o Weithrediaeth Gogledd Iwerddon wedi bod yn rhan o drafodaethau'r Cyd-bwyllgor Gweinidogion (Negodiadau'r UE) gan gyflwyno tystiolaeth am effaith gadael yr UE ar Ogledd Iwerddon a blaenoriaethau Gogledd Iwerddon ar gyfer y berthynas newydd â'r UE.

Bydd trafodaethau dwyochrog yn cael eu cynnal nesaf rhwng pob un o'r gweinyddiaethau datganoledig a Llywodraeth y DU er mwyn deall eu blaenoriaethau'n iawn, a bydd hynny'n sail i'r trafodaethau a fydd yn dilyn.

Mae'r gweinyddiaethau datganoledig a Llywodraeth y DU yn cytuno mewn nifer o feysydd, gan gynnwys cytuno ar bwysigrwydd rhoi sicrwydd i fusnesau drwy'r DU, cynnal cysylltiadau masnach cryf â'r UE, diogelu statws gwladolion yr UE yn y DU a gwladolion y DU yn yr UE, a gwarchod hawliau gweithwyr.

3.9 Wrth i'r DU adael yr UE, bydd y berthynas unigryw rhwng yr UE ac Ynys Manaw ac Ynysoedd y Sianel, sy'n Dirigaethau Dibynnol ar y Goron, a'r Tiriogaethau Tramor hefyd yn newid. Bydd gan Gibraltar ddiddordebau penodol, gan fod Cytuniadau'r UE i raddau helaeth yn berthnasol yn Gibraltar, gydag ambell eithriad (er enghraifft, nid yw Gibraltar yn rhan o'r Undeb Tollau).

3.10 Rydym wedi sicrhau ein bod yn deall eu blaenoriaethau drwy ymwneud â hwy mewn sawl ffordd, gan gynnwys creu ffordd newydd i drafod effaith gadael yr UE, Mae'r rhain yn cynnwys y Cyd-bwyllgor Gweinidogion (Negodiadau'r UE), ac arno gynrychiolwyr o llywodraethau'r Tiriogaethau Tramor; Cyd-bwyllgor Gweinidogion (Negodiadau'r UE - Gibraltar) gyda Llywodraeth Gibraltar; a chyfarfodydd chwarterol â Phrif Weinidogion y Tiriogaethau Dibynnol ar y Goron. Byddwn yn parhau i'w cynnwys yn llawn yn ein gwaith, yn parchu eu buddiannau ac yn ceisio'u barn wrth inni ddechrau ar y trafodaethau, gan gryfhau'r cysylltiadau rhyngom wrth inni greu perthynas newydd â'r UE a throi'n golygon at y byd.

⁸ 'Diogelu Dyfodol Cymru', Llywodraeth Cymru, Ionawr 2017.

4. Diogelu ein cysylltiadau cryf a hanesyddol ag Iwerddon a chadw'r Ardal Deithio Gyffredin

Bydd cadw ein cysylltiadau cryf a hanesyddol ag Iwerddon yn flaenoriaeth bwysig i'r DU yn y trafodaethau sydd i ddod. Mae hyn yn cynnwys cadw'r Ardal Deithio Gyffredin.

4.1 Mae'n annatod bod y DU ac Iwerddon wedi'u plethu ynghyd yn sgil yr hanes, y diwylliant a'r ddaearyddiaeth rydym yn eu rhannu. Mae'n berthynas unigryw: mae cannoedd o filoedd o wladolion Iwerddon yn byw yn y DU, ac felly yn yr un modd wladolion y DU yn Iwerddon. Mae dolenni agos a chysylltiadau teuluol agos rhyngom, yn enwedig ar draws y ffin rhwng Gogledd Iwerddon ac Iwerddon. Mae rhagor o wybodaeth yn Atodiad B.

4.2 Ni fu'r berthynas rhwng y ddwy wlad erioed yn well nac yn fwy sefydlog nag yw hi heddiw, diolch i ymrwymiad gwleidyddol cryf y naill Lywodraeth a'r llall i gryfhau ac ehangu ein partneriaeth fodern. Mae dau Ymweliad Gwladol, gan Ei Mawrhydi y Frenhines ym mis Mai 2011 a chan yr Arlywydd Higgins ym mis Ebrill 2014, wedi helpu i gryfhau rhagor ar y berthynas hon; nid oes neb am ein gweld yn ail-greu ffiniau'r gorffennol. Mae'r Prif Weinidog wedi ymrwymo i gynnal perthynas agos iawn, ac eisoes wedi cyfarfod â'r Taoiseach sawl gwaith ers dechrau yn ei swydd, yn fwyaf diweddar yn Nulyn ym mis Ionawr 2017.

Cysylltiadau economaidd

4.3 Mae perthynas agos rhwng economïau'r DU ac Iwerddon, drwy fuddsoddiadau masnach a thrawsffiniol yn ogystal â thrwy ganiatáu i nwyddau, cyfleustodau, gwasanaethau a phobl deithio'n ddirwysr. Mae'r fasnach flynyddol rhwng y DU ac Iwerddon yn werth dros £43 biliwn,⁹ tra bo tua 60 y cant o allforion nwyddau Gogledd Iwerddon i'r UE yn mynd i Iwerddon.^{10,11} Mae caniatáu i bobl symud dros y ffin yn rhan bwysig o'r integreiddio economaidd hwn. Mae dros 14,000 o bobl yn cymudo dros y ffin rhwng Gogledd Iwerddon ac Iwerddon yn rheolaidd i weithio neu astudio.¹²

4.4 Rydym yn cydnabod bod y gallu i symud yn rhydd ar draws y ffin yn rhan hanfodol o fywyd bob dydd i bobl Gogledd Iwerddon ac Iwerddon. Pan fydd y DU yn gadael yr UE, rydym am geisio cael ffin ac iddi gyn lleied o raniadau a rhwystrau â phosibl rhwng Gogledd Iwerddon ac Iwerddon, fel y gallwn barhau â'r masnachu a'r symudiadau dyddiol a welsom hyd yma.

⁹ 'Geographical breakdown of the current account, The Pink Book: 2016', Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Gorffennaf 2016.

¹⁰ 'Regional Trade Statistics', (Third Quarter 2016)', Cyllid a Thollau EM, Rhagfyr 2016.

¹¹ 'Top Partner Countries and Commodity Infographics (Northern Ireland)', Gwybodaeth Fasnach y DU, Trydydd Chwarter 2016.

¹² 'Census 2011 Ireland and Northern Ireland' (tudalen 63), Swyddfa Ystadegau Ganolog Iwerddon, 2014.

4.5 Byddwn yn gweithio'n agos i sicrhau ein bod, wrth i'r DU adael yr UE, yn canfod atebion ar y cyd i'r heriau economaidd ac yn achub i'r eithaf ar y cyfleoedd economaidd i'r DU ac Iwerddon.

Hawliau

4.6 Mae'r cysylltiadau hanesyddol, cymdeithasol a diwylliannol agos rhwng y DU ac Iwerddon yn bodoli ers cyn i'r naill wlad a'r llall fod yn aelodau o'r UE, ac mae wedi golygu bod gan bobl hawliau sy'n ychwanegol at y rheini sy'n dod yn sgil bod yn aelod cyffredin o'r UE. Mae'r statws arbennig a roddir i wladolion Iwerddon yn y DU yn deillio o Ddeddf Iwerddon 1949 ac, i bobl Gogledd Iwerddon, Cytundeb Belfast 1998.

4.7 Mae Llywodraethau'r DU ac Iwerddon wedi dweud eu bod yn awyddus i ddiogelu'r modd y mae gwladolion y naill wlad a'r llall yn cael eu trin ar y ddwy ochr ar ôl i'r DU adael yr UE. Yn benodol, er mwyn cydnabod pwysigrwydd Cytundeb Belfast, bydd pobl Gogledd Iwerddon yn parhau i allu diffinio'u hunain yn Brydeinwyr neu'n Wyddelod, neu'r ddau, a chael yr un ddinasyddiaeth.

Yr Ardal Deithio Gyffredin

Mae'r Ardal Deithio Gyffredin yn barth teithio arbennig sy'n galluogi pobl i symud rhwng y DU, Iwerddon, Ynys Manaw ac Ynysoedd y Sianel. Fe'i ffurfiwyd dipyn cyn i'r DU ac Iwerddon ddod yn aelodau o'r UE. Drwy ganiatáu i wladolion y gwahanol aelodau symud yn rhydd o fewn yr Ardal, y nod yw adlewyrchu'r cysylltiadau dyfnion, hanesyddol a'r hyn sy'n gyffredin rhwng y gwledydd. Rydym wedi ymrwymo i warchod y trefniant hwn.

Roedd cysylltiad rhwng creu'r Ardal Deithio Gyffredin a sefydlu Gwladwriaeth Rydd Iwerddon yn 1922, gyda darpariaeth ddeddfwriaethol ar wahân ar gyfer y Tiriogaethau Dibynnol ar y Goron. Deilliodd yr Ardal yn wreiddiol fel arfer gweinyddol er mwyn caniatáu teithio rhydd rhwng y gwledydd o'i mewn. Ers hynny, mae hyn wedi'i adlewyrchu ym mholisi mewnfudo pob un o'r gwledydd, gyda phob un yn dilyn polisi tebyg. Ac eithrio am gyfnod byr yn ystod yr Ail Ryfel Byd, nid oes unrhyw reolaeth ar fewnfudo wedi bod ar gyfer teithiau rhwng aelodau'r Ardal Deithio Gyffredin.

Mae Protocol 22 o Gytuniadau'r UE yn darparu y gall y DU ac Iwerddon barhau i wneud trefniadau rhyngddynt ynghylch y modd y bydd pobl yn symud yn yr Ardal Deithio Gyffredin. Gall gwladolion aelodau'r Ardal Deithio Gyffredin deithio'n rhydd yn yr Ardal honno a dod i'r DU heb wynebu'r camau arferol i reoli pasbortau.

4.8 Rydym yn awyddus i warchod y gallu i symud yn rhydd rhwng y DU ac Iwerddon, rhwng y gogledd a'r de a rhwng y dwyrain a'r gorllewin, gan gydnabod pwysigrwydd arbennig hyn i bobl yn eu bywydau bob dydd. Byddwn yn gweithio â Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, Llywodraeth Iwerddon a'r Tiriogaethau Dibynnol ar y Goron i ddod o hyd i ffordd ymarferol o gadw'r Ardal Deithio Gyffredin, ond gan sicrhau bod gan y DU ei system fewnfudo ei hun.

Ein hymrwymiad ni

4.9 Rydym yn benderfynol y bydd ein record o gydweithio, a hynny ar sail yr un profiadau a gwerthoedd a chysylltiadau personol, gwleidyddol ac economaidd, yn parhau i ddatblygu a chryfhau ar ôl gadael yr UE.

4.10 Byddwn yn gweithio â Llywodraeth Iwerddon a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon i ganfod dull ymarferol sy'n cydnabod cyd-destun economaidd, cymdeithasol a gwleidyddol y ffin rhwng Gogledd Iwerddon ac Iwerddon. Un o amcanion diamwys gwaith Llywodraeth y DU ar adael yr UE yw sicrhau bod sylw llawn yn cael ei roi i amgylchiadau penodol Gogledd Iwerddon. Byddwn yn ceisio diogelu buddiannau byd busnes yn y trafodaethau am adael. Byddwn yn sicrhau bod asiantaethau gorfodi'r gyfraith ac asiantaethau diogelwch y DU ac Iwerddon, ynghyd â'r asiantaethau barnwrol cysylltiedig, yn parhau i gydweithio'n agos.

5. Rheoli mewnfudo

Byddwn yn parhau i fod yn wlad agored a goddefgar, ac yn un sy'n cydnabod y cyfraniad gwerthfawr y mae mudwyr yn ei wneud i'n cymdeithas ac sy'n croesawu'r rheini sydd â'r sgiliau a'r arbenigedd i wneud ein cenedl yn un well byth. Ond yn y dyfodol rhaid inni sicrhau bod modd rheoli nifer y bobl sy'n dod i'r DU o'r UE.

5.1 Wrth inni adael yr UE a chamu i'r byd, bydd bod yn agored i dalent ryngwladol yn parhau yn un o'n hasedau mwyaf arbennig.


5.2 Rydym yn croesawu'r cyfraniad y mae mudwyr wedi'i wneud ac y byddant yn parhau i'w wneud i'n heconomi a'n cymdeithas. Dyna pam y byddwn wastad am weld mewnfudo, gan gynnwys o wledydd yr UE, a mewnfudo sy'n dod â sgiliau o ansawdd da yn enwedig. Dyna pam hefyd y byddwn wastad yn croesawu mudwyr unigol sy'n cyrraedd y DU yn gyfreithiol fel cyfeillion.

5.3 Fodd bynnag, yn y degawd diwethaf, gwelsom y lefelau uchaf erioed o fewnfudo hirdymor net i'r DU¹³ ac mae hynny wedi arwain at bryder ymhlith y cyhoedd ynghylch y pwysau ar wasanaethau cyhoeddus, fel ysgolion a'r seilwaith a thai yn enwedig, yn ogystal â gostwng cyflogau pobl sydd ar yr incwm isaf. Rhaid i'r cyhoedd fod yn hyderus yn ein gallu i reoli mewnfudo. Yn syml, nid yw'n bosibl rheoli mewnfudo'n llwyr pan fydd pobl yn gallu symud yn rhydd heb gyfyngiad i'r DU o'r UE.

5.4 Byddwn yn datblygu'r system fewnfudo i sicrhau ein bod yn gallu rheoli nifer y bobl sy'n dod yma o'r UE. Yn y dyfodol, felly, ni fydd y Gyfarwydddeb Symud Rhydd yn berthnasol a bydd cyfraith y DU yn rheoli mudo gan wladolion yr UE.

¹³ 'Explore 50 years of international migration to and from the UK', Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Rhagfyr 2016.

Siart 5.1 – Mudo net i'r DU



Ffynhonnell— Y Swyddfa Ystadegau Gwladol¹⁴

Ein dull o reoli mudo

5.5 Gall fod manteision mawr i fewnfudo – fel llenwi bylchau mewn sgiliau, helpu i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus a helpu busnesau'r DU i fod ar flaen y gad yn y byd, fel y maent yn aml. Ond rhaid ei reoli hefyd.

5.6 Byddwn yn creu system fewnfudo sy'n ein galluogi i reoli niferoedd ac annog y disgleiriaf a'r gorau i ddod i'r wlad hon a hynny fel rhan o ddyfodol sefydlog a ffyniannus gyda'r UE a'n partneriaid Ewropeaidd.

5.7 Bydd y DU wastad yn croesawu myfyrwyr dilyn a'r rheini sydd â'r sgiliau a'r arbenigedd i wneud ein cenedl yn un well byth. Rydym eisoes wedi cadarnhau y bydd myfyrwyr presennol yr UE a'r rheini sy'n dechrau eu cyrsiau yn 2016-17 a 2017-18 yn parhau i fod yn gymwys i gael benthyciadau myfyrwyr a statws ffioedd cartref dros gyfnod eu cwrs. Rydym hefyd wedi cadarnhau y bydd cynghorau ymchwil yn parhau i ariannu myfyrwyr ôl-raddedig o'r UE sy'n dechrau ar eu cyrsiau yn 2017-18.

5.8 Mae'r Llywodraeth hefyd yn cydnabod y cyfraniad pwysig y mae myfyrwyr ac academyddion o Aelod-Wladwriaethau'r UE yn ei wneud i brifysgolion rhagorol y DU. Rhaid i'r DU, i fod yn fyd-eang, hefyd fod yn wlad sy'n edrych i'r dyfodol.

¹⁴ 'Explore 50 years of international migration to and from the UK', Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Rhagfyr 2016.

5.9 Rydym yn ystyried yn ofalus iawn yr opsiynau sy'n agored inni er mwyn gallu rheoli nifer y bobl sy'n dod i'r DU o'r UE. Fel rhan o hynny, mae'n bwysig ein bod yn deall yr effaith ar sectorau gwahanol yr economi ac ar y farchnad lafur. Byddwn, felly, yn sicrhau bod gan fusnesau a chymunedau y cyfle i fynegi eu barn. Yn yr un modd, bydd angen inni ddeall effaith bosibl unrhyw newidiadau posibl ym mhob rhan o'r DU. Byddwn felly yn llunio darlun cynhwysfawr o anghenion a buddiannau pob rhan o'r DU ac yn ceisio datblygu system sy'n gweithio i bawb.

5.10 Bydd rhoi ar waith unrhyw drefniadau mewnfudo a threfniadau cymorth newydd i wladolion yr UE yn broses gymhleth, a bydd gan y Senedd gyfraniad pwysig i'w wneud wrth ystyried y pethau hyn ymhellach. Efallai y bydd angen proses raddol o wneud hyn er mwyn paratoi at y trefniadau newydd. Bydd hyn yn rhoi digon o amser i fusnesau ac unigolion i gynllunio a pharatoi at weithredu'r trefniadau newydd hynny.

Galluogi pobl i symud yn rhydd

Y prif ddarpariaethau yng Nghytuniadau'r UE ar alluogi pobl i symud yn rhydd (a darpariaethau cysylltiedig ynghylch nawdd cymdeithasol a darpariaeth lles mewn sefyllfaoedd trawsffiniol) yw:

- Erthygl 18 o'r Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd ynghylch peidio â gwahaniaethu;
- Erthyglau 20 a 21 o'r un Cytuniad sy'n rhoi sylw i ddinasyddiaeth yr UE a hawliau i symud yn rhydd;
- Erthyglau 45-48 o'r un Cytuniad ynghylch galluogi gweithwyr i symud yn rhydd a chydlynw nawdd cymdeithasol; ac
- Erthyglau 49-53 o'r un Cytuniad ynghylch rhyddid pobl sy'n hunangyflogedig i sefydlu eu hunain.

Gall dinasyddion yr UE, y rheini sy'n ddibynnol arnynt ac – mewn rhai amgylchiadau – aelodau eraill o'r teulu ddefnyddio'u hawl i symud yn rhydd. Mae'r hawliau hyn yn bennaf wedi'u hamlinellu yng Nghytuniadau'r UE ac yn is-ddeddfwriaeth yr UE. Mae'r hawliau hynny hefyd wedi'u hymestyn i wladolion gwladwriaethau Ardal Economaidd Ewrop nad ydynt yn aelodau o'r UE (Gwlad yr Iâ, Norwy a Liechtenstein) ac i'r Swistir drwy ddau drefniant ar wahân. Mae'r hawl i symud yn rhydd hefyd yn berthnasol i ddinasyddion yr UE yn y gwladwriaethau hyn.

Mae is-ddeddfwriaeth yr UE yn rhoi rhagor o fanylion am yr hawliau a geir yng Nghytuniadau'r UE. Mae darnau pwysig o is-ddeddfwriaeth yr UE sy'n arbennig o berthnasol. Mae'r Gyfarwyddeb Symud Rhydd¹⁵ yn amlinellu hawliau dinasyddion yr UE ac aelodau eu teuluoedd i symud a byw yn rhydd yn unrhyw un o diriogaethau'r UE. Disodlodd y Gyfarwyddeb hon y rhan fwyaf o'r ddeddfwriaeth Ewropeaidd flaenorol a oedd yn caniatáu i'r rheini a oedd yn weithgar yn economaidd fudo, a chydgrnhodd y Gyfarwyddeb hon hefyd hawliau dinasyddion yr UE ac aelodau eu teuluoedd i symud a byw yn rhydd yn unrhyw un o diriogaethau'r UE. Caiff y Gyfarwyddeb ei rhoi ar waith yn y DU drwy Reoliadau Mewnfudo (Ardal Economaidd Ewrop) 2016, sydd hefyd yn berthnasol i wladolion y Swistir a gwladolion y gwladwriaethau hynny sy'n rhan o Ardal Economaidd Ewrop ond nid yn Aelod-Wladwriaethau o'r UE.


¹⁵ Cyfarwyddeb 2004/38/EC o Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch Hawliau Dinasyddion yr Undeb ac Aelodau eu Teuluoedd i Symud a Byw yn Rhydd o Fewn Tiriogaeth yr Aelod-Wladwriaethau, 2004.

6. Sicrhau hawliau i wladolion yr UE yn y DU, a gwladolion y DU yn yr UE

Rydym am sicrhau statws dinasyddion yr UE sydd eisoes yn byw yn y DU, a statws gwladolion y DU mewn Aelod-Wladwriaethau eraill, a hynny cyn gynted ag y gallwn.

6.1 Amcangyfrifwyd bod tua 2.8 miliwn o wladolion yr UE¹⁶ yn byw yn y DU, a llawer ohonynt yn dod o Wlad Pwyl.¹⁷ Amcangyfrifir bod tua 1 miliwn o wladolion y DU yn breswylwyr hirdymor yng ngwledydd eraill yr UE, gan gynnwys tua 300,000 yn Sbaen. Mae gan Ffrainc a'r Almaen hefyd niferoedd mawr o ddinasyddion Prydeinig.¹⁸

Siart 6.1 – Dinasyddion Prydeinig sy'n byw yn yr UE



Ffynhonnell– Y Swyddfa Ystadegau Gwladol^{19,20}

Spain
France
Germany
Netherlands
Belgium
Cyprus
Italy
Sweden
Portugal
Greece
Denmark
Austria
Malta
Luxembourg
Czech Republic
Finland

Sbaen
Ffrainc
Yr Almaen
Yr Iseldiroedd
Gwlad Belg
Cyprus
Yr Eidal
Sweden
Portiwgal
Groeg
Denmarc
Awstria
Malta
Lwcsembwrg
Gweriniaeth Tsiec
Y Ffindir

30 Y Deyrnas Unedig yn gadael yr Undeb Ewropeaidd a'i pherthynas newydd â hi

Bulgaria	Bwlgaria
Hungary	Hwngari
Poland	Gwlad Pwyl
Slovakia	Slofacia
Romania	Romania
Slovenia	Slofenia
Croatia	Croatia
Estonia	Estonia
Latvia	Latfia
Lithuania	Lithwania

¹⁶ Gwladolion yr UE heb gynnwys gwladolion y DU ac Iwerddon.

¹⁷ 'Poblogaeth y DU fesul Gwlad Geni a Chenedligrwydd: 2015', Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Awst 2016.


¹⁸ 'What information is there on British migrants living in Europe?', Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Ionawr 2017.

¹⁹ Heb gynnwys Gweriniaeth Iwerddon.

²⁰ 'What information is there on British migrants living in Europe?', Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Awst 2016.

6.2 Tra'r ydym yn aelod o'r UE, ni fydd newid yn hawliau gwladolion yr UE sy'n byw yn y DU a gwladolion y DU sy'n byw yn yr UE. Mae Cyfarwydddeb Symud Rhydd yr UE (Erthygl 16 o 2004/38/EC) a chyfraith y DU yn sicrhau bod gan rywun sydd wedi byw yn barhaol ac yn gyfreithlon mewn gwlad am o leiaf bum mlynedd hawl awtomatig i fyw yno. Rydym yn cydnabod y cyfraniad y mae gwladolion yr UE wedi'i wneud i'n heconomi a'n cymunedau.

Siart 6.2 – Gwladolion yr UE sy'n byw yn y DU



Ffynhonnell— Y Swyddfa Ystadegau Gwladol^{21,22}

Poland	Gwlad Pwyl
Romania	Romania
Portugal	Portiwgal
Italy	Yr Eidal
Lithuania	Lithwania
France	Ffrainc
Germany	Yr Almaen
Spain	Sbaen
Latvia	Latfia
Slovakia	Slofacia
Hungary	Hwngari
Netherlands	Yr Iseldiroedd
Bulgaria	Bwlgaria
Greece	Groeg
Czech Republic	Gweriniaeth Tsiec
Sweden	Sweden
Denmark	Denmarc
Belgium	Gwlad Belg
Austria	Awstria
Cyprus	Cyprus
Finland	Y Ffindir
Estonia	Estonia
Malta	Malta
Croatia	Croatia
Slovenia	Slofenia

6.3 Mae sicrhau statws a rhoi sicrwydd i wladolion yr UE sydd eisoes yn y DU a gwladolion y DU sydd eisoes yn yr UE yn un o flaenoriaethau cynnar y Llywodraeth hon yn y trafodaethau sydd i ddod. I'r diben hwn, rydym wedi ceisio barn nifer o randdeiliaid, gan gynnwys grwpiau alltud, i sicrhau ein bod yn deall blaenoriaethau gwladolion y DU sy'n byw yng ngwledydd yr UE. Mae hyn yn rhan o'n paratodau ar gyfer gadael mewn ffordd hwylus a threfnus a byddwn yn parhau i weithio'n agos â nifer o sefydliadau ac unigolion i gyflawni hyn. Er enghraifft, rydym yn cydnabod bod gwladolion y DU sy'n byw yn yr UE yn rhoi blaenoriaeth ar allu defnyddio gofal iechyd yn rhwydd. Rydym hefyd yn gweithio'n agos ag Aelod-Wladwriaethau'r UE, busnesau a sefydliadau eraill er mwyn sicrhau ein bod yn deall yn drylwyr faterion sy'n ymwneud â statws gwladolion yr UE yn y DU.

6.4 Hoffai'r Llywodraeth fod wedi datrys hyn cyn y trafodaethau ffurfiol. Ac er bod nifer o Aelod-Wladwriaethau'r UE o blaid cytundeb o'r fath, ni fu'n bosibl gwneud hyn. Mae'r DU yn dal i fod yn barod i roi'r sicrwydd y mae pobl ei eisiau a dod i gytundeb dwyochrog â'n partneriaid Ewropeaidd cyn gynted â phosibl. Dyna'r peth iawn a'r peth teg i'w wneud.

²¹ Heb gynnwys Gweriniaeth Iwerddon. Heb gynnwys Lwcsembwrg am nad yw data ar gael.

²² 'Population of the UK by Country of Birth and Nationality', Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Awst 2016.

7. Gwarchod hawliau gweithwyr

Mae cyfraith cyflogaeth y DU eisoes yn mynd y tu hwnt i lawer o'r safonau a geir yn neddfwriaeth yr UE a bydd y Llywodraeth hon yn gwarchod ac yn cryfhau hawliau pobl yn y gwaith.

7.1 Wrth inni drosi corff cyfraith yr UE yn ddeddfwriaeth ddomestig, byddwn yn sicrhau ein bod yn parhau i warchod hawliau gweithwyr. Bydd hyn yn rhoi sicrwydd a pharhad i weithwyr a chyflogwyr fel ei gilydd, gan greu sefydlogrwydd er mwyn i'r DU dyfu a ffynnu.

7.2 Mae ein marchnad lafur yn gryfder mawr yn ein heconomi: mae 31.8 miliwn o bobl yn gweithio yn y DU ac mae'r gyfradd gyflogaeth bron mor uchel ag y bu erioed.²³ Bydd y Bil Diddymu Mawr yn cadw'r safonau a'r camau sy'n gwarchod gweithwyr. Yn fwy na hynny, mae'r Llywodraeth hon wedi ymrwymo nid yn unig i warchod yr hawliau i weithwyr sydd yn neddfwriaeth Ewrop, ond i'w hehangu hefyd. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r Llywodraeth wedi cymryd nifer o gamau annibynnol i warchod gweithwyr y DU ac i sicrhau eu bod yn cael eu trin yn deg, ac mewn sawl maes mae Llywodraeth y DU eisoes wedi ehangu hawliau gweithwyr y tu hwnt i'r hawliau a geir yng nghyfraith yr UE. Er enghraifft, mae cyfraith ddomestig y DU eisoes yn darparu ar gyfer 5.6 wythnos o wyliau blynyddol statudol,²⁴ o'i gymharu â'r pedair wythnos yng nghyfraith yr UE.²⁵ Yn y DU, gall merched sydd wedi cael plentyn gael 52 wythnos o absenoldeb mamolaeth statudol a 39 wythnos o dâl,²⁶ yn hytrach na'r 14 wythnos a geir o dan gyfraith yr UE.²⁷ Mae'r DU hefyd yn rhoi mwy o hyblygrwydd ynghylch rhannu absenoldeb rhieni. Yn unol â rhai amodau, gellir rhannu hwnnw â thad y plentyn, gan roi dewis i deuluoedd sut i gydbwyso eu cyfrifoldebau rhwng y cartref a'r gwaith. At hynny, mae'r DU yn cynnig 18 wythnos o absenoldeb rhieni, ac mae'r ddarpariaeth honno yn gwneud mwy na chyfarwydddeb yr UE gan fod hynny ar gael tan ben-blwydd y plentyn yn 18.²⁸

²³ 'UK Labour Market: Jan 2017', Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Ionawr 2017.

²⁴ 'UK Holiday Entitlement', Llywodraeth EM, Hydref 2016.


²⁵ 'EU Working Time Directive', Y Comisiwn Ewropeaidd, 2003.

²⁶ 'Statutory Maternity Pay and Leave', Llywodraeth EM, Ionawr 2017.

²⁷ 'Pregnant workers', Y Comisiwn Ewropeaidd, Tachwedd 2016.

²⁸ 'Unpaid parental leave', Llywodraeth EM, Hydref 2016.

Siart 7.1 – Cyfraith cyflogaeth y DU a'r UE



Ffynhonnell – Llywodraeth EM a'r Comisiwn Ewropeaidd^{29,30}

7.3 Yn sgil camau a gymerwyd gan Lywodraeth y DU y crëwyd yr hawliau hyn, ac nid ydynt yn dibynnu ar fod yn aelod o'r UE. Mae'r Llywodraeth wedi ymrwmo i gryfhau hawliau pan mai dyna fydd y dewis iawn i weithwyr y DU a bydd yn parhau i chwilio am gyfleoedd i gymryd rhagor o gamau i warchod gweithwyr.

7.4 Ym mis Ebrill 2016 aethom ati i gyflwyno'r Cyflog Byw Cenedlaethol a arweiniodd at godiad cyflog o 6.2 y cant i'r gweithwyr a oedd ar y cyflogau isaf yn ein gwlad o'i gymharu â'r flwyddyn gynt.³¹ I gyd-fynd â hyn, rydym wedi cymryd camau gorfodi cryf, gan gynyddu'r gyllideb ar gyfer gorfodi'r Isafswm Cyflog a'r Cyflog Byw Cenedlaethol i £20 miliwn yn 2016/17, lle bu'n £13 miliwn yn 2015/16.³²

7.5 Rydym wedi cynyddu'r cosbau i gyflogwyr sy'n peidio â chydymffurfio'n fwriadol, ac wedi sefydlu tîm penodol i fynd i'r afael â'r achosion mwyaf difrifol. At hynny, rydym am benodi Cyfarwyddwr Gorfodi a Chamfanteisio ar y Farchnad Lafur. Mae'r camau hyn yn dangos ein bod wedi ymrwmo i sicrhau bod hawl gan bobl sy'n gweithio'n galed i gael cyflog teg a'u bod yn cael y cyflog y mae ganddynt yr hawl iddo.

7.6 Rydym wedi ymrwmo i gynnal ein statws fel gwlad sy'n arwain ym maes hawliau gweithwyr, a byddwn yn sicrhau bod y camau i ddiogelu gweithwyr yn gyfreithiol yn datblygu yr un mor gyflym â'r farchnad lafur wrth iddi newid.

²⁹ Gall Aelod-Wladwriaethau unigol yn yr UE wneud mwy nag isafswm yr UE.

³⁰ 'Holiday entitlement', Llywodraeth EM, Hydref 2016 (Hawl i wyliau blynyddol yn y DU) 'Maternity pay and leave', Llywodraeth EM, Hydref 2016 (Hawl yn y DU i absenoldeb mamolaeth gyda thâl) 'EU Working Time Directive', Y Comisiwn Ewropeaidd, 2003 (Hawl yn yr UE i wyliau blynyddol - isafswm). 'Pregnant workers', Y Comisiwn Ewropeaidd, Tachwedd 2016 (Hawl i absenoldeb mamolaeth gyda thâl - isafswm).

³¹ 'Annual Survey of Hours and Earnings', Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Hydref 2016.

³² 'Young workers set for pay increase of up to £450 thanks to increase in National Minimum Wage', Llywodraeth EM, Hydref 2016.

Yn benodol, mae adolygiad annibynnol o arferion cyflogaeth yn yr economi fodern bellach yn mynd rhagddo.³³ Bydd yr adolygiad yn ystyried sut y mae angen newid rheolau cyflogaeth er mwyn iddynt ddatblygu yr un mor gyflym â modelau busnes modern. Mae'r rhain yn cynnwys: y cynnydd cyflym a diweddar mewn hunan-gyflogaeth; y newid yn arferion busnesau o gyflogi i gcontractio; y defnydd cynyddol ar ffurfiau ansafonol o gcontractau; ac ymddangosiad modelau busnes newydd fel platfformau ar-alw.

7.7 Ymhellach, byddwn yn sicrhau bod byrddau sydd wedi'u rhestru'n gyhoeddus yn clywed llais gweithwyr am y tro cyntaf. Mae angen i fusnesau fod yn agored ac yn dryloyw, a dylent gael eu rhedeg er budd pawb, nid dim ond yr ychydig breintiedig. Dyma pam inni lansio Papur Gwyrdd ar lywodraethu corfforaethol ym mis Tachwedd 2016.³⁴ Mae'r papur hwn yn ceisio barn eang am ein system bresennol ar gyfer llywodraethu corfforaethol, ac yn benodol am dâl swyddogion gweithredol, llais gweithwyr a chwsmeriaid, a llywodraethu corfforaethol mewn busnesau preifat mawr. Mae'n gam pendant tuag at ddiwygio llywodraethu corfforaethol ac yn enghraifft arall o ymrwymiad y Llywodraeth hon i greu economi sy'n gweithio i bawb, nid i'r rheini ar y brig yn unig.

³³ 'Employment Practices in the Modern Economy', Llywodraeth EM, Hydref 2016.

³⁴ 'Corporate Governance Reform', Llywodraeth EM, Tachwedd 2016.

8. Sicrhau masnachu rhydd â marchnadoedd Ewrop

Bydd y Llywodraeth yn rhoi blaenoriaeth i sicrhau'r masnachu mwyaf rhydd a dirwysr â phosibl ar gyfer nwyddau a gwasanaethau rhwng y DU a'r UE. Ni fyddwn yn ceisio aelodaeth o'r Farchnad Sengl, ond byddwn yn hytrach yn ceisio ffurfio partneriaeth strategol newydd â'r UE, gan gynnwys Cytundeb Masnach Rydd uchelgeisiol a chynhwysfawr, a threfniant tollau newydd.

8.1 Mae o fudd i'r UE a phob rhan o'r DU gynnal y bartneriaeth economaidd a'r bartneriaeth fasnachu hirsefydlog rhwng y DU a'r UE ar ôl inni adael yr UE. Dylai ein perthynas newydd anelu at gael system fasnachu mor rhydd â phosibl ar gyfer nwyddau a gwasanaethau rhwng y DU a'r UE. Dylai roi cymaint o ryddid â phosibl i gwmnïau'r DU fasnachu a gweithio ym marchnadoedd Ewrop, gan adael i fusnesau Ewrop wneud yr un peth yn y DU. Dylai hyn gynnwys trefniant tollau newydd â'r UE, a fydd yn gymorth tuag at ein nod o fasnachu â'r UE mewn ffordd mor ddirwysr â phosibl.

8.2 Nid ydym am geisio mabwysiadu model sydd gan wledydd eraill eisoes. Mae gan y DU eisoes system heb ddim tariffiau ar nwyddau a'r un fframwaith rheoleiddiol â Marchnad Sengl yr UE. Mae hyn yn ddigynsail yng nghyd-destun trafodaethau masnach blaenorol. Yn wahanol i drafodaethau masnach eraill, nid dod â dwy system wahanol ynghyd a wneir yma. Y nod yw canfod y ffordd orau o sicrhau bod budd y systemau a'r fframweithiau cyffredin, sy'n galluogi busnesau'r DU a'r UE i fasnachu a gweithio ym marchnadoedd ei gilydd, yn parhau pan fyddwn yn gadael yr UE a hynny drwy gytundeb masnach rydd newydd, cynhwysfawr, mentrus ac uchelgeisiol.

8.3 Efallai y bydd y cytundeb hwnnw'n cynnwys elfennau o drefniadau presennol y Farchnad Sengl mewn rhai meysydd, gan nad yw'n gwneud dim synnwyr dechrau o'r dechrau gan fod y DU a'r Aelod-Wladwriaethau eraill wedi cydymffurfio â'r un rheolau am gynifer o flynyddoedd. Byddai unrhyw drefniant o'r fath yn un cwbl ddwyochrog ac er budd y naill ochr a'r llall.

Masnach y DU a'r UE

8.4 Mae'r DU ac Aelod-Wladwriaethau'r UE yn elwa o'n perthynas fasnachu agos. Yr UE yw marchnad allforio fwyaf y DU³⁵ a'r DU yw marchnad allforio nwyddau fwyaf yr EU27 gyda'i gilydd.³⁶ Fodd bynnag, mae'r UE ar hyn o bryd yn allforio mwy i'r DU nag y mae'r DU yn ei allforio i'r UE. Yn 2015, er i'r DU allforio gwerth £230 biliwn o nwyddau a gwasanaethau i'r UE, mewnforiodd y DU


³⁵ 'Balance of Payments Q3 2016', Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Rhagfyr 2016.

³⁶ 'Trade Export Helpdesk Statistics', Y Comisiwn Ewropeaidd, 2015.

werth £291 biliwn o nwyddau a gwasanaethau o'r UE.³⁷ Roedd y diffyg hwn o £61 biliwn wrth fasnachu rhwng y DU a'r UE yn £89 biliwn o ddiffyg mewn nwyddau ac yn £28 biliwn o warged mewn gwasanaethau.³⁸

8.5 Ac eithrio masnach ag Iwerddon, mae cydbwysedd masnachu'r DU ag Aelod-Wladwriaethau eraill yr UE yn agos at ddim neu'n negyddol. Mae'r DU yn mewnfory mwy o'r Aelod-Wladwriaethau mwyaf nag y mae'r DU yn ei allforio iddynt. Roedd mewnforyn y DU o'r Almaen yn 2015 yn werth tua £25 biliwn yn fwy nag allforion y DU i'r Almaen (Siart 8.1). Roedd mewnforyn y DU o'r Iseldiroedd a Ffrainc ill dau yn fwy na £37 biliwn, tra bo mewnforyn y DU o'r Eidal, Gwlad Belg a Sbaen ill tri dros £20 biliwn (Siart 8.2).³⁹

Siart 8.1 – Cydbwysedd masnachu'r DU â gwledydd yr UE



Ffynhonnell – Y Swyddfa Ystadegau Gwladol⁴⁰


³⁷ 'Balance of Payments Q3 2016', Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Rhagfyr 2016.

³⁸ 'Balance of Payments Q3 2016', Y Swyddfa Ystadegau, Rhagfyr 2016.

³⁹ 'ONS Pink Book 2016', Y Swyddfa Ystadegau, Gorffennaf 2016.

⁴⁰ 'ONS Pink Book 2016', Y Swyddfa Ystadegau, Gorffennaf 2016.

Siart 8.2 – Mewnforion y DU o wledydd yr UE



Ffynhonnell – Y Swyddfa Ystadegau Gwladol⁴¹

Germany	Yr Almaen
France	Ffrainc
Netherlands	Yr Iseldiroedd
Spain	Sbaen
Belgium	Gwlad Belg
Italy	Yr Eidal
Ireland	Iwerddon
Sweden	Sweden
Poland	Gwlad Pwyl
Czech Republic	Gweriniaeth Tsiec
Portugal	Portiwgal
Denmark	Denmarc
Austria	Awstria
Hungary	Hwngari
Greece	Groeg
Finland	Y Ffindir
Luxembourg	Lwcsembwrg
Slovakia	Slofacia
Romania	Romania
Cyprus	Cyprus
Lithuania	Lithwania
Bulgaria	Bwlgaria
Latvia	Latfia
Malta	Malta
Croatia	Croatia
Slovenia	Slofenia
Estonia	Estonia

8.6 Mae gan amrywiaeth o sectorau berthynas fasnachu agos â'r UE. Mae'r UE yn farchnad allforio fawr i sectorau pwysig yn economi'r UE, gan gynnwys nwyddau wedi'u gweithgynhyrchu a nwyddau eraill, fel cerbydau modur, ynni, bwyd a diod, cemegolion, cynhyrchion fferyllol ac amaethyddiaeth. Mae'r sectorau hyn yn cyflogi miliynau o bobl drwy Ewrop.

8.7 Mae'r DU yn allforio ystod eang o gynhyrchion a gwasanaethau i'r UE. Er enghraifft, mae'n allforio cerbydau modur, cemegolion a chynhyrchion cemegol, gwasanaethau ariannol a gwasanaethau busnes eraill, ac mae'r rhain yn gyfran arwyddocaol o gyfanswm allforion y DU i'r UE.

⁴¹ 'ONS Pink Book 2016', Y Swyddfa Ystadegau, Gorffennaf 2016.

Siartiau 8.3 ac 8.4 – Allforion cynhyrchion a gwasanaethau'r DU i'r UE fesul sector⁴²Ffynhonnell – Y Swyddfa Ystadegau Gwladol⁴³Ffynhonnell – Y Swyddfa Ystadegau Gwladol⁴⁴

⁴² Mae allforion gwasanaethau gweithgynhyrchu a chynnal a chadw wedi'u cyfrifo fel allforion yr holl wasanaethau gan dynnu allforion yr holl ddiwydiannau eraill y mae data 2015 ar eu cyfer ar gael.


⁴³ 'Publication Tables UK Trade', Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Rhagfyr 2016.

⁴⁴ 'ONS Pink Book 2016', Y Swyddfa Ystadegau, Gorffennaf 2016.

8.8 Mae cynhyrchwyr yn Aelod-Wladwriaethau eraill yr UE hefyd yn dibynnu ar gwmnïau'r DU yn eu cadwyni cyflenwi, ac mae cynhyrchwyr yn y DU yn dibynnu ar gwmnïau'r UE yn yr un modd. Mae integreiddio cadwyni cyflenwi, sydd hefyd o fudd i'r DU, yn golygu bod y DU yn aml yn cyfrannu cyfran sylweddol o'r cynnwys tramor yn allforion gwledydd yr UE. Mae Siart 8.5 yn dangos cyfran y DU yng nghynnwys tramor allforion yr UE, sy'n amrywio o ddau y cant yn Bwlgaria i dros 17 y cant yn Malta.⁴⁵

8.9 Mae hyn yn berthnasol i sectorau gwasanaethau, sy'n elfen sy'n tyfu yng nghadwyni cyflenwi'r byd; ac i lawer o sectorau nwyddau, lle mae rhannau a chydannau yn symud yn ôl ac ymlaen ar draws ffiniau. Er enghraifft, yn y sector awyrofod, mae adenydd yr Airbus A350 XWB yn cael eu cynhyrchu yn y DU. Caiff yr adenydd eu creu o nifer o rannau, sy'n dibynnu ar arbenigedd a rhagoriaeth ar draws y DU a'r UE. Er bod yr adenydd yn cael eu rhoi at ei gilydd yng Ngogledd Cymru, maent wedi'u dylunio a'u cynhyrchu drwy gydweithio rhwng timau arbenigol yn yr Almaen, Sbaen, Ffrainc a Filton, ger Bryste.⁴⁶

Siart 8.5 – Cyfran y DU o gynnwys tramor yn allforion yr UE



Ffynhonnell – Y Swyddfa Ystadegau Gwladol⁴⁷

Malta	Malta
Ireland	Iwerddon
Cyprus	Cyprus
Netherlands	Yr Iseldiroedd
Luxembourg	Lwcsembwrg
Belgium	Gwlad Belg
Denmark	Denmarc
Sweden	Sweden
Germany	Yr Almaen
Spain	Sbaen
France	Ffrainc

Finland	Y Ffindir
Portugal	Portiwgal
Greece	Groeg
Italy	Yr Eidal
Poland	Gwlad Pwyl
Estonia	Estonia
Hungary	Hwngari
Romania	Romania
Czech Republic	Gweriniaeth Tsiec (???)
Lithuania	Lithwania
Slovenia	Slofenia
Austria	Awstria
Latvia	Latfia
Slovakia	Slofacia
Croatia	Croatia
Bulgaria	Bwlgaria

8.10 Rydym yn parhau i wneud ystod eang o waith dadansoddi a cheisio barn i gyd-fynd â'n dadansoddiadau o ddata am fasnachu. Rydym wedi rhoi strwythur i'n gwaith drwy edrych ar bum sector eang sy'n cwmpasu economi'r DU: nwyddau; amaethyddiaeth, bwyd a physgodfeydd; gwasanaethau; gwasanaethau ariannol; a rhwydweithiau ynni, trafnidiaeth a chyfathrebu, yn ogystal â meysydd lle ceir systemau rheoleiddio cyffredinol. O fewn y gwaith hwn, mae ein gwaith dadansoddi a cheisio barn rhanddeiliaid yn rhoi sylw i 50 o sectorau penodol.

⁴⁵ 'Trade in Value Added – October 2015', OECD, Hydref 2015.

⁴⁶ Airbus, 2016.

⁴⁷ 'Trade in Value Added database', OECD, Hydref 2015.

Nwyddau

8.11 Mae sawl dull o sicrhau bod nwyddau'n symud yn rhydd yn yr UE, gan gynnwys egwyddor cydnabyddiaeth gydfuddiannol (sy'n golygu y gellir gwerthu nwyddau a gaiff eu marchnata yn gyfreithlon mewn un Aelod-Wladwriaeth ym mhob Aelod-Wladwriaeth), yr un rheolau i gynnyrch (lle bydd yr un rheolau'n berthnasol i ystod o nwyddau, fel gwrtaith, ym mhob Aelod-Wladwriaeth) a chytundeb y gall gweithgynhyrchwyr ddefnyddio safonau gwirfoddol fel modd o ddangos eu bod yn cydymffurfio â nodweddion hanfodol penodol a bennir yng nghyfraith yr UE (fel yn achos diogelwch teganau). Mewn nifer o sectorau lle bydd y risg sydd ynghlwm wrth nwyddau yn uwch (fel cemegolion neu feddyginiaethau), mae'r UE hefyd wedi cytuno ar yr un cyfundrefnau rheoleiddiol, gan gynnwys ar gyfer profi neu drwyddedu.

Safonau

Cytundebau technegol gwirfoddol ynghylch y ffordd orau o wneud rhywbeth yw safonau, fel sut i weithgynhyrchu cynnyrch penodol. Maent yn cael eu datblygu gan y diwydiant a rhanddeiliaid eraill drwy brosesau sy'n ceisio sicrhau consensws. Mae'r rhan fwyaf o safonau wedi'u datblygu am resymau masnachol yn unig, er mwyn helpu cwmnïau a'r fasnach ryngwladol i ryngweithredu.

Dros amser, mae'r safonau wedi cael eu datblygu'n gynyddol ar lefel fyd-eang, drwy'r Sefydliad Safoni Rhyngwladol (ISO) a'r Comisiwn Electrodechnegol Rhyngwladol (IEC). Mae'r safonau rhyngwladol hyn wedyn yn cael eu mabwysiadu ar lefelau rhanbarthol, gan gynnwys ar lefel Ewropeaidd, ac ar lefelau cenedlaethol. Bydd Sefydliad Safonau Prydain (BSI) yn parhau'n aelod o'r sefydliadau hyn ar ôl gadael yr UE a disgwyliwn i'r DU barhau i fod ar flaen y gad wrth ddatblygu safonau byd-eang.

Nid yw'r Sefydliadau Safonau Ewropeaidd yn gyrff sy'n perthyn i'r UE, er bod iddynt statws arbennig yn yr UE. Mae tua 25 y cant o'r safonau Ewropeaidd sydd wedi'u cyhoeddi wedi cael eu datblygu'n rhannol gan y Sefydliadau Safonau Ewropeaidd yn sgil ceisiadau gan y Comisiwn Ewropeaidd, er eu bod yn safonau gwirfoddol o hyd.⁴⁸ Mae'r is-gyfras hon o safonau yn rhoi modd i fusnesau ddangos eu bod yn cydymffurfio â chyfreithiau'r UE ar gyfer cynhyrchion, er enghraifft, rheolau cyfarpar nwy.

Rydym yn gweithio â'r BSI i sicrhau bod ein perthynas â'r Sefydliadau Safonau Ewropeaidd yn y dyfodol yn parhau i gefnogi amgylchedd busnes yn y DU sy'n gynhyrchol, yn agored ac yn gystadleuol.

8.12 Mewn sawl achos, mae rheolau'r UE wedi'u seilio ar ofynion byd-eang. Er enghraifft, mae Comisiwn Economaidd Ewrop y Cenhedloedd Unedig yn gosod safonau diogelwch cerbydau yn fyd-eang. Fel rhan o' gweledigaeth i greu Teyrnas Unedig sydd â'i golwg ar y byd, byddwn yn parhau i arwain ar fforymau rhyngwladol o'r fath.

8.13 Dylai ein partneriaeth newydd alluogi masnachu heb dariffiau mewn nwyddau a hynny mor ddirwysr â phosibl rhwng y DU ac Aelod-Wladwriaethau'r UE.

Amaethyddiaeth, bwyd a physgodfeydd

8.14 Mae cyfreithiau'r UE yn dylanwadu'n drwm ar sectorau amaethyddiaeth, bwyd a physgodfeydd y DU ar hyn o bryd, a hynny drwy fframweithiau fel y Polisi Amaethyddol Cyffredin a'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin, a thrwy reolau eraill sy'n cyflawni amcanion niferus, fel y camau sylweddol i ddiogelu'r amgylchedd neu les anifeiliaid.

⁴⁸ 'European Standards and the UK', Sefydliad Safonau Prydain, 2016.

8.15 O ran amaethyddiaeth a bwyd, mae'r DU yn fewnforiwr net o nwyddau bwyd-amaeth. Er bod allforion y DU o amaethyddiaeth, pysgodfeydd a chynhyrchion bwyd i'r UE yn werth £11 biliwn yn 2015, roedd y mewnforyn yn werth £28 biliwn ac mae dros 70 y cant o'n mewnforyn amaeth-bwyd blynyddol yn dod o'r UE.⁴⁹ Mae hyn yn dangos ei bod o fudd i'r DU ac i'r UE fel ei gilydd i sicrhau lefelau uchel o fynediad i'r farchnad yn y dyfodol. At hynny, gan gofio bod yr UE wedi gwario tua €58 biliwn ar y Polisi Amaethyddol Cyffredin yn 2014 (bron i 40 y cant o gyllideb yr UE),⁵⁰ mae gadael yr UE yn rhoi cyfle sylweddol i'r DU gynllunio polisiau newydd, gwell a mwy effeithlon ar gyfer ffermio cynaliadwy a chynhyrchiol, rheoli tir a chymunedau gwledig. Bydd hyn yn fodd inni gyflawni ein gweledigaeth ar gyfer creu diwydiant bwyd a ffermio sydd ar flaen y gad, ac amgylchedd glanach ac iachach sydd o fudd i bobl a'r economi.

8.16 Yn 2015, daliodd cychod pysgota'r UE 638,000 tonnall (£484 miliwn mewn refeniw) yn nyfroedd y DU a daliodd cychod pysgota'r DU 111,000 tonnall (£114 miliwn mewn refeniw) yn nyfroedd yr Aelod-Wladwriaethau.⁵¹ Ac ystyried bod diwydiant pysgota'r UE yn dibynnu'n drwm ar ddyfroedd y DU, a phwysigrwydd dyfroedd yr UE i'r DU, byddai o fudd i'r naill ochr a'r llall gael cytundeb sy'n gweithio i gymunedau pysgota'r DU a'r UE fel ei gilydd. Ar ôl gadael yr UE, byddwn am sicrhau ein bod yn creu sector bwyd môr cynaliadwy a phroffidiol ac amgylchedd morol glanach, iachach a mwy cynhyrchiol.

Gwasanaethau (heb gynnwys Gwasanaethau Ariannol)

8.17 Mae'r sector gwasanaethau yn fawr ac yn amrywiol, gan gynnwys mewn meysydd fel manwerthu, cyfrifyddiaeth, ymgynghori, gwasanaethau cyfreithiol, gwasanaethau busnes, y diwydiannau creadigol – fel ffilm, teledu, dylunio, cerddoriaeth a ffasiwn – gwasanaethau meddygol, twristiaeth ac arlwyio.

Integreiddio'r sectorau gwasanaethau â gweddill yr economi

Mae'r sectorau gwasanaethau yn rhan fawr o economi'r DU ac yn allforio'n helaeth, ac maent yn rhan bwysig ac yn elfen integredig gynyddol mewn cadwyni gwerth. Er enghraifft, cyfrannodd gwasanaethau 37 y cant at gyfanswm gwerth allforion nwyddau a weithgynhyrchwyd o'r DU yn 2011.⁵²

Mae cwmnïau yn defnyddio gwasanaethau logisteg, gwasanaethau cyfathrebu a gwasanaethau busnes yn gynyddol er mwyn hwyluso a sicrhau bod eu cadwyni cyflenwi'n gweithio'n effeithiol. Yn benodol, mae'r sector gwasanaethau proffesiynol a gwasanaethau busnes yn rhoi gwasanaethau ymgynghori a gwasanaethau gweinyddol gwerthfawr i nifer o sectorau, gan gynnwys gwasanaethau ariannol.

8.18 Nid yw'r Farchnad Sengl ar gyfer gwasanaethau yn gyflawn. Mae'n ceisio cael gwared ar rwystrau sy'n wynebu busnesau sydd am roi gwasanaethau ar draws ffiniau, neu sefydlu cwmni yn un o Aelod-Wladwriaethau eraill yr UE, drwy amryw o ddarnau o ddeddfwriaeth gyffredinol a deddfwriaeth sy'n benodol i sectorau arbennig. Mae hyn yn cynnwys cydnabod cymwysterau proffesiynol. Mae Marchnad Sengl Ddigidol yr UE yn

⁴⁹ 'Trade Statistics', Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi, 2016.

⁵⁰ 'Agriculture: A partnership between Europe and farmers', Y Comisiwn Ewropeaidd, Tachwedd 2014.

⁵¹ 'Provisional Statistics – UK Fleet Landings from other EU Member States waters: 2015', Y Sefydliad Rheoli Morol, Chwefror 2017. Nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys pysgod sydd wedi'u dal gan gychod pysgota trydydd gwledydd, er enghraifft Norwy, yn nyfroedd y DU, na physgod sydd wedi'u dal gan bysgotwyr y DU yn nyfroedd trydydd gwledydd.

⁵² 'Trade in Value Added – October 2015', OECD, Hydref 2015.

cymryd camau i geisio sicrhau bod y system reoleiddiol yn datblygu yr un mor gyflym â'r economi ddigidol wrth iddi esblygu.

8.19 Rydym yn cydnabod y bydd system effeithiol o gydweithio barnwrol sifil yn rhoi sicrwydd ac yn gwarchod dinasyddion a busnesau mewn Teyrnas Unedig sy'n gryfach yn fyd-eang.

8.20 Mae'r UE yn cymryd rhan mewn trafodaethau ar y Cytundeb ar Fasnach mewn Gwasanaethau (TiSA) â dros ugain o wledydd eraill. Mae'r DU yn parhau i fod wedi'i hymrwymo i greu TiSA uchelgeisiol, a bydd yn gadarnhaol ei hadwedd drwy gydol y trafodaethau.

8.21 Yn ein partneriaeth strategol newydd byddwn yn ceisio sicrhau'r trefniadau mwyaf rhydd posibl ar gyfer masnachu mewn gwasanaethau rhwng y DU ac Aelod-Wladwriaethau'r UE.

Gwasanaethau Ariannol

8.22 Mae'r sector gwasanaethau ariannol yn rhan bwysig o'n heconomi. Nid sector wedi'i leoli yn Llundain yn unig yw hwn; er enghraifft, mae dau draean o swyddi gwasanaethau ariannol a gwasanaethau proffesiynol cysylltiedig⁵³ wedi'u lleoli y tu allan i'r brifddinas, gan gynnwys 156,700 yn yr Alban, 54,300 yng Nghymru a 32,000 yng Ngogledd Iwerddon.⁵⁴ Mae'r DU ar flaen y gad yn fyd-eang mewn sawl maes, gan gynnwys yswiriant cymhleth, marchnadoedd cyfanwerthu a banciau buddsoddi, darparu seilwaith i'r farchnad, rheoli asedau a thechnoleg ariannol.

8.23 Mae ystod o ddarpariaethau mewn nifer o ddarnau gwahanol o reoliadau ariannol yr UE sy'n galluogi cwmnïau yn yr Aelod-Wladwriaethau i roi gwasanaethau ariannol ar draws yr UE o dan gyfres gyffredin o reolau a thrwy gael eu hawdurdodi unwaith gan eu rheoleiddiwr – cyfeirir at y rhain yn aml fel pasbortau gwasanaethau ariannol. Mae'r trefniadau hyn o fudd i gwmnïau yn y DU a'r UE ill dau - mae dros 5,000 o gwmnïau yn y DU sy'n defnyddio pasbortau i roi gwasanaethau ar draws gweddill yr UE, ond mae tua 8,000 o gwmnïau Ewropeaidd yn defnyddio pasbortau i roi gwasanaethau yn y DU.⁵⁵

8.24 At hynny, mae darpariaethau sy'n galluogi cwmnïau o 'drydydd gwledydd' i roi gwasanaethau ar draws yr UE, cyn belled ag y barnwyd bod eu rheoliadau domestig yn gyfwerth â rhai'r UE.

8.25 Yn ein cytundeb ar bartneriaeth strategol newydd byddwn yn ceisio sicrhau'r trefniadau mwyaf rhydd posibl ar gyfer masnachu mewn gwasanaethau ariannol rhwng y DU ac Aelod-Wladwriaethau'r UE.

8.26 Mewn sectorau sydd wedi'u hintegreiddio'n helaeth fel gwasanaethau ariannol, bydd diddordeb dilyn mewn sicrhau trefniadau cydweithio cydfuddiannol sy'n cydnabod y modd y mae marchnadoedd wedi'u cysylltu â'i gilydd, fel y dangoswyd mor glir adeg yr argyfwng ariannol. Ers hynny, mae'r UE wedi cymryd nifer o gamau i gryfhau'r modd y mae'n goruchwyllo'r sector ar y cyd. Wrth i'r DU adael yr UE, byddwn yn ceisio sefydlu trefniadau goruchwyllo cryf ar y cyd â'r UE a byddwn yn parhau i gefnogi a rhoi ar waith safonau rhyngwladol er mwyn gallu parhau i wasanaethu economi'r DU, economi Ewrop ac economi'r byd yn ddiogel.

⁵³ Yn cynnwys y proffesiynau cyfreithiol, cyfrifyddiaeth ac ymgynghori.

⁵⁴ 'Key facts about UK financial and related professional services', TheCityUK, Mawrth 2016.

⁵⁵ 'Letter from Financial Conduct Authority to Treasury Committee Chair regarding passports', Senedd y DU, Awst 2016.

Canolfan ariannol Ewropeaidd i'r byd

Mae'r sector gwasanaethau ariannol yn rhan bwysig o economi Ewrop, gan gyfrannu'n sylweddol at ariannu busnesau Ewropeaidd ac at dwf y rheini. Mae o fudd i'r DU ac i'r UE y dylai hyn barhau er mwyn osgoi rhaniadau yn y farchnad ac amharu ar wasanaethau neu ddod â'r rheini i ben.

Mae sector gwasanaethau ariannol y DU yn ganolbwynt i gyllid, masnachu a buddsoddi o bob cwr o'r byd, ac mae'n un o ddwy ganolfan gwasanaethau ariannol llawn yn fyd-eang – a'r unig un yn Ewrop. Yn 2016, daeth Llundain i'r brig drachefn fel y brif ganolfan ariannol ym Mynegai Canolfannau Ariannol y Byd.⁵⁶

Mae dinasyddion, busnesau a chyrff y sector cyhoeddus drwy'r cyfandir yn dibynnu ar y Ddinas i gael y gwasanaethau y mae eu hangen arnynt. Mae dros 75 y cant o fusnes marchnad gyfalafol yr EU27 yn cael ei gynnal drwy'r DU.⁵⁷ Mae'r diwydiant yn y DU yn rheoli gwerth £1.2 triliwn o bensiynau ac asedau eraill ar ran cleientiaid Ewropeaidd.⁵⁸ Mae'r DU hefyd yn gyfrifol am 37 y cant o holl Gynigion Cyhoeddus Cychwynnol Ewrop, tra bo'r DU yn derbyn dros draean yr holl fenter-cyfalaf a fuddsoddir yn yr UE.⁵⁹

Mae o fudd i gwmnïau'r EU27 hefyd i barhau i wasanaethau cwmnïau'r DU.

Bydd y cryfderau sylfaenol sy'n sail i'r sector gwasanaethau ariannol yn y DU, fel ein system gyfreithiol, ein hiaith a'n seilwaith ragorol, yn help i sicrhau bod y DU yn parhau'n ganolfan ariannol fyd-eang heb ei hail.

Rhwydweithiau ynni, trafnidiaeth a chyfathrebu

8.27 Mae tri diwydiant rhwydwaith a gwasanaethau cysylltiedig drwy'r DU sy'n ymwneud yn helaeth â'r UE: trafnidiaeth, ynni a chyfathrebu. Mae'r tri yn bwysig yn eu ffyrdd eu hunain ac yn wasanaethau sy'n galluogi'r economi gyfan i weithio a llwyddo.

8.28 O ran ynni, mae deddfwriaeth yr UE yn sail i gydlynu masnachu nwy a thrydan drwy ryng-gysylltiadau ag Aelod-Wladwriaethau, gan gynnwys Iwerddon, Ffrainc, Gwlad Belg a'r Iseldiroedd. Mae cynlluniau ar y gweill hefyd i greu rhagor o ryng-gysylltiadau trydan rhwng y DU ac Aelod-Wladwriaethau'r UE ac Aelodau Ardal Economaidd Ewrop. Mae'r trefniadau hyn i gydlynu masnachu ynni yn help i sicrhau prisiau is a gwell diogelwch cyflenwad i'r DU ac Aelod-Wladwriaethau'r UE fel ei gilydd, a hynny drwy wella effeithlonrwydd a dibynadwyedd y llif drwy'r rhyng-gysylltiadau, lleihau'r galw am bŵer domestig wrth gefn, a helpu i gydbwysu llif pŵer wrth inni gynyddu lefel y trydan adnewyddadwy ysbeidiol sy'n cael ei gynhyrchu. Rydym yn ystyried pob opsiwn ar gyfer dyfodol perthynas y DU a'r UE yn y sector ynni. Yn benodol, rydym am osgoi amharu ar y farchnad drydan sengl sy'n gweithredu ar draws ynys Iwerddon, gan fod Gogledd Iwerddon ac Iwerddon yn dibynnu ar y farchnad honno am gyflenwadau ynni fforddiadwy, cynaliadwy a diogel.

⁵⁶ 'Global Financial Centres Index', Z/Yen Group, Medi 2016.

⁵⁷ 'EU Scenarios and the UK Financial Centre', Oliver Wyman and the City UK, Ebrill 2014.

⁵⁸ 'Asset Management in the UK 2015-16: The Investment Association Annual Survey', The Investment Association, Medi 2016.

⁵⁹ 'The Potential Impact of Brexit on European Capital Markets: A Qualitative Survey of Market Participants', New Financial, Ebrill 2016.

8.29 Mae Cytuniad Euratom yn darparu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer cynhyrchu pŵer niwclear sifil a rheoli gwastraff ymbelydrol i aelodau Cymuned Euratom, sydd i gyd yn Aelod-Wladwriaethau o'r UE. Mae hyn yn cynnwys trefniadau i gymryd camau diogelu ar gyfer ynni niwclear, diogelwch a symud a masnachu deunydd niwclear rhwng Aelodau Euratom fel Ffrainc a'r DU, yn ogystal â rhwng Aelodau Euratom a thrydydd gwledydd fel yr Unol Daleithiau.

8.30 Pan fyddwn yn cychwyn proses Erthygl 50, byddwn yn gadael Euratom yn ogystal â gadael yr UE. Er i Euratom gael ei sefydlu mewn cytuniad ar wahân i gytundebau a chytuniadau'r UE, mae'n defnyddio'r un sefydliadau â'r UE gan gynnwys y Comisiwn, Cyngor y Gweinidogion, a'r Llys Cyfiawnder.⁶⁰ Mae Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008 yn ei gwneud yn glir bod cyfeiriadau at yr UE yng nghyfraith y DU yn cynnwys Euratom. Mae Cytuniad Euratom yn cynnwys Erthygl 50 yn ei ddarpariaethau.

8.31 Fel y mae'r Prif Weinidog wedi dweud, rydym am gydweithio â'n partneriaid yn yr UE ar faterion sy'n ymwneud â gwyddoniaeth ac ymchwil, ac mae ynni niwclear yn rhan bwysig o hyn. Felly, bydd ein hunion berthynas ag Euratom, a sut y byddwn yn cydweithio ar faterion niwclear, yn bwnc i'r trafodaethau. Ond mae hyn yn flaenoriaeth bwysig inni: mae'r diwydiant niwclear o bwysigrwydd strategol mawr i'r DU ac ni fydd gadael Euratom yn effeithio ar y nod amlwg sydd gennym o barhau â'r trefniadau cydweithio agos ac effeithiol ar gyfer niwclear sifil, camau diogelu, diogelwch a masnachu gydag Ewrop a'n partneriaid rhyngwladol. At hynny, mae'r DU ar flaen y gad yn fyd-eang yn y maes ymchwil a datblygu niwclear, ac nid yw'n fwriad gwanhau ein huchelgais yn y maes pwysig hwn. Mae'r DU yn cydnabod yn llwyr bwysigrwydd cydweithio rhyngwladol ym maes ymchwil a datblygu niwclear, a byddwn yn sicrhau bod hyn yn parhau drwy geisio sefydlu trefniadau gwahanol.

8.32 Yn y sector **trafnidiaeth**, ceir corff sylweddol o gyfraith yr UE sy'n ymwneud â'r pedwar maes trafndiaeth (hedfan, ffyrdd, rheilffyrdd a morol), a dyma sy'n llywodraethu'n perthynas bresennol â'r UE yn y sector. Bydd angen rhoi sylw i hyn wrth inni drafod ein perthynas yn y dyfodol. Er enghraifft, o ran hedfan, y trefniant rhyngwladol safonol yw bod gwasanaethau awyr yn gweithredu o dan hawliau a roddir drwy drefniadau gwasanaethau awyr dwyochrog rhwng cenedl-wladwriaethau. Yn niwedd y 1980au a dechrau'r 1990au creodd yr UE farchnad hedfan fewnol lle gallai unrhyw gludwr a oedd â thrwydded yn yr UE weithredu unrhyw wasanaeth yn yr UE, gan ddisodli'r hen drefniadau dwyochrog. Wrth inni adael yr UE, bydd yn amlwg o fudd i bob ochr sicrhau trefniadau sy'n parhau i gynnis trafndiaeth awyr fforddiadwy a hygyrch i holl ddinasyddion Ewrop, yn ogystal â chynnal a datblygu gwell cysylltiadau. Byddwn hefyd yn ceisio sicrhau trefniadau gwasanaethau awyr dwyochrog gyda gwledydd fel yr Unol Daleithiau, gan fod ein trefniadau gwasanaethau awyr presennol yn rhai rhwng yr UE a'r Unol Daleithiau.

8.33 Mae materion tebyg i'w datrys yn y maes cludo nwyddau ar lorïau, gan mai fframwaith rheoleiddiol yr UE sy'n gwarantu hawl i weithredwyr HGV gludo nwyddau i ac o wledydd eraill yr UE, a thrwy ac o fewn y rheini. Mae tua 99 y cant o gyfanswm cludo nwyddau rhyngwladol ar ffyrdd yn y DU yn deithiau i ac o wledydd eraill yr EU27. Lorïau tramor sy'n gyfrifol am tua 80 y cant o'r cludo nwyddau hwn ar draws ffiniau.^{61, 62}

8.34 O ran **rhwydweithiau cyfathrebu**, mae gweithredwyr telathrebu yn cael eu rheoleiddio yn y DU gan 'Fframwaith Cyfathrebiadau Electronig' yr UE, sy'n hyrwyddo cystadleuaeth a dewis. Wrth inni adael yr UE, byddwn am sicrhau bod cwmnïau telathrebu yn gallu parhau i fasnachu mewn ffordd mor rhydd a chystadleuol â phosibl â'r UE a gadael i gwmnïau Ewropeaidd wneud yr un peth yn y DU.

⁶⁰ Adran 3(2) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008.

⁶¹ 'International road freight transport statistics (Table go_ia_rc)', Eurostat, Medi 2016.

⁶² 'International Road Freight Activity' Tablau RSF0201, RSF0208, RFS0209, Yr Adran Drafndiaeth, Ionawr 2017.

8.35 Y Gyfarwydddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clyweledol sy'n rheoleiddio cynnwys sy'n cael ei gludo dros rwydweithiau cyfathrebu electronig yn yr UE. Mae hyn yn rhoi sail i farchnad fewnol ar gyfer darlledu drwy sicrhau rhyddid i ddarparu gwasanaethau darlledu drwy'r UE. Yn y DU y mae canolfan ddarlledu fwyaf yr UE ar hyn o bryd, ac mae yma nifer fawr o gwmnïau darlledu rhyngwladol. Yn ystod y trafodaethau, byddwn yn canolbwyntio ar sicrhau'r gallu i fasnachu mor rhydd â phosibl â'r UE ac ar gefnogi sector darlledu'r DU i barhau i dyfu.

Rheoliadau cyffredinol

8.36 Ceir nifer o reoliadau cyffredinol ar gyfer darparu a sicrhau safonau uchel yn y maes nwyddau a gwasanaethau, gan greu amgylchedd cadarnhaol i fusnesau, buddsoddwyr a defnyddwyr. Er enghraifft, ceir fframwaith cyffredin ar gyfer cystadleuaeth a diogelu defnyddwyr ac mae'r fframwaith hwnnw'n delio ag uno cwmnïau, monopolïau, a gweithgarwch gwrth-gystadleuol a masnachu annheg yn yr UE mewn ffordd gyson. Ceir hefyd systemau drwy'r UE ar gyfer diogelu eiddo deallusol.

8.37 Wrth inni adael yr UE, mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i sicrhau mai'r DU yw'r lle gorau yn y byd i gynnal busnes. Bydd hyn yn golygu creu amgylchedd rheoleidiol o safon uchel, sefydlog a rhagweladwy, gan hefyd achub ar gyfleoedd i leihau costau rheoleiddio diangen a chefnogi modelau busnes arloesol.

8.38 Mae sefydlogrwydd trosglwyddo data yn bwysig i sawl sector— o wasanaethau ariannol, i dechnoleg, i gwmnïau ynni. Mae rheolau'r UE yn galluogi llif data rhwng Aelod-Wladwriaethau. Er enghraifft, mae fframwaith diogelu data'r UE yn amlinellu hawliau dinasyddion yr UE, yn ogystal â'r rhwymedigaethau ar gwmnïau wrth brosesu a throsglwyddo'r data hwn. Ceir ymgynghori parhaol hefyd ynghylch llif rhydd data, gan gynnwys ystyried a oes angen deddfwriaeth i gyfyngu ar y gofynion ar Aelod-Wladwriaethau i storio data yn genedlaethol.

8.39 Mae modd i'r Comisiwn Ewropeaidd gydnabod bod safonau diogelu data mewn trydydd gwledydd yn debyg i rai'r UE, sy'n golygu bod modd i gwmnïau yn yr UE drosglwyddo data i'r gwledydd hynny'n rhydd.

8.40 Wrth inni adael yr UE, byddwn yn ceisio cynnal sefydlogrwydd y broses o drosglwyddo data rhwng Aelod-Wladwriaethau'r UE a'r DU.

8.41 Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i sicrhau mai ni fydd y genhedlaeth gyntaf i adael yr amgylchedd mewn gwell cyflwr na chynt. Byddwn yn defnyddio'r Bil Diddymu Mawr er mwyn i'r fframwaith presennol ar gyfer rheoleiddio'r amgylchedd fod yn rhan o gyfraith y DU a chyfraith ddatganoledig. Bydd y camau y mae'r DU yn eu cymryd i roi sylw i'r hinsawdd yn parhau i fod wedi'u seilio ar y targedau a geir yn Neddf Newid Hinsawdd 2008 a thrwy ein system o gyllidebau carbon pum-mlunedd, sydd yn eu tro yn help i'r gwaith a wnawn yn rhyngwladol i fod yn uchelgeisiol wrth roi sylw i'r hinsawdd. Rydym am achub ar y cyfle hwn i ddatblygu, dros gyfnod, ddull cynhwysfawr o wella ein hamgylchedd mewn ffordd sy'n addas i'n hanghenion penodol.

Asiantaethau'r Undeb Ewropeaidd

8.42 Ceir nifer o asiantaethau yn yr UE, fel yr Asiantaeth Meddyginiaethau Ewropeaidd, yr Asiantaeth Cemegolion Ewropeaidd, yr Asiantaeth Diogelwch Awyr Ewropeaidd, yr Asiantaeth Diogelwch Bwyd Ewropeaidd, a'r Asiantaeth Awdurdodau Goruchwylio (Gwasanaethau Ariannol),

sydd i gyd wedi'u sefydlu i helpu Aelod-Wladwriaethau'r UE a'u dinasyddion. Gall y rhain fod yn gyfrifol am orfodi cyfundrefnau rheoleiddiol penodol, neu am gronni a rhannu gwybodaeth. Fel rhan o'r trafodaethau i adael, bydd y Llywodraeth yn cynnal trafodaethau â'r UE a'r Aelod-Wladwriaethau ynghylch ein statws a'n trefniadau yn y dyfodol mewn perthynas â'r asiantaethau hyn.

Trefniant tollau newydd sy'n fuddiol i'r naill ochr a'r llall

8.43 Ar ôl inni adael yr UE, rydym am sicrhau ein bod yn gallu manteisio ar y cyfle i greu trefniadau masnach rydym ni'n eu ffafrio o amgylch y byd. Ni fydd Tariff Allanol Cyffredin yr UE yn cyfyngu arnom, ac ni fyddwn yn cymryd rhan yn y Polisi Masnachol Cyffredin. Ond rydym yn awyddus i sicrhau bod modd masnachu ar draws ffiniau â'r UE mewn ffordd mor ddirwystr a hwylus â phosibl. Dyma'r amcanion a fydd yn ein llywio wrth greu trefniadau tollau yn y dyfodol â'r UE.

8.44 Mae'r DU ar hyn o bryd yn aelod o Undeb Tollau'r UE. Wrth inni ddatblygu ein perthynas ar gyfer tollau yn y dyfodol rhyngom a'r UE a gweddill y byd, rydym yn dechrau o fan cychwyn cryf. Fel cenedl fasnachu fawr, mae gennym system dollau o'r radd flaenaf sy'n delio â mewnforynion ac allforynion o bob rhan o'r byd. Mae gennym eisoes brosesau hynod o effeithiol ar gyfer nwyddau sy'n cyrraedd o weddill y byd – mae'r mwyafrif helaeth o ddatganiadau tollau yn y DU yn cael eu cyflwyno'n electronig ac yn cael eu prosesu'n gyflym iawn. Dim ond cyfran fechan sy'n cymryd mwy o amser, er enghraifft pan fydd asesiadau risg yn dangos bod angen gwiriadau cydymffurfio a gorfodi ar y ffin. Mae Mynegai Perfformiad Logisteg Banc y Byd yn dangos mai gan Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi y mae un o'r cyfundrefnau tollau mwyaf effeithlon yn y byd.⁶³

⁶³ 'Appendix 4, Connecting to Compete 2016: Trade Logistics in the Global Economy', Banc y Byd, 2016.

Undeb Tollau'r UE

Trefniant rhwng dwy wlad neu ragor yw undeb tollau, gyda'r nod o alluogi nwyddau i deithio'n rhydd yn ardal yr undeb tollau, a hynny drwy gyflwyno tariff allanol cyffredin ar gyfer yr aelodau a chael gwared ar dariffiau rhyngddynt. Nid yw'n berthnasol i fasnachu mewn gwasanaethau, symud cyfalaf yn rhydd, nac i'r modd y bydd pobl yn symud yn rhydd.

Mae undeb tollau yn caniatáu i nwyddau symud rhwng ei aelodau. Fodd bynnag, mae'r gofyniad i gael tariff allanol cyffredin, sy'n cael ei ddefnyddio mewn ffordd gyson gan bob aelod, yn ôl ei natur yn cyfyngu ar allu'r aelodau i gael cytundebau masnach rydd ar wahân â thrydydd gwledydd, gan rwystro aelodau rhag defnyddio tariff gwahanol i'r tariff allanol cyffredin.

Mae Undeb Tollau'r UE yn fodel dwfn, sy'n cynnwys 28 Aelod-Wladwriaeth yr UE. Mae gan Dwrci, San Marino ac Andorra hefyd eu hundebau tollau eu hunain â'r UE.⁶⁴ Nid yw Tiriogaethau Tramor y DU (ac eithrio Gibraltar ac Ardaloedd y Ganolfan Sofran ar Cyprus) yn rhan o'r UE, ac nid ydynt yn rhan o'r Undeb Tollau chwaith. Mae cyfraith yr UE yn berthnasol i raddau helaeth yn Gibraltar, ond nid yw Gibraltar yn rhan o Undeb Tollau yr UE.⁶⁵ Ystyrir bod Ardaloedd y Ganolfan Sofran yn Cyprus, ynghyd â Monaco, yn rhan o'r Undeb Tollau.⁶⁶ Nid yw'r Tiriogaethau Dibynnol ar y Goron yn yr UE,⁶⁷ ond maent yn rhan o Undeb Tollau'r UE.⁶⁸

Mae modd symud nwyddau yn yr Undeb Tollau yn rhydd heb dariffiau, cwotâu na'r camau rheoli tollau arferol. Ar lefel yr UE, yn hytrach na lefel genedlaethol, y caiff y tariffiau, cwotâu a'r camau i reoli tollau eu penderfynu ar gyfer nwyddau sy'n symud rhwng gwledydd yr UE a gwledydd y tu allan i'r UE.

O dan Undeb Tollau'r UE, gan yr UE yn unig y mae cymhwysedd dros bolisi tollau. Mae gofyn i bob un o Aelod-Wladwriaethau'r DU gael gweithdrefnau tollau sy'n unol â deddfwriaeth yr UE (sef 'Cod yr Undeb Tollau'). Mae'r DU yn penderfynu pa adran o'r llywodraeth neu pa asiantaeth sy'n gyfrifol am weithredu a gorfodi cyfraith tollau yn y DU. Dros y degawd diwethaf, bu Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi, Asiantaeth Ffiniau'r DU a Llu Ffiniau'r DU yn gyfrifol am amrywiaeth o swyddogaethau tollau. Ar hyn o bryd, Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi a Llu Ffiniau'r DU sy'n gyfrifol am swyddogaethau tollau.

Nid yw gwasanaethau wedi'u cynnwys yn uniongyrchol mewn undeb tollau (nid oes rheolaeth arnynt drwy dariffiau na thollau) ond maent wedi dod yn rhan gynyddol o gynhyrchu nwyddau. Felly, gallai undeb tollau effeithio'n anuniongyrchol ar fasnach mewn diwydiannau gwasanaeth. Er enghraifft, wrth allforio ceir, gallai cwmni moduron hefyd roi gwasanaethau ariannol.

⁶⁴ 'Regional Trade International Trade Agreements Information System', Sefydliad Masnach y Byd, Ionawr 2017.

⁶⁵ 'Foreign Travel Advice: Gibraltar', Llywodraeth EM, Rhagfyr 2016.

⁶⁶ 'Customs', Y Comisiwn Ewropeaidd, 2017.

⁶⁷ 'Fact sheet on the UK's relationship with the Crown Dependencies', Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, 2014.

⁶⁸ 'Guidance: UK Trade Tariff: European union and new Member States', Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi, Ebrill 2016.

Aelodaeth yr UE a'i grwpiau cysylltiedig

Mae'r diagram isod yn dangos pa wledydd sy'n rhan o'r gwahanol grwpiau sy'n gysylltiedig â'r UE. Fel y nodir uchod, mae pob un o Aelod-Wladwriaethau'r UE yn rhan o Undeb Tollau'r UE. Mae gan nifer o wledydd eraill hefyd drefniant undeb tollau â'r UE, fel Twrci.

Ffynhonnell - Llywodraeth EM

THE EUROPEAN UNION	YR UNDEB EWROPEAIDD
UK	Y DU
Denmark	Denmarc
Fiscal compact	Compact Ariannol
Bulgaria	Bwlgaria
Hungary	Hwngari
Poland	Gwlad Pwyl
Romania	Romania
Sweden	Sweden
Croatia	Croatia
Czech Republic	Gweriniaeth Tsiec
Obligation to join euro	Yn gorfod ymuno â'r Ewro
Andorra	Andorra
Monaco	Monaco
San Marino	San Marino
Turkey	Twrci
CUSTOMS UNION	YR UNDEB TOLLAU
EURO AREA	ARDAL YR EWRO
Austria	Awstria
Belgium	Gwlad Belg
Malta	Malta
Greece	Gwlad Groeg
Cyprus	Cyprus
Netherlands	Yr Iseldiroedd
Slovakia	Slofacia
Ireland	Iwerddon
Estonia	Estonia
Portugal	Portiwgal
Slovenia	Slofenia
Finland	Y Ffindir
Spain	Sbaen
Latvia	Latfia
Lithuania	Lithuania
France	Ffrainc
Italy	Yr Eidal
Luxembourg	Lwcsembwrg
Germany	Yr Almaen
EUROPEAN ECONOMIC AREA	ARDAL ECONOMAIDD EWROP
Norway	Norwy
Liechtenstein	Liechtenstein
Iceland	Gwlad yr Îa
EUROPEAN FREE TRADE ASSOCIATION	CYMDEITHAS MASNACH RYDD EWROP
Switzerland	Y Swistir

8.45 Wrth adael yr UE, bydd y DU yn ceisio sicrhau trefniant tollau newydd â'r UE, a hwnnw'n ein galluogi i achub ar y cyfleoedd a ddaw drwy fasnachu ag eraill ac i barhau i fasnachu rhwng y DU a'r UE mewn ffordd mor ddirwysr â phosibl. Ceir nifer o opsiynau ar gyfer unrhyw drefniant tollau newydd, gan gynnwys trefniant cwbl newydd, neu i'r DU barhau'n rhan o rai o elfennau'r trefniadau presennol. Bydd angen trafod union ffurf y trefniant newydd hwn.

8.46 Mae o fudd i'r DU ac i'r Undeb Ewropeaidd gael trefniant tollau sydd er lles y naill ochr a'r llall er mwyn sicrhau bod modd parhau i fasnachu nwyddau rhwng y DU a'r UE i'r un graddau ag ar hyn o bryd, gymaint ag y mae hynny'n bosibl. Bydd hyn rhan bwysig o'n huchelgais ar gyfer creu partneriaeth strategol newydd â'r UE.

8.47 Pa bynnag ffurf fydd i'r trefniant tollau hwnnw, a pha bynnag ddull fydd ei angen er mwyn ei roi ar waith, byddwn yn ceisio cynnal cynifer o'r pethau hynny sy'n hwylus i fusnesau ar hyn o bryd, ac os bydd gofyn am weithdrefnau tollau, yna byddwn yn ceisio sicrhau bod y rhain mor ddirwysr â phosibl. Er y byddwn yn edrych ar gynseiliau mewn trefniadau tollau rhwng gwledydd eraill, ni fyddwn yn ceisio creu'r un model a byddwn yn ceisio sicrhau'r cytundeb gorau posibl i'r DU.

8.48 Ynghyd â'r trefniant newydd â'r UE, byddwn hefyd yn ceisio sicrhau bod systemau a phrosesau tollau y DU ei hun yn parhau i fod mor effeithiol â phosibl. Mae gennym feddwl agored ynghylch sut i roi trefniadau tollau newydd ar waith â'r UE a byddwn yn gweithio â busnesau a darparwyr seilwaith i sicrhau bod y prosesau hynny mor ddirwysr â phosibl, gan gynnwys drwy ddefnyddio technolegau digidol.

8.49 Rydym hefyd yn ymwybodol o'r amgylchiadau penodol y mae busnesau yng Ngogledd Iwerddon yn eu hwynebu. Rydym wedi ymrwmo i sicrhau cytundeb sy'n gweithio i'r DU gyfan. Fel yn achos yr Ardal Deithio Gyffredin, rydym wedi ymrwmo i weithio â Llywodraeth Iwerddon a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon i leihau'r baich gweinyddol gymaint ag y bod modd, ac i ddod o hyd i ateb ymarferol sy'n golygu bod cyn lleied o rwystrau a rhaniadau ar y ffin â phosibl, gan gydnabod y cyd-destun economaidd, cymdeithasol a gwleidyddol unigryw ar y ffin rhwng Gogledd Iwerddon ac Iwerddon.

8.50 Byddwn yn awyddus i weithio'n agos â Llywodraeth Iwerddon i sicrhau ein bod, wrth i'r DU adael yr UE, yn canfod atebion ar y cyd i'r heriau economaidd ac yn achub i'r eithaf ar y cyfleoedd economaidd i'r DU ac Iwerddon.

Cyllideb yr UE

8.51 Ar ôl inni adael yr UE, bydd y penderfyniadau ynghylch sut y caiff arian trethdalwyr ei wario yn cael eu gwneud yn y DU. Gan na fyddwn yn aelodau o'r Farchnad Sengl bellach, ni fydd gofyn inni wneud cyfraniadau anferth i gyllideb yr UE. Efallai y byddwn am gyfrannu at rai rhaglenni Ewropeaidd. Os hynny, mae'n rhesymol y dylem wneud cyfraniad addas. Ond penderfyniad i'r DU fydd hyn wrth inni drafod y trefniadau newydd.

9. Sicrhau cytundebau masnach newydd â gwledydd eraill


Drwy adael yr UE bydd gennym gyfle i lunio cytundebau masnach rydd newydd â gwledydd ym mhob cwr o'r byd. Byddwn yn hyrwyddo masnach rydd gan geisio rhyddfrydoli yn ddwyochrog, yn ogystal ag mewn grwpiau ehangach, a byddwn yn parhau i gefnogi'r system sy'n seiliedig ar reolau rhyngwladol.

Cryfhau masnachu â'r byd

9.1 Mae'r DU yn falch o'i hanes hir a llwyddiannus fel cenedl sy'n masnachu. Fel y mae Siart 9.1 yn ei ddangos, bu cynnydd graddol mewn masnach gyffredinol fel canran o Gynnyrch Domestig Gros yn y cyfnod wedi'r rhyfel.⁶⁹ Rydym ers tro byd wedi cefnogi rhyddfrydoli masnach fyd-eang a'r system fasnachu ar sail rheolau. Mae system sy'n seiliedig ar reolau rhyngwladol yn hanfodol er mwyn cynnal masnach rydd a diffyndollaeth.

⁶⁹ 'Quarterly National Accounts: Quarter 3 (July to September) 2016', Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Rhagfyr 2016.

Siart 9.1 – Bod yn agored i fasnach – Cyfanswm masnach y DU fel cyfran o Gynnyrch Domestig Gros



Ffynhonnell –Banc Lloegr⁷⁰


9.2 Mae'r DU wastad wedi bod yn gryf o blaid agenda ryddfrydoli'r UE, boed o ran creu ac ehangu'r Farchnad Sengl neu sicrhau cytundebau masnach rydd â chenhedloedd eraill. Byddwn yn parhau i gefnogi agenda fasnach yr UE tra byddwn yn aelod. Ar ôl inni adael byddwn yn ceisio cynyddu masnach y DU yn sylweddol â'r marchnadoedd sy'n tyfu gyflymaf a'r rhai mwyaf dynamig yn y byd. Mae'r UE yn parhau'n bartner masnachu pwysig i'r DU, ond mae pwysigrwydd marchnadoedd eraill y tu allan i'r UE wedi bod yn cynyddu mewn termau cymharol. Mae cyfran allforion y DU i'r UE wedi dirywio o 54 y cant yn 2000 i 44 y cant yn 2015.⁷¹ At hynny, mae'r twf blynyddol yn allforion y DU i'r UE (tua 2.5 y cant rhwng 2005 a 2015) wedi bod yn llai na'r twf blynyddol mewn allforion byd-eang (dros 4 y cant rhwng 2005 a 2015).⁷² Fel y gwelir yn Siart 9.2 isod, yr Unol Daleithiau yw ein marchnad allforio fwyaf unigol o edrych ar bethau fesul gwlad.

⁷⁰ Y gymhareb masnach i Gynnyrch Domestig Gros yw cyfanswm yr allforion a'r mewnforion gwirioneddol wedi'i rannu â'r gwir Gynnyrch Domestig Gros ym mhrisiau 2013. Mae'n cynrychioli cyfanswm yr holl fasnach yn economi'r DU ac fe'i defnyddir weithiau i ddangos 'pa mor agored yw masnach'; a 'Three Centuries of Macroeconomic Data', Banc Lloegr, Mehefin 2016.

⁷¹ 'ONS Pink Book 2016', Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Gorffennaf 2016.

⁷² 'ONS Pink Book 2016', Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Gorffennaf 2016.

Siart 9.2 – Cyfran allforion nwyddau a gwasanaethau'r DU i'r 10 farchnad allforio fwyaf



Ffynhonnell – Y Swyddfa Ystadegau Gwladol⁷³

9.3 Rydym yn masnachu'n gynyddol â'r marchnadoedd pwysig sy'n datblygu yn y byd yn Asia a chyfandiroedd America. Fel y gwelir yn Siart 9.3, ymhlith y marchnadoedd allforio a oedd yn tyfu gyflymaf i'r DU rhwng 2005 a 2014 roedd De Korea (13 y cant y flwyddyn), Tsieina (17 y cant y flwyddyn), Brasil (12 y cant y flwyddyn) a Mecsico (9 y cant y flwyddyn).⁷⁴ Mae masnach â gwledydd sy'n datblygu wedi cynyddu, gyda nifer yn mewnforio nwyddau o'r DU yn ogystal â bod yn gyflenwyr pwysig i gadwyni cyflenwi'r DU. Cyfanswm masnach y DU â'r 80 a rhagor o wledydd sy'n datblygu ac sy'n cael ffafriaeth wrth fasnachu â'r UE⁷⁵ oedd tua £19 biliwn mewn allforion a £27 biliwn mewn mewnforion yn 2015.⁷⁶


⁷³ O ganlyniad i gamgymeriad wrth briodoli allforion gwasanaethau'r DU, mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn barnu bod data 2015 ar lefel gwledydd yn annibynadwy, ac felly data 2014 sydd wedi'i ddefnyddio; 'ONS Pink Book 2016', Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Gorffennaf 2016.

⁷⁴ 'ONS Pink Book 2016', Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Gorffennaf 2016; ar gyfer Mecsico, priodolwyd allforion yn 2014 yn anghywir i wledydd eraill yng Nghanol America, ac felly defnyddiwyd data 2013.

⁷⁵ Ffafriaeth wrth fasnachu yw rhoi tariffau is i nwyddau a gaiff eu mewnforio o wledydd sy'n datblygu er mwyn helpu i hyrwyddo masnach a datblygu yng ngwledydd tlotaf y byd. Gallant fod yn help i annog masnach a buddsoddi y ddwy ffordd â gwledydd sy'n datblygu gan hybu twf a chyflogaeth a lleihau tloti.

⁷⁶ Cyfrifiadau yr Adran dros Ddatblygu Rhyngwladol.

Siart 9.3 – Yr 20 marchnad sy'n tyfu gyflymaf ar gyfer allforio nwyddau a gwasanaethau'r DU



Ffynhonnell – Y Swyddfa Ystadegau Gwladol⁷⁷

9.4 Mae'r DU yn lleoliad atyniadol ar gyfer mewnfuddsoddi. Ar ôl yr Unol Daleithiau a Tsieina (gan gynnwys Hong Kong), y DU yw'r trydydd yn y byd am faint y stoc Buddsoddi Uniongyrchol o Dramor, a chyrhaeddodd hynny £1 triliwn yn 2014.⁷⁸ Mae gan fuddsoddwyr hyder o hyd yn y DU ac yn ôl adroddiadau annibynnol o bwys, y DU yw'r prif leoliad yn Ewrop a gyfer Buddsoddi Uniongyrchol o Dramor.⁷⁹

9.5 Ar ôl gadael yr UE, bydd y DU yn datblygu'r cryfderau hyn ac yn datblygu ein rôl hanesyddol fel cenedl sy'n masnachu â'r byd, a hynny er mwyn gwireddu'r cyfleoedd sydd ar gael inni. Drwy hybu masnach, drwy agor marchnadoedd a thrwy ddenu cwmnïau mwyaf llwyddiannus y byd i fuddsoddi yn y DU, byddwn yn creu swyddi ac yn cynyddu cynhyrchiant a'r Cynnyrch Domestig Gros. Mae cynyddu cystadleuaeth ac annog busnesau i arloesi yn galluogi cyflenwyr i ddefnyddio cynhyrchion o ansawdd uwch a rhatach yn eu cadwyni cyflenwi ac mae'n rhoi mwy o ddewis a phrisiau is i ddefnyddwyr.

9.6 Bydd ein dull o lunio polisi masnach yn cynnwys nifer o elfennau i ysgogi masnach gan gynnwys: cytundebau masnach rydd dwyochrog a deialog â thrydydd gwledydd, cyfrannu mewn trafodaethau amlochrog a lluosochrog, mynediad

⁷⁷ O ganlyniad i gamgymeriad wrth briodoli allforion gwasanaethau'r DU, mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn barnu bod data 2015 ar lefel gwledydd yn annibynadwy, ac felly data 2014 sydd wedi'i ddefnyddio.

*Ar gyfer Mecsico, priodolwyd allforion yn 2014 i wledydd eraill yng Nghanol America. O'r herwydd defnyddiwyd data 2013.

Mae categorïau eraill – sy'n berthnasol i nifer o wledydd – wedi'u hepgor o'r siart; 'ONS Pink Book 2016', Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Gorffennaf 2016.

⁷⁸ 'Investment Figures', UKTI, 2014/15.

⁷⁹ 'EY UK Attractiveness Survey 2016', EY UK, 2016.

i'r farchnad a datrys anghydfodau drwy Sefydliad Masnach y Byd, camau unioni, rheolaeth dros fewnforio ac allforio, rhyddfrydoli unochrog, ffafriaeth wrth fasnachu a masnachu er mwyn datblygu.

9.7 Heb yr angen i ystyried safbwyntiau'r EU27, mae polisi masnach annibynnol yn rhoi cyfle inni lunio cytundebau sy'n fwy addas i'r DU ac i wneud cynnydd cyflymach â phartneriaid newydd, yn ogystal ag yn y meysydd lle nad yw trafodaethau'r UE wedi symud yn eu blaenau.

9.8 Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddiffinio sut y bydd y Llywodraeth yn bwrw ati â'i pholisi masnach. Maes o law, bydd y Llywodraeth am ymgynghori â busnesau a phartion eraill sydd â diddordeb ynghylch yr hyn y dylai fod yn ceisio'i sicrhau.

Yr Adran dros Fasnach Ryngwladol

9.9 Rydym wedi sefydlu Adran dros Fasnach Ryngwladol, gyda'r nod o gynyddu masnach a buddsoddi yn y DU. Amcanion yr adran yw:

1. hyrwyddo a chefnogi allforio nwyddau a gwasanaethau o'r DU er mwyn creu economi sy'n gweithio i bawb;
2. creu cymaint o gyfoeth â phosibl drwy gefnogi Buddsoddi Uniongyrchol o Dramor a Buddsoddi Uniongyrchol Allanol; a
3. darparu'r fframwaith masnachu rhyngwladol gorau i'r DU.

9.10 Bydd yr adran hon yn arwain uchelgais y DU ar gyfer creu perthnasau masnach a buddsoddi dyfnach â'r byd ehangach. Mae sawl gwlad gan gynnwys Tsieina, Brasil a gwledydd y Gwlff eisoes wedi mynegi diddordeb mewn ehangu eu perthynas fasnach â ni. Rydym wedi dechrau trafodaethau am gysylltiadau masnach yn y dyfodol â gwledydd fel Awstralia, Seland Newydd ac India. Mae gweinyddiaeth newydd yr Unol Daleithiau, economi fwyaf y byd,⁸⁰ wedi dweud bod ganddi ddiddordeb mewn llunio cytundeb masnach cynnar â'r DU.

9.11 Rydym hefyd yn ceisio sicrhau parhad yn ein perthynas fasnach a buddsoddi â thrydydd gwledydd, gan gynnwys y rheini sy'n dod o dan gytundebau masnach rydd neu drefniadau ffafriaeth presennol yr UE. Rydym yn trafod â'n partneriaid masnach sut i gyflawni hyn.

9.12 Er na allwn lunio cytundebau masnach newydd tan inni adael yr UE, mae llawer y gallwn ei wneud i baratoi a llawer y gallwn ei gyflawni nawr, gan barchu ein rhwymedigaethau fel aelodau o'r UE. Mae uned Masnach Ryngwladol a Buddsoddi yr Adran dros Fasnach Ryngwladol (Masnach a Buddsoddi'r DU gynt) yn rhoi mynediad, cymorth a chynghor i fusnesau'r DU, a hynny yn y DU a dramor, ac mae ganddi dros 2,700 o staff yn gweithio ar draws y DU ac mewn 108 o farchnadoedd tramor. Mae ein rhwydwaith byd-eang wedi'i leoli yn llysgenadaethau a swyddfeydd consylliaid y DU, gan alluogi staff yr Adran dros Fasnach Ryngwladol i rannu rhwydweithiau, dulliau o ddylanwadu ac adnoddau. Mae'r Adran yn gweithio ar y cyd hefyd â'r gweinyddiaethau datganoledig er mwyn helpu i hyrwyddo allforio o'r DU gyfan.

9.13 At hynny, gall y DU fraenaru'r tir ar gyfer gadael yr UE drwy gynnal trafodaethau â'n partneriaid masnach presennol yn yr UE, er mwyn sicrhau parhad a rhoi sicrwydd i fusnesau ar ôl inni adael, yn ogystal â sicrhau ein bod yn parhau i roi ffafriaeth i wledydd sy'n datblygu.

9.14 Bydd y DU hefyd yn cynnal Cyfarfod Gweinidogion Masnach y Gymanwlad ym mis Mawrth 2017, cyn cynnal Cyfarfod Penaethiaid Llywodraethau'r Gymanwlad yn 2018.

⁸⁰ 'Gross domestic product ranking 2015', Banc y Byd, Rhagfyr 2016.

Mae gan y Gymanwlad 52 o wledydd sy'n aelodau ohoni, gan gynnwys rhai o'r gwledydd sy'n tyfu gyflymaf yn y byd. Mae yn y gwledydd hyn dros 2 biliwn o bobl ac mae'n rhychwantu chwe chyfandir. Yn 2015, roedd gwerth masnach rhwng gwledydd y Gymanwlad yn bron i \$700 biliwn.⁸¹

9.15 Mae UK Export Finance (UKEF) yn rhoi ystod y gynhyrchion a chynngor i sicrhau nad yw unrhyw gynnyrch yn y DU sy'n hyfyw i'w allforio yn brin o gyllid neu yswiriant o'r sector preifat. Gall helpu allforwyr yn y DU i sicrhau cytundebau, i gyflawni rhwymedigaethau eu contractau, a chael eu talu. Mae UKEF wedi rhoi cyfanswm o £15 biliwn o gymorth i allforwyr yn y pum mlynedd ddiwethaf.⁸² Yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf yn unig, mae UKEF wedi cynorthwyo 279 o gwmnïau, ac roedd 77 y cant o'r rhain yn fusnesau bach neu ganolig eu maint. Mae'r nifer hwn yn codi i 7,000 wrth gynnwys y cwmnïau hynny yng nghadwyn gyflenwi allforion y DU a elwodd yn anuniongyrchol.⁸³

Aelodaeth o Sefydliad Masnach y Byd

9.16 Y DU yw un o'r aelodau a sefydlodd Sefydliad Masnach y Byd ac mae wedi bod yn aelod o'r Cytundeb Cyffredinol ar Dariffiau a Masnach ers 1948. Ein haelodaeth o Sefydliad Masnach y Byd fydd y sylfaen wrth inni ddatblygu ein perthnasau masnach yn y dyfodol. Mae'n rhoi hawliau i gael mynediad i farchnadoedd aelodau eraill, yn rhoi fframwaith ar gyfer gorfodi'r hawliau hynny, ac yn rhoi rheolau cyffredin ar gyfer masnachu ar draws aelodau'r Sefydliad, er mwyn i fusnesau allu deall a dibynnu ar y rhain.

9.17 Wrth adael yr UE, bydd angen i'r DU sefydlu ei threfniadau ei hun ar gyfer nwyddau a gwasanaethau â Sefydliad Masnach y Byd, gan roi sicrwydd i fusnesau'r DU ynghylch cael mynediad i farchnadoedd tramor o amgylch y byd, a chan roi sail glir hefyd i drafod cytundebau masnach newydd, nid yn unig â'r UE, ond â hen gyfeillion a chynghreiriaid newydd o'r tu allan i Ewrop yn ogystal.

9.18 Fel y dywedodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach Ryngwladol wrth y Senedd ar 5 Rhagfyr 2016, mae gwaith eisoes yn mynd rhagddo ar hyn. Ein nod yw sefydlu trefniadau mewn ffordd sy'n adlewyrchu, cyn belled â phosibl, ein sefyllfa bresennol fel Aelod-Wladwriaeth o'r UE, gan arwain at ganlyniad cydfuddiannol, syml a chynhwysol, fel bod modd gwarchod buddiannau'r DU ac aelodau eraill o Sefydliad Masnach y Byd.

9.19 Bydd y DU hefyd yn arddel y safbwynt a fu gennym ers tro byd o blaid masnach ac o blaid datblygu yn y sefydliadau a'r cyrff rhyngwladol perthnasol, fel y G7 a'r G20, y Cenhedloedd Unedig a'r OECD, a hynny gydag egni newydd.

⁸¹ 'Intra- Commonwealth Trade: Emerging Dynamics and Opportunities', Y Gymanwlad, 2015.

⁸² 'Performance Highlights 2015- 2016', UK Export Finance, Gorffennaf 2016.

⁸³ 'UK Export Finance Highlights 2015-16', UK Export Finance, Gorffennaf 2016.

10. Sicrhau mai'r Deyrnas Unedig o hyd yw'r lle gorau i wyddoniaeth ac arloesi

O archwilio'r gofod i ynni glân, o dechnolegau meddygol i dechnoleg amaeth, bydd y DU yn parhau ar flaen y gad yn y gwaith sy'n cael ei wneud ar y cyd i ddeall y byd yn well ac i'w wneud yn lle gwell i fyw ynddo. Byddwn yn ceisio sicrhau cytundeb i barhau i gydweithio â'n partneriaid Ewropeaidd ar fentrau gwyddoniaeth, ymchwil a thechnoleg mawr.

Gwyddoniaeth, ymchwil ac arloesi yn ganolog i'n Strategaeth Ddiwydiannol

10.1 Rhaid i'r DU, i fod yn fyd-eang, fod yn wlad sy'n edrych i'r dyfodol. Mae hyn yn golygu bod yn un o'r llefydd gorau yn y byd ar gyfer gwyddoniaeth ac arloesi, gan arwain ar gynhyrchion a gwasanaethau newydd a ffyrdd gwell o gynnal busnes, pethau sy'n hanfodol ar gyfer twf economaidd a sicrhau bod y DU yn gystadleuol yn y tymor hir.

10.2 Mae'r DU eisoes yn lleoliad o'r radd flaenaf ar gyfer gwyddoniaeth ac arloesi. Un o'n cryfderau mawr fel cenedl yw hyd a lled ein cymunedau academiaidd a gwyddonol, a hynny gyda chymorth rhai o brifysgolion gorau'r byd, gyda thri ohonynt ymhlith y 10 uchaf yn byd a 12 yn y 100 uchaf.⁸⁴ Mae pum prifysgol yn yr Alban yn unig yn y 200 uchaf. Mae Fforwm Economaidd y Byd yn disgrifio'r DU fel un o'r chwe gwlad orau yn y byd am gydweithio rhwng prifysgolion a diwydiant ym maes ymchwil a datblygu.⁸⁵ Yn 2016, roedd y DU hefyd yn drydydd yn y Mynegai Arloesi Byd-eang.⁸⁶

10.3 Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i ddatblygu'r maes gwyddonol yn y DU, maes sydd ar flaen y gad yn y byd – gan gynnwys mwy o enillwyr Gwobrau Nobel nag unrhyw wlad y tu allan i'r Unol Daleithiau⁸⁷ – ac mae'n awyddus i sicrhau bod y DU yn genedl sy'n denu gwyddonwyr, arloeswyr a'r rheini sy'n buddsoddi mewn technoleg.

10.4 Mae addewid y Llywodraeth hon i fuddsoddi mewn ymchwil ac arloesi yn anfon neges glir bod y DU wedi ymrwymo i ddiogelu cryfder y DU yn y maes gwyddoniaeth.

10.5 Roedd Datganiad yr Hydref yn cadarnhau ymrwymiad hirdymor y Llywodraeth i ymchwil ac arloesi, gan gynnwys drwy gynnydd sylweddol ym muddsoddiad y Llywodraeth,

⁸⁴ 'World University Rankings 2016-17', Times Higher Education, Medi 2016.

⁸⁵ 'The Global Competitiveness Report 2016-17', Fforwm Economaidd y Byd, Medi 2016.

⁸⁶ 'The Global Innovation Index 2016', Mynegai Arloesi'r Byd, Awst 2016.

⁸⁷ 'Nobel Laureates and Country of Birth', Gwobr Nobel, Ionawr 2017.

a fydd yn werth £2 biliwn yn ychwanegol y flwyddyn erbyn 2020/21.⁸⁸ Bydd Cronfa Her y Strategaeth Ddiwydiannol newydd a fydd yn cael yr arian hwn yn noddi technolegau sy'n flaenoriaeth fel roboteg a biodechnoleg, tra bo gan y DU y potensial i droi cryfder ym maes ymchwil yn ddiwydiant ac yn fasnach sy'n arwain yn fyd-eang.

10.6 Roedd *Building Our Industrial Strategy*, a gyhoeddwyd ar 23 Ionawr,⁸⁹ yn datblygu ar y cyhoeddiadau hyn. Roedd yn amlinellu cynlluniau i fanteisio ar gryfderau strategol y DU, ac i sicrhau ein bod yn gwneud mwy i fasnacheiddio'r syniadau a'r darganfyddiadau o'r radd flaenaf a wneir ym Mhrydain. Bydd hyn yn sicrhau bod y DU a'n cwmnïau ar flaen y gad wrth arloesi ac wrth ddatblygu cynhyrchion a gwasanaethau newydd sy'n rhoi sylw i heriau'r dyfodol.

Ymwneud yn agos â'r maes gwyddoniaeth ac ymchwil

10.7 Rydym yn ceisio barn cynrychiolwyr y sector yn helaeth er mwyn sicrhau ein bod yn pontio'n llyfn i drefniadau'r dyfodol. Er enghraifft, mae'r Llywodraeth wedi sefydlu Gweithgor Rhanddeiliaid Lefel Uchel ar Adael yr UE, Prifysgolion, Ymchwil ac Arloesi, a hwn yn cynnwys nifer o gynrychiolwyr o bwys o gyrff cyllido ymchwil ac arloesi yn y DU, sefydliadau addysg uwch, academaïau cenedlaethol, cymdeithasau dysgedig a busnesau. Bydd y grŵp yn gweithio â'r Llywodraeth i sicrhau bod y DU yn datblygu ar ei sylfaen fyd-eang gref wrth ragori mewn ymchwil ac arloesi.

10.8 Mae'r Llywodraeth hefyd wedi cymryd camau pendant a chyflym i ymateb i bryderon y sectorau gwyddoniaeth ac ymchwil, gan roi sicrwydd i'r rheini.

10.9 Er enghraifft, mae Trysorlys EM wedi cyhoeddi y dylai ymchwilwyr barhau i wneud ceisiadau am gyllid ymchwil cystadleuol yr UE, fel Horizon 2020, tra bo'r DU yn dal yn aelod o'r UE. Bydd y Llywodraeth yn gweithio â'r Comisiwn Ewropeaidd i sicrhau bod taliadau'n cael eu gwneud pan roddir cyllid, a bydd Trysorlys EM yn gwarantu taliadau o'r fath, hyd yn oed pan fydd prosiectau penodol yn parhau ar ôl i'r DU adael yr UE. Mae hyn wedi rhoi'r sicrwydd yr oedd ei angen ar y rheini sy'n gweithio yn y maes yn y DU, ac i'w partneriaid yn yr UE, gan eu galluogi i gynllunio at brosiectau a all barhau am nifer o flynyddoedd.

10.10 Mae'r gwarant y mae Trysorlys EM wedi'i roi wedi anfon neges glir i fusnesau a phrifysgolion y DU y dylent, a ninnau'n dal yn aelod o'r UE, barhau i wneud ceisiadau am gyllid cystadleuol o'r UE.

10.11 Mae'r Llywodraeth wedi rhoi rhagor o sicrwydd drwy gadarnhau y bydd myfyrwyr presennol yr UE a'r rheini sy'n dechrau cyrsiau yn 2016-17 a 2017-18 yn parhau i fod yn gymwys i gael benthyciadau myfyrwyr a statws ffioedd cartref dros gyfnod eu cwrs. Yn ddiweddar, ehangwyd y sicrwydd hwnnw i gynnwys cymorth i ôl-raddedigion drwy ysgoloriaethau'r Cyngor Ymchwil, a fydd yn parhau ar agor ar y sail bresennol i fyfyrwyr yr UE sy'n dechrau cyrsiau ym mlwyddyn academiaidd 2017-18. Bydd y cymorth ariannol ar gael dros gyfnod eu cwrs, hyd yn oed os bydd y cwrs yn dod i ben ar ôl i'r DU adael yr UE.

⁸⁸ 'Autumn Statement 2016', Llywodraeth EM, Tachwedd 2016.

⁸⁹ 'Building our Industrial Strategy', Llywodraeth EM, Ionawr 2017.

Arweinydd byd-eang wrth gydweithio'n rhyngwladol

10.12 Un o gryfderau mawr y DU yn y maes ymchwil yw cydweithio rhyngwladol: roedd 47.6 y cant o erthyglau'r DU yn 2012 wedi'u cyd-awduro'n rhyngwladol – cyfran sydd wedi bod yn cynyddu.⁹⁰ Er mai dim ond 3.2 y cant o wariant byd-eang ar ymchwil a datblygu sy'n cael ei wario yn y DU, mae'r DU yn gyfrifol am 6.4 y cant o erthyglau ac 15.9 y cant o'r erthyglau sy'n cael eu dyfynnu amlaf yn y byd.⁹¹ Allforiodd y DU hefyd dros £11 biliwn o eiddo deallusol yn 2015.⁹²

10.13 Mae gan y DU hanes balch o arwain a chefnogi ymchwil ac arloesi sydd ar flaen y gad yn yr UE. Rydym yn gyfrannwr amlwg at Horizon 2020, prif raglen gyllido'r UE ar gyfer cydweithio ar ymchwil ac arloesi. At hynny, mae'r DU wedi bod yn flaenllaw wrth ddatblygu prif raglenni gofod yr UE, sef Galileo a Copernicus, sydd wedi helpu'r sector gofod yn y DU i dyfu'n gyflym ac wedi cyfrannu'n uniongyrchol at ein ffyniant a'n diogelwch. Roedd y DU yn un o'r aelodau a sefydlodd yr Asiantaeth Ofod Ewropeaidd, gan ymrwymo i gyfrannu €1.4 biliwn ar gyfer ymchwil a datblygu o'r radd flaenaf dros y pedair blynedd nesaf. Mae'r DU hefyd wedi bod yn gyrru ymchwil Ewropeaidd a rhyngwladol ar ymasiad niwclear.

10.14 Wrth inni adael yr UE, byddwn yn croesawu cytundeb i barhau i gydweithio â'n partneriaid Ewropeaidd ar fentrau gwyddoniaeth, ymchwil a thechnoleg mawr.

⁹⁰ 'International Comparative Performance of the UK Research Base – 2013', Elsevier ar ran yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau, Hydref 2013.

⁹¹ 'International Comparative Performance of the UK Research Base – 2013', Elsevier ar ran yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau, Hydref 2013.

⁹² 'ONS Pink Book 2016', Gorffennaf 2016.

11. Cydweithio yn y frwydr yn erbyn troseddu a therfysgaeth

Byddwn yn parhau i weithio â'r UE i gadw'r DU ac Ewrop yn ddiogel, ac i frwydro yn erbyn terfysgaeth a chynnal cyfiawnder yn Ewrop.

11.1 Diogelwch y cyhoedd yn y DU yw prif flaenoriaeth y Llywodraeth. Mae'r DU wastad wedi bod, a bydd yn parhau i fod, yn amlwg iawn yn fyd-eang yn y frwydr yn erbyn bygythiadau i ddiogelwch. Wrth i'r bygythiad esblygu o hyd, rhaid inni ymateb drwy weithio'n agosach â'n partneriaid, gan gynnwys yr UE a'i Aelod-Wladwriaethau, gan rannu gwybodaeth a chefnogi ein gilydd i fynd i'r afael â bygythiadau'r rheini sy'n dymuno ein niweidio. Rydym yn parhau i gydweithio'n agos â'n partneriaid Ewropeaidd ar faterion tramor ac yn rhoi cefnogaeth gref i fynd i'r afael â bygythiad terfysgaeth. Mae'r cydweithio hwn wedi dwysau eisoes yn sgil yr ymosodiadau diweddar ym Mharis, Brwsel a Berlin. Er ein budd ni oll, dylem barhau i gydweithio'n hynod o agos â'r UE a'i Aelod-Wladwriaethau er mwyn mynd i'r afael â'r bygythiadau hyn ar y cyd.

11.2 Mae'r berthynas ddiogelwch sydd eisoes yn bodoli rhyngom a'r UE a'i Aelod-Wladwriaethau yn golygu ein bod mewn sefyllfa unigryw i ddatblygu a chynnal model cydfuddiannol ar gyfer cydweithio yn y maes hwn, er y byddwn y tu allan i'r Undeb. Rydym yn dechrau o fan cychwyn lle mae gennym berthynas gref ag Aelod-Wladwriaethau'r UE, ac yn wlad sydd wedi bod yn flaenllaw wrth ddatblygu nifer o gamau yn yr UE sy'n annog cydweithio ar draws y cyfandir i ddiogelu ein dinasyddion a'n ffordd o fyw:

- y DU yw un o'r cyfranwyr mwyaf at systemau Europol, gan gefnogi heddluoedd ar draws y DU ac Ewrop yn y frwydr yn erbyn troseddu ar draws ffiniau;
- mae'r DU ar hyn o bryd yn rhan o bob un o'r 13 o brosiectau sy'n flaenoriaethau gweithredol i Europol. Rydym yn llywio, neu'n cyd-lywio, bron i hanner prosiectau Europol yn erbyn troseddu cyfundrefnol difrifol;⁹³
- rhwng 2004 a 2015, estraddodwyd dros 8,000 o unigolyn gennym, a oedd wedi'u cyhuddo neu wedi cael euogfarn droseddol, i wledydd eraill yr UE gan ddefnyddio'r Warant Arestio Ewropeaidd;⁹⁴
- mae System Wybodaeth Schengen II yn system rybuddio drwy Ewrop gyfan sy'n rhoi rhybuddion am droseddwyr sydd ar ffo neu o dan amheuaeth. Rhwng mis Ebrill 2015 a mis Ebrill 2016, daeth dros 6,400 o rybuddion tramor i sylw'r awdurdodau yn y DU, gan alluogi asiantaethau gorfodi'r DU i gymryd camau priodol, tra daeth dros 6,600 o rybuddion a roddwyd yn y DU i sylw awdurdodau ar draws Ewrop;⁹⁵

⁹³ Yr Asiantaeth Troseddu Genedlaethol.

⁹⁴ 'Historical European Arrest Warrants statistics 2004 – May 2016', Yr Asiantaeth Troseddu Genedlaethol, Mehefin 2016.

⁹⁵ 'SIS II Management Information', Yr Asiantaeth Troseddu Genedlaethol, 2016.

- mae'r DU wedi bod yn un o gefnogwyr amlycaf rheolau newydd Cofnodion Enwau Teithwyr yr UE, sy'n golygu y bydd gwybodaeth yn cael ei chasglu cyn hir ym mhob Aelod Wladwriaeth gan ei gwneud yn fwy anodd i droseddwyr cyfundrefnol a therfysgwyr guddio eu symudiadau; a
- y DU yw'r pedwerydd defnyddiwr mwyaf o System Gwybodaeth Cofnodion Troseddol Ewrop (ECRIS). Yn 2015/16, cafodd mwyafrif y 155,000 o geisiadau a wnaed i wledydd yr UE am wybodaeth am euogfarnau troseddol dramor eu gwneud drwy ECRIS. Mae Aelod-Wladwriaethau'r UE hefyd yn elwa o gael rhybuddion am eu gwladolion sydd wedi cael euogfarn yn y DU, gyda'r mwyafrif helaeth o'r 46,000 o rybuddion yn cael eu gwneud drwy ECRIS.⁹⁶

11.3 Ers y refferendwm rydym wedi parhau i gydweithio â'n partneriaid Ewropeaidd a bydd y DU yn parhau i gyfrannu'n llawn at y camau y mae'r UE yn eu cymryd ym maes diogelwch a chyfiawnder troseddol tra byddwn yn aelod o'r UE.

11.4 Mae partneriaid Ewropeaidd pwysig wedi datgan yn glir eu bod yn bwriadu parhau i gydweithio ar faterion diogelwch, ac yn wir, yn bwriadu gwneud mwy o hynny, gan gydnabod arbenigedd y DU yn y frwydr yn erbyn terfysgaeth, yn enwedig yn sgil yr ymosodiadau diweddar a bygythiad ymladdwyr terfysgol o dramor.

11.5 Ni fydd ein hymrwymiad i gydweithio â'n cynghreiriaid Ewropeaidd a byd-eang ar faterion diogelwch seiber yn pylu a byddwn yn parhau i weithio'n agos â'n partneriaid rhyngwladol i ddatblygu capasiti i ymateb i fygythiadau seiber ac i sicrhau bod y seiberofod yn parhau i fod yn lle rhydd, agored, heddychlon a diogel.

11.6 Yn yr un modd, mae troseddau difrifol a chyfundrefnol yn fygythiad rhyngwladol, ac mae angen ymateb ar draws ffiniau iddo. Mae gan y DU record wych wrth fynd i'r afael â throseddau difrifol a chyfundrefnol, ond nid yw hyn ynddo'i hun yn ddigon; os ydym am leihau bygythiad troseddau difrifol a chyfundrefnol rhaid inni barhau i gydweithio â'n partneriaid Ewropeaidd.

11.7 Wrth inni adael, byddwn felly yn ceisio trafod y cytundeb gorau posibl â'r UE i gydweithio yn y frwydr yn erbyn troseddau a therfysgaeth. Byddwn yn ceisio creu perthynas gref ac agos â'r UE yn y dyfodol, gan ganolbwyntio ar gydweithio gweithredol ac ymarferol ar draws ffiniau. Byddwn yn ceisio creu perthynas sy'n gallu ymateb i'r bygythiadau newydd yr ydym yn eu hwynebu ar y cyd. Bydd diogelwch y cyhoedd yn y DU a gweddill Ewrop yn ganolog i'r rhan hon o'r trafodaethau.

Y DU yn y byd

11.8 Yn ehangach, bydd y DU yn parhau i fod yn un o'r gwledydd pwysicaf yn fyd-eang wrth drafod materion rhyngwladol. Ynghyd â Ffrainc, ni yw unig Aelod-Wladwriaeth arall yr UE sydd ag arfau niwclear ataliol a sedd barhaol ar Gyngor Diogelwch y Cenhedloedd Unedig. Ni yw un o bedair gwlad Ewropeaidd yn unig sy'n gwario dau y cant o'n Cynnyrch Domestig Gros ar amddiffyn, yn unol ag argymhelliad NATO.⁹⁷ Ni yw un o ychydig o wledydd y G20 sydd wedi addo ac wedi gwario 0.7 y cant o Incwm Gwladol Crynswth ar gymorth tramor.⁹⁸ Byddwn yn parhau i fod yn flaenllaw yn hyn o beth, gan weithio â phartneriaid Ewropeaidd a phartneriaid rhyngwladol eraill i fynd i'r afael yn fyd-eang â heriau mawr, gan gynnwys newid yn yr hinsawdd.

⁹⁶ 'ACRO Criminal Records Office Annual Report 2015-2016', Swyddfa Cofnodion Troseddol ACRO, 2016.

⁹⁷ 'Defence Expenditures of NATO Countries', NATO, Gorffennaf 2016.

⁹⁸ 'Official Development Assistance 2015', OECD, 2016.

11.9 Rydym am ddefnyddio'r camau y gallwn eu cymryd a'n sefyllfa freintiedig yn y byd rhyngwladol i barhau i weithio â'r UE ar ddiogelwch ein polisi tramor a materion amddiffyn. Boed hynny'n rhoi ar waith y sancsiynau yn erbyn Rwsia ar ôl yr hyn a wnaeth yn yr Wcrain, yn gweithio i sicrhau heddwch a sefydlogrwydd yn y Balcanau, neu'n diogelu ffin allanol Ewrop, byddwn yn parhau i fod yn flaenllaw ochr yn ochr â'n partneriaid yn yr UE wrth atgyfnerthu a hyrwyddo diogelwch Ewrop a dylanwad Ewrop o amgylch y byd. Y nod yw ehangu ein perthnasau dwyochrog cryf â'n partneriaid Ewropeaidd a'r tu hwnt, gan sicrhau bod y DU yn genedl wirioneddol fyd-eang ar lwyfan y byd.

Diogelwch Ewropeaidd

11.10 Roedd strategaeth diogelwch cenedlaethol y Llywodraeth yn sefydlu amcanion clir ar gyfer diogelwch cenedlaethol. Amlinellodd yr Adolygiad Strategol o Amddiffyn a Diogelwch yn 2015 (SDSR) gynllun wedi'i ariannu i gyflawni'r amcanion hyn, ac rydym bellach yn canolbwyntio ar roi'r cynllun ar waith.

11.11 Rydym yn cyfrannu at weithredoedd ac ymgyrchoedd y Polisi Diogelwch ac Amddiffyn Cyffredin (CSDP) ar draws y byd. Ein nod yw sicrhau bod rôl yr UE yn y maes amddiffyn a diogelwch yn cyd-fynd â rôl ganolog NATO, ac yn parchu'r rôl honno. Wrth inni adael yr UE, byddwn yn parhau'n ymrwymedig i ddiogelwch Ewropeaidd ac yn ychwanegu gwerth at bolisi tramor a diogelwch yr UE.

11.12 Rydym yn cyfrannu at weithredoedd ac ymgyrchoedd y Polisi Diogelwch ac Amddiffyn Cyffredin (CSDP) ar draws y byd. Mae'r ymgyrchoedd a gafodd flaenoriaeth wedi cael sawl llwyddiant nodedig. Mae'r ymgyrch ATALANTA wedi mynd i'r afael yn llwyddiannus â môr-ladrata oddi ar Horn Affrica – mae'r ymgyrch hon yn cael ei rheoli o'r DU ac rydym wedi ei chefnogi ers iddi ddechrau yn 2008. Ers 2004 mae ymgyrch ALTHEA wedi gwneud cyfraniad gwerthfawr at sefydlogrwydd yn Bosnia. Ym Môr y Canoldir, gan weithio â'r UE fel rhan o ymgyrch SOPHIA, mae'r DU wedi helpu i achub 10,200 o fywydau, wedi dinistrio 124 o gychod smyglo ac wedi dal 20 o smyglwyr dan amheuaeth. Mae'r ymgyrch hon yn rhan bwysig o strategaeth mudo ehangach yr UE a'r DU.

11.13 Mae ein cyfraniad at ymgyrchoedd sifil wedi helpu i gael gwell sefydlogrwydd yn Ewrop, ac yn arbennig yn Kosovo, Georgia a'r Wcrain. Ymhellach i ffwrdd, rydym yn cyfrannu at ymdrechion i gael gwell sefydlogrwydd yn Lybia, Tiriogaethau Palestina a Feddiannwyd, a Somalia.

11.14 Dyma rai enghreifftiau nodedig o'n cyfraniad at ymgyrchoedd sifil y CSDP:

- Ymgyrch Gynorthwyol yr UE yn yr Wcrain: Cyd-noddodd y DU lansiad yr ymgyrch hon yn 2014, gyda'r pwyslais ar ddiwygio'r sector diogelwch. Mae cyfraniad gan yr UE wedi helpu i sefydlu dull cydlynol o ymwneud ag awdurdodau'r Wcrain a chyrrff pwysig yno. Mae'r ymgyrch yn elfen bwysig wrth ymateb yn ehangach i agwedd ymosodol Rwsia, ochr yn ochr â sancsiynau, ein cymorth milwrol dwyochrog a sicrwydd NATO;
- Ymgyrch Rheol Gyfreithiol yr UE yn Kosovo: mae Barnwyr, Erlynwyr ac arbenigwyr ar yr heddlu o'r DU wedi cryfhau rheol gyfreithiol a gallu awdurdodau Kosovo; ac
- Ymgyrch Blismona'r UE yn Afghanistan: mae cyfraniad gan y DU wedi helpu'r ymgyrch i greu heddlu mwy proffesiynol yn Afghanistan cyn i'r ymgyrch gau yn 2016.

Gadael yr UE, ond nid Ewrop

11.15 Er ein bod yn gadael yr UE, bydd y DU yn parhau i fod yn flaenllaw ym maes polisi tramor a diogelwch byd-eang.

11.16 Mae gan y DU rôl flaenllaw ym mhresenoldeb amlycach NATO yn Estonia a Gwlad Pwyl. Rydym yn darparu Bataliwn Fframwaith o tua 800 o bersonél milwrol yn Estonia, drwy filwyr traed arfog sydd â cherbydau ymladd arfog Warrior, a llu o'n Prif Danciau Brwydr Challenger 2. Rydym hefyd yn anfon sgwadron archwilio o tua 150 personél milwrol i Wlad Pwyl.

11.17 Mae'r DU hefyd yn flaenllaw yn Llu Ymateb NATO (NRF) – llu rhyngwladol hynod o barod a datblygedig yn dechnolegol, yn cynnwys Lluedd Gweithrediadau Arbennig tir, awyr a môr y gall y Gynghrair eu defnyddio yn gyflym pryd bynnag y bydd galw. At hynny, gellir defnyddio'r NRF i gydweithio'n well ym maes addysg a hyfforddiant, wrth wneud mwy o ymarferion ac i ddefnyddio technoleg yn well.

11.18 Byddwn hefyd yn cyfrannu at ymgyrch Plismona Awyr y De NATO yr haf hwn yn Romania, drwy ddarparu awyrennau Typhoon. Mae'r Typhoon yn rhoi ffordd gredadwy o amddiffyn yr awyr law yn llaw ag awyrennau amddiffyn Romania.

11.19 Byddwn yn parhau'n bŵer byd-eang, a byddwn yn parhau i gydweithio â'n partneriaid Ewropeaidd i fynd i'r afael â'r heriau sy'n ein hwynebu ar y cyd.

12. Gadael yr UE mewn ffordd ddiffwdan a threfnus

Bydd gadael mewn ffordd ddiffwdan sydd o fudd i bawb yn gofyn am weithio'n gydlynol a threfnus ar y naill ochr a'r llall. Rydym am osgoi camu dros ochr dibyn mewn ffordd sy'n amharu ar bethau, a dylem ystyried cyflwyno unrhyw drefniadau newydd yn raddol wrth i'r DU a'r UE symud tuag at greu partneriaeth newydd.

12.1 Byddwn yn cychwyn y broses o adael yr UE yn ffurfiol drwy roi ar waith Erthygl 50 o'r Cytuniad ar yr Undeb Ewropeaidd erbyn diwedd mis Mawrth eleni fan hwyrach. Fel y nodir yn Erthygl 50, bydd y Cytuniadau ar yr UE yn peidio â bod yn berthnasol i'r DU pan ddaw'r cytundeb gadael i rym, neu fel arall, ddwy flynedd ar ôl cyflwyno'n hysbysiad, oni cheir cytundeb unfrydol â'r 27 Aelod-Wladwriaeth arall i ymestyn y broses.

12.2 Nid yw o fudd i neb, fodd bynnag, i fusnesau wynebu ochr dibyn na bygythiad i sefydlogrwydd wrth inni symud o'n perthynas bresennol i bartneriaeth newydd â'r UE. Yn hytrach, rydym yn awyddus i sicrhau cytundeb ynghylch ein partneriaeth yn y dyfodol erbyn y bydd proses ddwy flynedd Erthygl 50 wedi'i chwblhau. O hynny allan, credwn y byddai proses raddol o roi pethau ar waith, wrth i'r DU, sefydliadau'r UE ac Aelod-Wladwriaethau baratoi at y trefniadau newydd, o fudd i bawb. Bydd hyn yn rhoi digon o amser i fusnesau ac unigolion gynllunio a pharatoi at weithredu'r trefniadau newydd hynny. Efallai y bydd hyn yng nghyd-destun rheoli mewnffurf, systemau tollau neu'r ffordd rydym yn cydweithio ar faterion cyfiawnder troseddol a sifil. Neu efallai y bydd yng nghyd-destun y fframwaith cyfreithiol a rheoleiddiol yn y dyfodol i fusnesau. Ym mhob maes, efallai y bydd angen amserlen wahanol ar gyfer cyflwyno'r trefniadau newydd yn raddol; gallai rhai gael eu cyflwyno'n gyflym iawn, gallai fod angen mwy o amser i gyflwyno rhai eraill. Ac mae'n debygol y bydd angen trafod y trefniadau dros dro y byddwn yn dibynnu arnynt. Ni fydd y DU, fodd bynnag, yn ceisio rhyw ffurf ar statws pontio heb derfyn iddo. Ni fyddai hynny'n llesol i'r DU nac i'r UE.

12.3 Rydym yn hyderus y gall y DU a'r UE lunio cytundeb cadarnhaol ar gyfer y bartneriaeth yn y dyfodol, gan y byddai hyn o fudd i'r DU ac i'r UE ill dau, a byddwn yn cychwyn y trafodaethau yn yr ysbryd hwn. Fodd bynnag, mae'r Llywodraeth yn bendant y bydd dim cytundeb i'r DU yn well na chytundeb gwael i'r DU. Os digwydd hynny, byddwn yn sicrhau y gall ein systemau economaidd a'n systemau eraill barhau, gan gynnwys drwy basio deddfwriaeth yn ôl y galw i liniaru ar effaith methu â chael cytundeb.

Casgliad

Mae'r Llywodraeth wedi bod yn glir y byddwn yn anrhydeddu'r dewis a wnaeth pobl y DU ar 23 Mehefin 2016: bydd y DU yn gadael yr UE. Byddwn yn ceisio creu perthynas uchelgeisiol yn y dyfodol â'r UE sy'n gweithio i bawb yn y DU ac sy'n galluogi'r DU i gyflawni ei dyhead i fod yn DU wirioneddol fyd-eang.

Ar 23 Mehefin 2016, pleidleisiodd pobl y DU i adael yr UE. Bydd y Llywodraeth hon yn gweithredu'r ewyllys hwnnw. Rydym yn hyderus y gall y DU gael dyfodol llwyddiannus ac annibynnol y tu allan i'r UE, a hynny'n gweithio i bawb yn y DU, waeth sut y pleidleisiodd pobl yn y refferendwm. Wrth geisio creu dyfodol o'r fath, byddwn yn ceisio rhoi sylw i fuddiannau penodol yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon, yn ogystal â buddiannau pob rhan o Loegr.

Ni fydd y Llywodraeth hon yn gwneud unrhyw ymdrech i aros yn yr UE drwy'r drws cefn, ac ni fyddwn chwaith yn cynnal ail refferendwm ar ein haelodaeth. Yn hytrach, bydd y bartneriaeth strategol rydym yn chwilio amdani yn sail i fasnach rydd rhwng y DU a'r UE, gan gydnabod yr integreiddio a'r cydgordio dwfn sydd wedi dod yn sgil bod yn aelod o'r UE. Bydd y bartneriaeth strategol hefyd yn ceisio sicrhau'r cydweithio agosaf posibl ar faterion pwysig fel diogelwch, polisi tramor a gwyddoniaeth a thechnoleg – fel y dangoswyd yn y Papur Gwyn hwn.

Byddwn yn anrhydeddu hanes a diwylliant rhyngwladol balch y DU drwy greu Teyrnas Unedig sy'n wirioneddol fyd-eang. A byddwn yn defnyddio'r newid hanesyddol hwn i greu economi gryfach a chymdeithas decach drwy roi ar waith ddiwygio economaidd a chymdeithasol gwirioneddol.

Mae'n dal i fod o fudd cenedlaethol llwyr i'r DU bod yr UE yn llwyddo. Nid oedd ein pleidlais i adael yr UE yn golygu gwrthod y gwerthoedd a rannwn. Nid oedd y penderfyniad i adael yr UE yn adlewyrchiad o ddyhead i fod ymhellach oddi wrth ein cyfeillion a'n cymdogion yn yr UE. Nid oedd yn ymgais i niweidio'r UE ei hun nac unrhyw un o'i Aelod-Wladwriaethau eraill. Yn hytrach, pleidlais i adfer ein democratiaeth seneddol ein hunain oedd hi, i adfer ein hunanlywodraeth genedlaethol, ac i ddod yn wlad fwy byd-eang a rhyngwladol hyd yn oed yn ein gweithredoedd a'n hysbryd. Yn sicr nid ydym am droi'r cloc yn ôl i gyfnod pan oedd Ewrop yn llai heddychlon, yn llai diogel ac yn methu â masnachu mor rhydd.

Byddwn felly yn parhau i fod yn bartneriaid dibynadwy, yn gynghreiriaid brwd ac yn gyfeillion agos. Rydym yn awyddus i barhau i fasnachu â'r UE mewn ffordd mor rhydd â phosibl, ac i barhau i gydweithio er mwyn cadw'n gwledydd a'n dinasyddion yn ddiogel. Rydym am barhau i hyrwyddo'r gwerthoedd y mae'r DU a'r UE yn eu rhannu – parch i hawliau ac urddas dynol, democratiaeth a rheol gyfreithiol yn Ewrop ac yn y byd yn ehangach. Rydym hefyd yn awyddus i barhau i gefnogi llais Ewropeaidd cryf ar lwyfan y byd, ac i barhau i annog teithio rhwng y DU a'r UE. Bydd yr UE yn parhau i fod, i lawer o'i Aelod-Wladwriaethau, yn rym pwysig i newid a diwygio pethau'n gadarnhaol.

A bydd y bartneriaeth gref hon rhwng y DU sofran ac UE ffyniannus yn ganolog i greu Teyrnas Unedig fyd-eang newydd: un a fydd yn camu o'r cyfnod hwn o newid yn gryfach, yn decach, yn fwy unedig ac yn edrych tuag allan fwy nag erioed o'r blaen. Bydd hi'n Deyrnas Unedig ddiogel, ffyniannus a goddefgar – yn denu talent ryngwladol ac yn gartref i'r arloeswyr a fydd yn siapio'r byd sydd o'n blaenau. Bydd hi'n Deyrnas Unedig wirioneddol fyd-eang – yn gyfaill gorau ac yn gymydog i'n partneriaid Ewropeaidd, ond yn wlad sy'n edrych y tu hwnt i ffiniau Ewrop hefyd. Gwlad sy'n camu allan i'r byd i greu perthynas â hen gyfeillion a chynghreiriaid newydd fel ei gilydd.

Atodiad A - Enghreifftiau o ddulliau ar gyfer datrys anghydfodau

A.1 Mae darpariaeth ar gyfer dehongli a datrys anghydfodau sy'n deillio o gytundebau rhyngwladol yn gyffredin. Mae'r darpariaethau hyn yn amrywio yn eu natur. Mae'r Atodiad hwn yn rhoi nifer o enghreifftiau sy'n dangos sut y mae cytundebau rhyngwladol eraill yn mynd at i ddehongli a datrys anghydfodau. Wrth gwrs, dim ond enghreifftiau o arferion presennol a geir yma – bydd y dull mwyaf addas ar gyfer y cytundeb a fydd yn sail i'r berthynas yn y dyfodol rhwng yr UE a'r DU yn fater i'w drafod.

Cytundeb Cyfun yr UE a Chanada ar yr Economi a Masnach (CETA)

A.2 Mae CETA yn gytundeb eang sy'n cynnwys cael gwared ar dariffiau mewn nifer o feysydd, rhoi mynediad gwell i farchnadoedd gwasanaethau, a darpariaethau i gwmnïau wneud ceisiadau am gontractau cyhoeddus. Mae'r cytundeb yn sefydlu 'Cyd-bwyllgor CETA' sy'n delio â chwestiynau am fasnach a buddsoddi a rhai am weithredu a defnyddio'r Cytundeb. Bydd gan y Cyd-bwyllgor, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r UE a Chanada, y pŵer i ddehongli darpariaethau CETA mewn ffordd sy'n rhwymo tribiwnlysoedd, gan wneud ei benderfyniadau drwy gydsynio ar y cyd.

A.3 Mae CETA yn darparu ar gyfer gwahanol ddulliau o ddatrys anghydfodau gan ddibynnu ar bwy yw'r partïon dan sylw neu bwnc yr anghydfod. Mae Pennod 29 o CETA yn cynnwys darpariaethau i ddatrys anghydfodau rhwng Partïon y Cytundeb.⁹⁹ Yn gyntaf, mae'r rhain i'w datrys drwy ymgynghori a chyfryngu gwirfoddol. Os bydd hyn yn methu, gellir cyfeirio'r anghydfod at banel cymrodeddu, a bydd penderfyniad y panel hwnnw'n derfynol. Mae'r Partïon i gytuno rhyngddynt ar gyfansoddiad y panel cymrodeddu. Os na all y Partïon gytuno ar union gyfansoddiad y panel, caiff rhestr sydd wedi'i chytuno ymlaen llaw o bymtheg cymrodeddwr fan lleiaf (pump yn wladolion Canada, pump yn wladolion o'r UE a phump yn wladolion o drydydd gwledydd) eu defnyddio i ddethol panel a fydd yn cynnwys un gwladolyn o wlad yn yr UE, un gwladolyn o Ganada ac un gwladolyn o drydydd gwlad a fydd yn cadeirio'r panel.

⁹⁹ Mae CETA yn galluogi partïon i ddefnyddio naill ai'r weithdrefn arbennig i ddatrys anghydfod a ddarperir o dan CETA, neu weithdrefnau datrys anghydfod Sefydliad Masnach y Byd, ond dim ond y naill neu'r llall. Mae rhai Penodau o CETA hefyd yn deillio o'r dull o ddatrys anghydfodau – gweler er enghraifft Pennod 3 ar Unioni Masnach neu Bennod 17 ar Bolisi Cystadleuaeth.

A.4 Pan sefydlir panel a phan fydd hwnnw i ystyried yr anghydfod, dylai geisio cytuno ar ei ganfyddiadau, ei benderfyniadau a'i argymhellion drwy gonsensws, ond os nad yw'n gwneud hynny, gellir gwneud penderfyniadau o'r fath drwy fwyafrif.¹⁰⁰

A.5 Bydd y panel cymrodeddu wedyn yn cyflwyno adroddiad interim cyfrinachol. Dylai'r adroddiad interim gynnwys y canfyddiadau o'r ffeithiau a'r penderfyniadau ynghylch a fu unrhyw achos o fynd yn groes i CETA. Gall y Partïon wedyn gyflwyno sylwadau ysgrifenedig ar yr adroddiad interim i'r panel. Bryd hynny, gall y panel benderfynu ailystyried ei adroddiad, edrych ar y materion drachefn, neu lynu wrth ei ganfyddiadau.

A.6 Bydd y panel wedyn yn cyhoeddi ei adroddiad terfynol i Gyd-bwyllgor CETA ac i'r Partïon. Mae adroddiad y panel yn derfynol. Bydd gan y Parti sy'n ymateb wedyn 20 diwrnod i roi gwybod i'r Parti arall a Chyd-bwyllgor CETA ynghylch ei fwriadau o ran cydymffurfio.

A.7 Os bydd y 'Parti' sy'n colli yn methu â chydymffurfio, yna bydd hawl gan y Parti sydd wedi 'ennill' naill ai i atal y rhwymedigaethau dros dro neu i gael iawndal. Ni ellir atal y rhwymedigaethau hyd at lefel y dirymiad a'r niwed a achoswyd drwy fynd yn groes i CETA yn wreiddiol, ac os bydd y partïon yn anghytuno ynghylch hyn, gellir cyfeirio'r mater at banel cymrodeddu. Camau dros dro yn unig yw'r camau unioni hyn, ac maent i ddod i ben pan fydd y Parti a gollodd yn cymryd y camau angenrheidiol i gydymffurfio ag adroddiad terfynol y panel.

A.8 Mae Pennod 8 o CETA hefyd yn gwneud darpariaeth ar gyfer setlo anghydfodau ynghylch buddsoddi o dan y Cytundeb. Mae Pennod 8 yn gwarchod buddsoddwyr a 'buddsoddiadau sydd wedi'u sicrhau' mewn nifer o ffyrdd, gan roi sylw i faterion fel iawndal am golledion, difeddiannu eiddo a thriniaeth genedlaethol (h.y. heb wahaniaethu). Os bydd anghydfod, gwneir trefniadau i'r partïon ymgynghori a threfniadau ar gyfer cymrodeddu os bydd galw. Os na cheir ateb sy'n foddhaol i'r naill ochr a'r llall, gellir cyfeirio'r mater at dribiwnlys cymrodeddu a sefydlir o dan Bennod 8. O dan CETA, bydd 15 o aelodau'n cael eu penodi i'r tribiwnlys yn wreiddiol: pump o wladolion Canada, pump o wladolion o'r UE, a phump o wladolion o drydydd gwledydd. Bydd y tribiwnlys yn eistedd mewn paneli o dri (gydag un o Ganada, un o'r UE ac un o wlad arall). Sefydlir Tribiwnlys Apeliadau hefyd sy'n gallu adolygu penderfyniadau'r tribiwnlysoedd. Gall y Tribiwnlys Apeliadau addasu neu wrthdroi penderfyniadau'r Tribiwnlys pan fydd, er enghraifft, y tribiwnlys wedi gwneud camgymeriad wrth ddefnyddio neu ddehongli'r gyfraith neu gamgymeriad amlwg wrth ddelio â'r ffeithiau. Gall penderfyniadau arwain at iawndal ariannol (ond nid rhai cosbol) neu at ddychwelyd eiddo.

A.9 Ceir dulliau eraill ar gyfer datrys anghydfodau sy'n berthnasol i benodau arbennig, sef anghydfodau o dan Bennod 23 (masnach a llafur) a Phennod 24 (masnach a'r amgylchedd).

Trefniadau dwyochrog yr UE a'r Swistir

A.10 Ceir nifer fawr o gytundebau dwyochrog sy'n llywodraethu'r berthynas rhwng yr UE a'r Swistir ar yr economi a masnach.

A.11 Mae pob cytundeb yn defnyddio elfennau gwahanol o gyfraith yr UE mewn perthynas â'r Swistir. Mae rhai, fel y cytundeb i alluogi pobl i symud yn rhydd, yn defnyddio darnau helaeth o gyfraith yr UE. Nid yw rhai eraill, fel y cytundeb ar fasnach rydd er enghraifft, yn gwneud hynny.

¹⁰⁰ Atodiad 29-A, Y Cytundeb Cyfun rhwng yr Undeb Ewropeaidd a Chanada ar yr Economi a Masnach (CETA 2016).

A.12 Mae pob un o'r prif gytundebau yn sefydlu ei 'gyd-bwyllgor' ei hun. Fel yn achos CETA, mae'r cyd-bwyllgorau hyn yn cynnwys cynrychiolwyr o'r UE a'r Swistir. Ym mhob achos, mae ganddynt gyfrifoldeb i reoli'r cytundeb, gan sicrhau ei fod yn cael ei roi ar waith yn gywir, ac i gymryd unrhyw gamau angenrheidiol i wneud yr addasiadau neu'r newidiadau a ddarperir ar eu cyfer yn y cytundeb ei hun.

A.13 Mae'r holl gytundebau dwyochrog yn gytuniadau, ac felly maent yn ymrwymo'n derfynol o dan gyfraith ryngwladol. Os na ellir datrys anghydfodau o dan y prif gytundebau drwy'r cyd-bwyllgor perthnasol, yn y pen draw, ac fel rheol, bydd y cytundeb yn dod i ben. Mae cysylltiad rhwng rhai o'r cytundebau, felly os bydd un yn dod i ben, bydd rhai eraill yn dod i ben hefyd. Gydag ambell eithriad, fel rheol, nid oes modd cyfeirio mater at lys neu at dribiwnlys.

Cytundeb Masnach Rydd Gogledd America ('NAFTA')

A.14 Mae gan NAFTA reolau pendant ar gyfer datrys anghydfodau. Mae'r dulliau hyn yn cynnwys datrys anghydfodau am fuddsoddi (Pennod 11), adolygu penderfyniadau ynghylch dympio a dyletswyddau gwrthbwysol (Pennod 19) a'r brif weithdrefn ar gyfer datrys anghydfodau (Pennod 20). O dan Bennod 20, yn gyntaf, bydd y llywodraethau dan sylw yn ceisio datrys unrhyw anghydfodau posibl mewn ffordd gyfeillgar drwy Bwyllgorau a Gweithgorau NAFTA neu drwy ymgynghori mewn ffyrdd eraill. Os nad yw'n bosibl canfod ateb sy'n dderbyniol i'r naill ochr a'r llall, yna mae NAFTA yn darparu ar gyfer gweithdrefnau panel cyflym ac effeithiol. Mae gweithdrefnau arbennig ar gael ar gyfer materion fel buddsoddi, gwasanaethau ariannol ac adolygu penderfyniadau ynghylch dympio a dyletswyddau gwrthbwysol.

Mercosur

A.15 O dan y cytuniadau a sefydlodd Mercosur, rhaid datrys anghydfodau yn gyntaf drwy gynnal trafodaethau uniongyrchol. Os na cheir cytundeb yn ystod y trafodaethau uniongyrchol, neu os dim ond yn rhannol y caiff yr anghydfod ei ddatrys, gall y partïon (os yw'r ddwy ochr yn cytuno) gyflwyno'r anghydfod i'r Grŵp y Farchnad Gyffredin (cynrychiolwyr gwleidyddol yr aelod-wladwriaethau) a fydd yn gwneud argymhelliad. Fel arall, gall y partïon gyflwyno'r anghydfod i dribiwnlys cymrodeddu ad hoc. Gellir apelio yn erbyn penderfyniadau'r tribiwnlys ad hoc ynghylch pwynt cyfreithiol i Dribiwnlys Adolygu Parhaol, a gall hwn wneud penderfyniad drwy gytundeb y mwyafrif. Mae penderfyniadau'r Tribiwnlys Adolygu Parhaol yn derfynol ac yn rhwymo'r Partïon. Mae dull ar gael hefyd o gyfeirio anghydfodau yn uniongyrchol i'r Tribiwnlys Adolygu Parhaol, os bydd y ddwy ochr yn cytuno.

Cytundeb Masnach Rydd Seland Newydd a Korea

A.16 Mae Cytundeb Masnach Rydd Seland Newydd a Korea yn darparu dull ar gyfer datrys anghydfodau. Mae'r pwyslais ar gydweithio ac ymgynghori er mwyn cael canlyniad sy'n dderbyniol i'r ddwy ochr. Mae'r Bennod ar ddatrys anghydfodau (Pennod 19 ac Atodiad 19-A) yn amlinellu'r broses ar gyfer sefydlu panel cymrodeddu. Rhaid i'r partïon gydymffurfio â chanfyddiadau a phenderfyniadau'r panel. Os na fyddant yn gydymffurfio, gall yr ochr sy'n cwyno gael iawndal neu atal y Cytundeb dros dro. Gall y partïon hefyd gytuno ar ffyrdd gwahanol o ddatrys anghydfodau, gan gynnwys drwy gymwynas, cymodi, cyfryngu neu hyd yn oed drwy broses Sefydliad Masnach y Byd. Mae Pennod ar wahân yn y Cytundeb (Pennod 10) yn amlinellu'r broses sydd i'w dilyn wrth ddatrys anghydfodau sy'n ymwneud â buddsoddi.

Sefydliad Masnach y Byd

A.17 Yn Sefydliad Masnach y Byd, gall anghydfod ddigwydd pan fydd un wlad yn mabwysiadu polisi masnach neu'n gwneud penderfyniad sydd ym marn aelod arall o Sefydliad Masnach y Byd yn groes i'w hymrwymiaid fel aelod o'r Sefydliad. Cyfrifoldeb y Corff Datrys Anghydfodau yw datrys anghydfodau, ac mae holl aelodau Sefydliad Masnach y Byd wedi'u cynrychioli ar y corff hwn.

A.18 Mae'r dull cyffredinol o ddatrys anghydfodau yn Sefydliad y Masnach y Byd fel a ganlyn: y cam cyntaf yw ymgynghori, lle bydd gwledydd yn ceisio datrys pethau eu hunain. Mae gan y Corff Datrys Anghydfodau awdurdod i sefydlu 'panel' er mwyn ystyried rhinweddau'r achos mewn anghydfod penodol. Yn dechnegol, dim ond cynghori'r Corff Datrys Anghydfodau y bydd y panel ynghylch datrys yr anghydfod, ond yn ymarferol, prin yw'r achosion pan gaiff ei gasgliadau eu gwyrddio, gan y byddai hyn yn gofyn am gonsensws negyddol sy'n cynnwys y Parti neu'r Partion ar ochr arall yr anghydfod (h.y. yr ochr a enillodd). Os bydd y panel yn penderfynu bod y cam masnachol a gymerwyd yn groes i un o gytundebau Sefydliad Masnach y Byd, bydd yn argymhell cymryd camau i gydymffurfio â'r rheolau, a daw ei adroddiad yn benderfyniad gan y Corff Datrys Anghydfodau oni fydd mwyafrif o aelodau Sefydliad Masnach y Byd yn ei wrthod. Mae'n bosibl apelio yn erbyn yr adroddiad ar sail pwynt cyfreithiol. Gall y Corff Datrys Anghydfodau sefydlu Corff Apeliadau a all gadarnhau, addasu neu wrthdroi canfyddiadau'r panel. Rhaid i'r Corff Datrys Anghydfodau dderbyn neu wrthod adroddiad yr apêl – a dim ond drwy gonsensws y gellir ei wrthod.

A.19 Mae'n rhaid cydymffurfio â phenderfyniad y Corff Datrys Anghydfodau – os na fydd hyn yn digwydd mewn 'cyfnod rhesymol', rhaid i'r parti a gollodd gynnal trafodaethau â'r sawl a oedd yn cwyno i benderfynu ar iawndal sy'n dderbyniol i'r ddwy ochr. Os nad oes modd cytuno ar iawndal o fewn 20 diwrnod, gall y sawl sy'n cwyno ofyn i'r Corff Datrys Anghydfodau am ganiatâd i dalu'r pwyth. Bwriedir i unrhyw gamau a gymerir i dalu'r pwyth fod yn rhai dros dro yn unig, a'r nod yw annog y wlad arall i gydymffurfio.

A.20 Yn ymarferol, er bod penderfyniadau'r Corff Datrys Anghydfodau yn rhwymo'r parti a gollodd i gydymffurfio â rheolau Sefydliad Masnach y Byd, mae'n golygu y gellir gorfodi'r penderfyniad mewn sawl ffordd – gan gynnwys setliad cyfeillgar, iawndal, neu atal consesiynau masnach.¹⁰¹ Yn wir, am y rheswm hwn, canfu Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd yn achos *Portiwgal v Y Cyngor* nad oedd penderfyniad gan y Corff Datrys Anghydfodau yn gorfodi'r parti a gollodd i roi argymhellion y corff ar waith yn llwyr, pan fyddai'r posibilrwydd o iawndal dros dro neu gamau posibl i dalu'r pwyth yn dal i fod ar gael.¹⁰² Mewn geiriau eraill, roedd y canlyniad wedi'i ragnodi, ond nid sut i'w roi ar waith.¹⁰³ Mae hyn yn groes i'r sefyllfa o dan gyfraith yr UE, lle mae hawl i gael camau unioni effeithiol yn unol â dyfarniad corff barnwrol.

¹⁰¹ 'Dispute Settlement Understanding (DSU)', Sefydliad Masnach y Byd, 1994.

¹⁰² *Portiwgal v Y Cyngor* (C-149/96), Penderfyniad y Llys, 1999.

¹⁰³ Mae hyn yn debyg i'r dull yn yr Unol Daleithiau, sydd hefyd yn gwrthod rhoi effaith uniongyrchol i rwymedigaethau o dan y Cytundeb Cyffredinol ar Dariffiau a Masnach (GATT).

Atodiad B – Y DU/Iwerddon

Trosolwg

B.1 Iwerddon yw ein cymydog agosaf, a'r unig wlad y rhannwn ffin ar y tir â hi. Mae ein gwledydd wedi'u plethu ynghyd drwy'r hanes, diwylliant a'r ddaearyddiaeth rydym yn eu rhannu, a thrwy ein hymrwymiad ar y cyd i Gytundeb Belfast sy'n sylfaen i sefydlogrwydd gwleidyddol yng Ngogledd Iwerddon.

B.2 Mae Prif Weinidog y DU a'r Taoiseach yn draddodiadol wedi cynnal uwchgynhadledd flynyddol i edrych ar y cynnydd a wneir, ac mae Ysgrifenyddion Parhaol ac Ysgrifenyddion Cyffredinol y DU ac Iwerddon yn cyfarfod bob hydref i drafod y cynnydd ac i gynnal momentwm.

B.3 Mae'r Llywodraeth yn benderfynol o warchod a datblygu'r cysylltiadau hanesyddol cryf rhwng y DU ac Iwerddon wrth i'r DU baratoi i adael yr UE.

Gogledd Iwerddon

B.4 Nid yw'n perthynas ag Iwerddon yn bwysicach yn unman yn y DU nag yng Ngogledd Iwerddon.

B.5 Polisi'r Llywodraeth hon yw sicrhau bod Gogledd Iwerddon yn lle diogel, sefydlog a ffyniannus, a hynny o fewn Teyrnas Unedig gref. Rydym wedi ymrwymo i'r egwyddor o gydsyniad a geir yng Nghytundeb Belfast, sy'n ei gwneud yn glir bod sefyllfa gyfansoddiadol Gogledd Iwerddon yn fater i bobl Gogledd Iwerddon benderfynu yn ei gylch. Fodd bynnag, rydym wedi datgan yn glir ein bod yn ffafrio cadw sefyllfa gyfansoddiadol bresennol Gogledd Iwerddon: fel rhan o'r DU, ond â chysylltiadau cryf ag Iwerddon. Bydd cynnal sefydlogrwydd gwleidyddol yng Ngogledd Iwerddon yn rhan ganolog o'r polisi hwnnw. Mae hyn, yn ei dro, yn ddibynnol ar nifer o elfennau, gan gynnwys:

- economi sy'n tyfu, sy'n dibynnu ymhlith pethau eraill ar gysylltiadau ymarferol ar draws y ffin;
- polisi craffu effeithiol, sy'n hanfodol er mwyn cydweithredu ar draws y ffin; a
- parhau i lynu wrth y fframwaith gyfansoddiadol, a'r hawliau a'r sefydliadau a ddarperir ar eu cyfer yng Nghytundeb Belfast.

B.6 Mae'r Llywodraeth yn cydnabod bod amgylchiadau penodol Gogledd Iwerddon yn golygu bod nifer o heriau penodol i'w hystyried wrth baratoi i adael yr UE. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod gadael yn llwyddiant i'r DU gyfan, gan gynnwys Gogledd Iwerddon, ac i weithio â Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon er mwyn sicrhau bod amgylchiadau penodol Gogledd Iwerddon yn cael sylw yn ein paratoadau ehangach.

Hawliau dinasyddion Prydain ac Iwerddon

B.7 Ers ymhell cyn sefydlu'r UE, bu gan ddinasyddion Iwerddon statws arbennig yn y DU, a hynny wedi'i wreiddio yn Neddf Iwerddon 1949 ac wedi'i adlewyrchu yn y Deddfau Cenedligrwydd Prydeinig. Mae'r statws hwn yn rhoi hawliau ychwanegol i ddinasyddion Iwerddon yn y DU, y tu hwnt i'r hawliau sy'n dod yn sgil bod yn aelodau cyffredin o'r UE. Mae trefniadau tebyg yn bodoli ar gyfer dinasyddion Prydain yn Iwerddon. At hynny, roedd Cytundeb Belfast yn cadarnhau hawl pobl Gogledd Iwerddon i'w diffinio'u hunain yn Brydeinwyr, yn Wyddelod, neu'r ddau; i gael dinasyddiaeth yn unol â hynny; ac i gael eu trin yn gyfartal waeth pa hunaniaeth a ddewisant.

B.8 Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo'n llwyr i Gytundeb Belfast ac yn cydnabod pwysigrwydd cynnal statws arbennig dinasyddion Iwerddon yn y DU. Fel yr eglurwyd ym Mhennod 4, byddwn yn diogelu'r trefniant dwyochrog hwn ar ôl i'r DU adael yr UE.

Galluogi pobl i symud yn rhydd ar draws y ffin ar y tir

B.9 Mae'r Ardal Deithio Gyffredin wedi galluogi pobl i symud yn rhydd rhwng y DU ac Iwerddon (ac Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw) am bron i ganrif. Trefniant gweinyddol oedd hwn yn wreiddiol, ond mae bellach yn cael ei adlewyrchu ym mholisi mewnfudo cenedlaethol y naill wladwriaeth a'r llall.

B.10 Rydym yn rhoi gwerth ar yr hyblygrwydd y mae'r Ardal Deithio Gyffredin yn ei roi ar gyfer galluogi pobl i symud yn rhydd rhwng yr ynysoedd hyn. Mae hyn yn arbennig o bwysig yng Ngogledd Iwerddon, lle mae cymunedau wedi'u cysylltu ar draws y ffin ar y tir ag Iwerddon. Fel yr eglurwyd ym Mhennod 4, rydym yn awyddus i ddiogelu'r gallu i symud yn rhydd rhwng y DU ac Iwerddon, rhwng y gogledd a'r de a rhwng y dwyrain a'r gorllewin, gan gydnabod pwysigrwydd arbennig hyn i bobl yn eu bywydau bob dydd, yn enwedig ar ynysoedd Iwerddon.

Cynnal masnach rydd a dirwysr, yn arbennig ar draws y ffin ar y tir

B.11 Mae perthynas agos rhwng economïau'r DU ac Iwerddon, drwy fuddsoddiadau masnach a thrawsffiniol yn ogystal â thrwy ganiatáu i nwyddau, cyfleustodau, gwasanaethau a phobl deithio'n ddirwysr. Mae dros 50 o gwmnïau o Iwerddon wedi'u rhestru ar Gyfnewidfa Stoc Llundain, mwy nag o unrhyw wlad arall.¹⁰⁴

B.12 Mae economi Gogledd Iwerddon wedi'i hintegreiddio'n ddwfn ag economi Iwerddon. Yn 2015, Iwerddon o bell ffordd oedd partner masnachu mwyaf Gogledd Iwerddon, gydag allforion nwyddau yn werth £2.1 biliwn (33 y cant o gyfanswm yr allforion nwyddau) a mewnforyn yn werth £1.6 biliwn (27 y cant).¹⁰⁵ Mae natur integredig y ddwy economi yn arbennig o berthnasol yn y sector amaeth-bwyd a'i gadwyn gyflenwi. Mae'r sector hwn yn hynod o bwysig i economi Gogledd Iwerddon, ac fe'i disgrifir weithiau yn 'asgwrn cefn' i'r economi honno.¹⁰⁶ Mae llawer o'r hyn a elwir yn 'fasnach drawsffiniol' rhwng Gogledd Iwerddon ac

¹⁰⁴ 'List of all companies', Cyfnewidfa Stoc Llundain, Rhagfyr 2016.

¹⁰⁵ 'Regional Trade Statistics, Third Quarter 2016', Cyllid a Thollau EM, Rhagfyr 2016.

¹⁰⁶ 'Size and Performance of the Northern Ireland Food and Drinks Processing Sector, Subsector Statistics 2014 with provisional estimates for 2015', cyhoeddwyd gan DAERA ym mis Gorffennaf 2016.

Iwerddon yn cynnwys masnach allanol, yn y ffordd y byddai hynny'n cael ei gydnabod yn arferol, yn ogystal â masnach leol mewn marchnadoedd lleol sy'n digwydd bod wedi'u lleoli dros y ffin. Mae tua 30 y cant o'r llaeth a gynhyrchir ar ffermydd Gogledd Iwerddon (dros 600 miliwn litr) yn cael ei allforio i'w brosesu yn Iwerddon.¹⁰⁷ Caiff dros 10,000 o foch byw eu hallforio o Iwerddon i Ogledd Iwerddon bob wythnos.¹⁰⁸ Mae bywyd, diod a thybaco yn gyfrifol am tua 48 y cant o'r fasnach weithgynhyrchu drawsffiniol.¹⁰⁹

B.13 Mae'r Farchnad Drydan Sengl ar ynys Iwerddon yn rhoi trydan fforddiadwy, cynaliadwy a diogel i fusnesau a chartrefi Iwerddon a Gogledd Iwerddon ill dau. Pwysleisiodd cyn-Brif Weinidog a chyn-Ddirprwy Brif Weinidogion Gogledd Iwerddon fod hon yn flaenoriaeth bwysig i Ogledd Iwerddon ac mae'r Llywodraeth hon yn cydnabod pwysigrwydd diogelu'r farchnad hon ar ôl gadael yr UE.

B.14 Fel yr eglurir ym Mhennod 8, rydym yn awyddus i sicrhau bod modd masnachu ar draws ffiniau â'r UE – ac ag Iwerddon yn benodol – mewn ffordd mor ddirwystr â phosibl pan fyddwn yn gadael yr UE. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau cytundeb gadael sy'n gweithio i'r DU gyfan, gan gynnwys Gogledd Iwerddon. Byddwn yn gweithio â Llywodraeth Iwerddon a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon i leihau'r rhwystrau a'r baich gweinyddol gymaint ag y bod modd, ac i ddod o hyd i ateb ymarferol sy'n golygu bod cyn lleied o rwystrau a rhaniadau ar y ffin â phosibl, gan gydnabod y cyd-destun economaidd, cymdeithasol a gwleidyddol unigryw ar y ffin ar y tir rhwng Gogledd Iwerddon ac Iwerddon.

Cydweithio trawsffiniol cryf ar blismona a chyfiawnder

B.15 Mae Pennod 11 yn pwysleisio bod y Llywodraeth hon yn credu ei bod yn hynod bwysig parhau i gydweithio'n helaeth â'n partneriaid Ewropeaidd yn y frwydr yn erbyn troseddau a therfysgaeth. Rydym yn cydnabod arwyddocâd penodol hyn yng Ngogledd Iwerddon. Argymhellodd yr adolygiadau o blismona a chyfiawnder yn dilyn Cytundeb Belfast gryfhau'r modd yr oedd asiantaethau sy'n gorfodi'r gyfraith ac asiantaethau cyfiawnder troseddol a sifil yn cydweithio.¹¹⁰ Mae'r cydweithio a'r cydweithredu effeithiol a geir heddiw rhwng yr asiantaethau cyfiawnder a diogelwch yng Ngogledd Iwerddon ac Iwerddon yn hanfodol er mwyn atal bygythiad grwpiau parafilwrol, sy'n ceisio bygwth diogelwch Gogledd Iwerddon a thanseilio'r sefydlogrwydd gwleidyddol yno. Mae'r cydweithio gweithredol ac ymarferol hwn ar draws y ffin yn enghraifft o'r math o berthynas yr ydym am ei chael â'r UE ar ôl gadael.

¹⁰⁷ 'Annual Report and Accounts', Yr Asiantaeth Laeth Genedlaethol, 2015.

¹⁰⁸ 'Brexit Briefing Document', Bord Bia, Mehefin 2016.

¹⁰⁹ 'Sectoral Cross Border Trade', InterTradeIreland, 2015.

¹¹⁰ 'Policing and Justice, The Belfast Agreement', Swyddfa Gogledd Iwerddon, Ebrill 1998; 'A New Beginning: Policing in Northern Ireland, The Report of the Independent Commission on Policing for Northern Ireland', Swyddfa Gogledd Iwerddon, Medi 1999; 'Review of the Criminal Justice System in Northern Ireland', Y Llyfrfa, Mawrth 2000.

ISBN 978-1-4741-4065-2



9 781474 140652